

wavehill™

social and economic research
ymchwil cymdeithasol ac economaidd

Gwerthuso, Casgliadau ac Argymhellion Rhaglen Arfor

Hydref 2021



ARFOR

Creu Gwaith - Cefnogi'r Iaith



Wavehill: ymchwil cymdeithasol ac economaidd

- Swyddfa Cymru: 21 Sgwâr Alban, Aberaeron, Ceredigion, SA46 0DB (swyddfa gofrestredig)
- Swyddfa Gorllewin Lloegr: 2-4 Park Street, Bryste, BS1 5HS
- Swyddfa Gogledd Lloegr: Milburn House, Dean Street, Newcastle, NE1 1LF
- Swyddfa Llundain: 52 Cecile Park, Crouch End, Llundain, N8 9AS

Manylion Cyswllt:

Ffôn: 01545 571711

E-bost: wavehill@wavehill.com

Twitter: @wavehilltweets

Rhagor o wybodaeth:

www.wavehill.com

<https://twitter.com/wavehilltweets>

© Wavehill: ymchwil cymdeithasol ac economaidd.

Mae'r adroddiad hwn yn amodol ar hawlfraint. Dylid cydnabod awduron yr adroddiad (Wavehill: ymchwil cymdeithasol ac economaidd) mewn unrhyw gyfeiriad a wneir at ei gynnwys.

Awduron yr adroddiad:

Dyfan Powel

Dylai unrhyw gwestiynau mewn perthynas â'r adroddiad hwn gael eu cyfeirio yn y lle cyntaf at Dyfan Powel (dyfan.powel@wavehill.com)

Dyddiad y ddogfen: Hydref 2021

Fersiwn: Terfynol

Cyswllt cleient:

Anwen Davies | anwendavies@gwynedd.llyw.cymru)

Cynnwys

1	Cyflwyniad.....	2
1.1	Cefndir.....	2
1.2	Cyd-destun	9
1.3	Y Gwerthusiad	11
2	Trafod rhaglenni a chanfyddiadau unigol.....	14
2.1	Allbynnau a Chanlyniadau'r Rhaglen.....	14
2.2	Cefnogaeth/Cyllid Busnes Uniongyrchol:.....	15
2.3	Llwyddo'n Lleol.....	35
2.4	Ffiws/Gofod Creu	40
2.5	Cymunedau Mentrus.....	41
2.6	Bwrlwm Arfor	43
3	Gwerthuso Proses	44
3.1	Rhesymeg y prosiect	44
3.2	Cynllun.....	48
3.3	Cyflwyno.....	49
3.4	Rheoli.....	51
3.5	Pandemig ac effaith allanol arall.....	53
3.6	Effaith	54
3.7	Gweithio mewn partneriaeth.....	54
3.8	Gwaddol a chynaliadwyedd	56
4	Trafodaeth a Gwersi.....	57
4.1	Trafodaeth ar y canlyniadau	57
4.2	Yr Effaith.....	57
4.3	Y broses a'r model cyflwyno	60
5	Casgliadau	70
5.1	Crynodeb o'r Gwersi.....	71
	Adroddiad: Ffynonellau Cyfeiriedig	73

1 Cyflwyniad

1.1 Cefndir

Gwelodd yr 20fed ganrif ostyngiad cyson yng nghanran y siaradwyr Cymraeg yng Nghymru. Yn ystod ail hanner y ganrif, gwnaed ymdrechion gan unigolion, cymdeithas sifil ac, yn fwy diweddar, llywodraethau'r DU a Chymru i geisio atal y gostyngiad a sicrhau cynaliadwyedd yr iaith. Cyflwynwyd deddfwriaeth a rhoddwyd statws swyddogol i'r Gymraeg, tra daeth addysg i'r amlwg fel un o'r prif ddulliau i adfywio'r iaith, gan sicrhau bod gan garfannau sylweddol o bobl ifanc y sgiliau i fyw a gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg.

Fodd bynnag, er gwaethaf y llwyddiannau hyn, mae'r bygythiad i gynaliadwyedd yr iaith Gymraeg yn parhau, yn enwedig o fewn ardaloedd penodol yng Nghymru. Yn fwyaf nodedig, mae'r ardaloedd daearyddol, sy'n gartref i ganrannau mawr o siaradwyr, h.y. y 'cadarnleoedd', yn dal i gael eu hystyried yn feysydd pryder. Mae'r cwmp diweddar mewn siaradwyr a gofnodwyd yng nghyfrifiad 2011 wedi atgyfnerthu'r gred eang bod y Gymraeg, fel iaith bywyd gwaith a chymuned bob dydd, dan fygythiad.

Cyfeirir yn aml at siroedd Gwynedd, Ynys Môn, Ceredigion, a Sir Gâr fel y cadarnleoedd, er bod sawl sir neu ardal o fewn siroedd eraill yn rhannu nodweddion tebyg fel Dyffryn Conwy, Gogledd Sir Benfro, ac ardaloedd o Glwyd a Phowys. Mae consensws cyffredinol bod y cadarnleoedd hyn yn rhannu nodweddion cymdeithasol, economaidd a diwylliannol tebyg, gan gynnwys:

1. Canran fawr o siaradwyr Cymraeg
2. Pobl hŷn yn mewnfudo, pobl ifanc yn allfudo
3. Gwledig, gyda dibyniaeth ar amaethyddiaeth, bwyd a thwristiaeth
4. Trefi marchnad a threfi prifysgol
5. Canran fawr o swyddi yn y sector cyhoeddus
6. Y cyflogau isaf ym Mhrydain, ac ymhlith y cyflogau isaf yn Ewrop.

Er eu bod yn cael eu cydnabod fel ardaloedd lle bu'r Gymraeg yn hanesyddol yn brif iaith bywyd cymunedol a gwaith, mae consensws pellach bod prosesau economaidd wedi bod yn ffactor ac yn rheswm dros ddirywiad yr iaith yn yr ardal. Ar ben hynny, bu diddordeb ac, yn fwy diweddar, ewyllys gwleidyddol i ddatblygu ymyriadau economaidd a all gefnogi'r iaith a'i galluogi i ffynnu yn y meysydd hyn. Mae'r pedwar awdurdod lleol hefyd yn rhannu ac yn cefnogi awydd i weithio mewn partneriaeth i sefydlu fframwaith datblygu economaidd a chynllunio iaith i ymateb i'r her.

1.1.1 Beth yw Arfor

Yn dilyn trafodaethau cyllidebol rhwng Plaid Cymru a Llywodraeth Cymru dan arweiniad Llafur, clustnodwyd cyllideb o £2 miliwn ar gyfer rhaglen Arfor yn ystod y cyfnod 2019–2021. Amlinellodd y cynnig ar gyfer Cronfa Arloesi Arfor y meini prawf eang canlynol ar gyfer cynlluniau penodol y gellid eu hariannu:

- a. Prosiectau sy'n cynyddu defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle
- b. Prosiectau a oedd yn canolbwyntio ar greu amodau ffafriol.
- c. Prosiectau sy'n cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn y gymuned fusnes.

Yn benodol, roedd y cyllid ar gael gan Lywodraeth Cymru i'r pedwar awdurdod lleol hwyluso dulliau newydd ac arloesol i gefnogi datblygu economaidd yn y rhanbarth trwy:

- Hyrwyddo menter a chefnogi twf busnes mewn ardaloedd sydd â chyfran uchel o siaradwyr Cymraeg.
- Cynhyrchu mwy o swyddi â chyflog gwell i gadw pobl leol yn yr ardaloedd hyn ac annog y rhai sydd wedi gadael i ddychwelyd.
- Hyrwyddo gwerth eang o ddefnyddio'r Gymraeg a dwyieithrwydd mewn busnes gan greu naws am le bywiog.
- Annog y busnesau a'r bobl sy'n symud i ardaloedd gwledig i werthfawrogi a defnyddio'r Gymraeg.

Er mai dyma oedd nodau cyffredinol y rhaglen, bydd y gwerthusiad hwn yn canolbwyntio ar y cynlluniau unigol, a'r modd y gwnaethant gyfrannu at y nodau hyn. Ar ben hynny, mae'r gwerthusiad yn archwilio'n ymwybodol i ba raddau y mae'r rhaglen wedi cyflawni ei nod penodol ei hun, sef creu 'mwy o swyddi a swyddi gwell'. Mae gwneud hynny yn galluogi i'r gwerthusiad archwilio rhesymeg a theori newid y rhaglen, a drafodir yn fanwl isod.

Gallai'r pedwar Awdurdod Lleol (ALI) yng Ngorllewin Cymru ddefnyddio'r arian i weithio mewn partneriaeth i **dreialu a gwerthuso ymyriadau economaidd** yn yr ardal.

Neilltuwyd cyfran o'r arian hefyd i ddatblygu cynllun strategol. Fodd bynnag, daethpwyd i'r casgliad nad oedd yn bosibl argymhell ystod o gamau penodol, a oedd yn sicr o gael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg. Datblygwyd Adroddiad Interim yn lle, yn amlinellu canlyniadau'r ymchwil a'r gwaith paratoi ar gyfer strategaeth fanylach. Gwnaeth argymhellion ar gyfer gweithredu pellach gan y pedwar awdurdod lleol i gyrraedd y pwynt lle byddai'n bosibl adnabod ymyriadau economaidd sy'n debygol o gael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg.

Nodwedd allweddol o'r rhaglen yw ei bod yn anelu at ddatblygu **ymyriadau economaidd ac nid ymyriadau ieithyddol**. Mae hwn yn wahaniaeth pwysig. Fel y nodir isod gan adlewyrchu canfyddiadau tîm Adfywio o Brifysgol Aberystwyth ac ymchwil ehangach, yn aml wrth drafod a datblygu ymyriadau ynghylch y berthynas rhwng yr economi a'r iaith, mae'r ffocws ar ddefnydd yr iaith gan fusnesau neu o fewn busnesau. Fodd bynnag, mae'r arian hwn wedi'i glustnodi ar gyfer pob math o ddatblygiad economaidd sy'n ofynnol i greu gwell cyfleoedd gwaith a mwy ohonynt, a fydd, yn ei dro, yn cyfrannu at sicrhau ffyniant yr iaith Gymraeg.

Rhaglen economaidd yw Arfor, sy'n datblygu ymyriadau economaidd a fydd o ganlyniad yn cael effaith gadarnhaol neu fuddiol ar y Gymraeg.

Rhesymeg a Theori Newid

Roedd y ffaith y bu'n rhaid datblygu rhaglen weithredol ar fyrder yn cyfyngu i ba raddau yr oedd y tîm rheoli yn gallu datblygu strategaeth gynhwysfawr a theori newid. Nid oedd amser ychwaith i dreialu syniadau na datblygu llawer o gynlluniau pwrpasol. Roedd yn rhaid i'r rhaglen dynnu ar syniadau presennol neu fecanweithiau cymharol syml ar gyfer cefnogi busnesau. Cyflwynodd y pedwar awdurdod lleol cyfres o syniadau i gael eu hariannu gan y rhaglen. Roedd rhywfaint o orgyffwrdd, yn enwedig mewn perthynas â darparu cyllid i fusnesau, a rhywfaint o wyro yn y cynllun (manyion isod).

Gellir crynhoi rhesymeg y rhaglen a'r rhesymeg yrru y tu ôl i ddatblygu cynlluniau trwy ei is-bennawd, '**creu mwy o swyddi a swyddi gwell**'. Roedd y rhesymeg hon yn glir mewn cyfweiliadau cwmpasu â staff rheoli ac roedd yn adlewyrchu canfyddiad a dealltwriaeth ehangach o effaith ymyriadau economaidd ar y Gymraeg.

Yn y bôn, y “broblem” o fewn cymunedau gwledig Cymraeg eu hiaith oedd bod pobl, yn enwedig pobl ifanc, yn mudo allan o'r ardal, a gyda nhw yn peryglu cynaliadwyedd a hyfywedd yr iaith Gymraeg mewn cymunedau. Credir yn barhaus bod y bobl hyn yn gadael i ddod o hyd i well cyflogaeth yn rhywle arall. O ganlyniad, ac yn rhesymegol, bydd creu mwy o swyddi a swyddi gwell yn galluogi i fwy o bobl aros yn yr ardal.



Archwiliwyd y rhesymeg hon yn feirniadol yn Adroddiad Interim Gwerthuso Arfor. Daeth yr adroddiad i'r casgliad, er bod tystiolaeth i gefnogi'r syniad bod pobl ifanc yn gadael yr ardal, bod eu cymhellion yn llawer mwy cymhleth. Mae pobl ifanc yn debygol o adael yr ardal am nifer o resymau, gan gynnwys awydd i chwilio am gyffro, symud i ardaloedd mwy bywiog yn ddiwylliannol, neu'n syml i ymuno â ffrindiau neu nifer fawr eraill o bobl ifanc. Ar ben hynny, mae'r llenyddiaeth academiaidd ehangach yn awgrymu bod materion heblaw diffyg swyddi yn eu gwthio i ffwrdd o'r ardal. Mae'r rhain yn cynnwys diffyg cyfleoedd addysg a hyfforddiant, diffyg cyfleoedd adloniant a diwylliannol, seilwaith trafndiaeth gwael a thueddiad gwasanaethau ehangach i gymunedau gwledig fod yn fwy ceidwadol yn gymdeithasol.

Serch hynny, ceisiodd Arfor, yn ei iteriad cyfredol, 'greu mwy o swyddi a swyddi gwell' gan ddisgwyl y byddai hyn yn fuddiol i'r Gymraeg, yn enwedig o ran cadw pobl ifanc yn yr ardal. Fodd bynnag, roedd staff, fel y manylir isod, yn ymwybodol o ystyriaethau ehangach ac yn tueddu i werthfawrogi bod y "broblem" yn fwy cymhleth nag yr oedd rhesymeg y rhaglen wedi'i sefydlu.

Rheoli

Dechreuodd Arfor y broses o ddatblygu ei gynlluniau yn ystod haf-hydref 2019 a dechreuodd dderbyn ceisiadau yn ddiweddarach y flwyddyn honno. Nodwyd 2020 fel blwyddyn allweddol i gyflawni, ond cafodd pandemig Coronafirws effaith sylweddol arni, a drafodir yn fanwl mewn perthynas â'r cynlluniau penodol.

Yn strwythurol, mae Arfor yn cynnwys Bwrdd, y mae ei aelodaeth yn cynnwys Aelodau etholedig o'r pedwar awdurdod lleol (yn benodol dewisodd Arweinwyr y pedwar Awdurdod ymgymryd â'r rôl hon) a chynrychiolaeth gan Lywodraeth Cymru (o dimau datblygiad economaidd a'r iaith Gymraeg) a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA). Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am oruchwylio'r rhaglen yn strategol. Cyfrifoldeb Grŵp Swyddogion, swyddogion o'r pedwar awdurdod lleol, swyddogion o safbwyntiau datblygiad economaidd a'r Gymraeg o fewn Llywodraeth Cymru a WLGA, yw rheoli a chyflwyno gweithredol. Cymerodd un awdurdod lleol (Gwynedd) gyfrifoldeb am weinyddu'r rhaglen gyfan a chydlynu gwaith y pedwar awdurdod lleol.

Cyflwyno

Cyflwynwyd gweithgaredd yn uniongyrchol yn bennaf gan yr Awdurdodau Lleol gan ddefnyddio'r adnoddau presennol. Ym mhob ardal roedd aliniad agos â gweithgareddau Rhaglen LEADER¹ yn lleol ynghyd â gweithgareddau cymorth busnes / datblygu economaidd ehangach yr ardal a thrwy Fentrau Iaith yr ardal.

Yng Ngwynedd ac Ynys Môn, rhoddwyd cyflwyno rhai gweithgareddau Arfor ar gontract allanol i Fenter Môn. Mae Menter Môn yn gwmni nid-er-elw sy'n rhedeg nifer o fentrau gyda'r nod o ddarparu datrysiadau i'r heriau sy'n wynebu cefn gwlad Cymru. Yn nodedig, Menter Môn yw'r corff gweinyddol ar gyfer Grwpiau Gweithredu Lleol LEADER yn y ddwy sir (Arloesi Gwynedd Wledig ac Arloesi Môn) a'r fenter iaith leol yn Ynys Môn, Menter Iaith Môn. Roedd Menter Môn wedi datblygu cysyniad Llwyddo'n Lleol, a ariannwyd trwy'r rhaglen Arfor ac a oedd yn gweithredu ar draws Gwynedd ac Ynys Môn. Cyflwynodd staff Menter Môn y rhaglen honno, a chyfwelwyd ei staff yn rhinwedd y swydd honno ar gyfer yr adroddiad hwn. Roedd Menter Môn hefyd yn rheoli un gronfa grant ar ran Cyngor Sir Ynys Môn.

¹ Wedi'i ariannu drwy Raglen Datblygu Gwledig Cymru, mae LEADER wedi'i gynllunio i gefnogi pobl leol, busnesau a chymunedau i ddod yn rhan o gyflwyno datrysiadau cynaliadwy, ond arloesol, i fynd i'r afael â rhai o'r heriau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol sy'n wynebu ardaloedd gwledig.

Cynlluniau Arfor

Yng ngoleuni'r amserlen gyfyngedig ar gyfer datblygu a chyflwyno a'r gyllideb gymharol gymedrol daethpwyd i gonsensws yn haf 2019, y byddai pob Awdurdod Lleol yn datblygu ei gynlluniau ei hun fel y prif fodd o gyflwyno. Nodwedd allweddol o holl gynlluniau Arfor yw'r raddfa. **Ymyriadau ar raddfa fach yw'r rhain gyda photiau cyllid cymharol fach.** Y nod oedd treialu ystod o gynlluniau, heb sicrhau effaith barhaol neu sylweddol ar economi ac iaith yr ardal. At hynny, ychydig o'r ymyriadau a geisiodd fynd i'r afael â gwendidau strwythurol economi'r ardal. Pwysleisir y pwyntiau hyn oherwydd y canfyddiad ymhlith rhai rhanddeiliaid, yn enwedig yn y cam Adroddiad Gwerthuso Interim, fod y rhaglen yn cynnwys o leiaf camau cychwynol buddsoddiad strwythurol sylweddol yn yr ardal, yn debyg i Fargeinion Twf. **Treialon ar raddfa fach yw'r rhain gyda charfannau bach o fuddiolwyr.** Y nod yw **profi ymyriadau a dysgu gwersi.** Sefydlwyd y cynlluniau canlynol:

Cymorth / cyllid busnes uniongyrchol: Cynigiwyd grantiau busnes uniongyrchol gan y pedwar Awdurdod Lleol, ond gyda rhywfaint o amrywiad. Cynigiwyd grantiau i gefnogi buddsoddiad cyfalaf a refeniw. Cynigiodd Gwynedd becyn cymorth 'Cymorth i Fentro' i helpu busnesau i edrych ar yr hyn yr oeddent am ei ddatblygu dros y pum mlynedd nesaf ac adnabod rhwystrau. Gweithiodd Cynghorwyr Busnes Cymru a Hwb Menter gydag ymgeiswyr i nodi eu gofynion a pha gefnogaeth oedd ar gael, gyda Chymorth i Fentro fel y dewis olaf i fynd i'r afael ag unrhyw anghenion nas diwallwyd. Mae Ynys Môn yn cynnig dau fath o grant, Grant Iaith a Grant Busnes.

Cynigiwyd Grant Busnes Ynys Môn, a oedd yn fwy sylweddol ei werth na'r Grant Iaith, i gefnogi cynlluniau datblygu ac ehangu busnesau. Er eu bod ar wahân i ddechrau, daeth yn gymharol gyffredin i fusnesau gael eu hannog i wneud cais am Grant Iaith i ddechrau, cyn symud ymlaen i Grant Busnes. Roedd y ddau grant yn gofyn, fel rhan o'r broses ymgeisio a chymeradwyo, am adolygiad o broffil iaith y busnes.

Canolbwyntiodd Grant Iaith Ynys Môn yn benodol ar wella gallu, gwasanaethau a chynhyrchion Cymraeg y busnesau. Un o amodau allweddol y grant iaith oedd y byddai'n ofynnol i dderbynwyr ymgysylltu â gwasanaeth Helo Blod ac o leiaf ddechrau dull mwy strategol o ddatblygu gallu a gwasanaethau iaith (gweler yr adran Cyd-destun Polisi isod).

Cynigiodd Ceredigion ddau grant hefyd, Grant Mentro a Grant Twf. Anelwyd y cyntaf at gymorth mynediad busnesau newydd gyda'r heriau a'r costau o sefydlu a dechrau masnachu. Anelwyd yr olaf at fusnesau hirsefydlog a oedd eisiau datblygu. Roedd y broses ymgeisio yn gofyn i fusnesau amlinellu eu cynlluniau i ddatblygu eu gwasanaethau, eu cynhyrchion a'u darpariaeth Gymraeg, ac adnabod camau y byddent yn eu cymryd. Anogwyd ymgeiswyr llwyddiannus hefyd i ymgysylltu â gwasanaeth Helo Blod.

Yn y cyfamser, cynigiodd Sir Gâr grantiau uniongyrchol i unrhyw fusnesau ar yr amod eu bod yn gysylltiedig naill ai â'r diwydiannau creadigol neu'r sectorau bwyd a diod. Mae'r ddau sector hyn yn sectorau allweddol i Sir Gâr a'i strategaeth datblygu economaidd.

Roedd y broses ymgeisio am y grantiau hyn yn gymharol debyg, yn cynnwys ffurflen gais a oedd yn amlinellu eu cynlluniau i ddatblygu'r busnes, cynlluniau i ddatblygu eu darpariaeth o wasanaethau a chynhyrchion Cymraeg ynghyd â manylion mewn perthynas â gwariant. Sgoriwyd a chymeradwywyd pob cais gan banel yn cynnwys swyddogion y cyngor a rhanddeiliaid ehangach. Roedd gan bob awdurdod banel ar wahân. Nodweddd allweddol yr holl grantiau oedd y sgôr anghyffredin o uchel a ddyfarnwyd i ymgysylltiad y cais â'r iaith a'i datblygiad o fewn a chan y busnes.

Llwyddo'n Lleol: Roedd Gwynedd ac Ynys Môn hefyd yn cynnig lleoliadau i bobl ifanc trwy gynllun Llwyddo'n Lleol sy'n cael ei redeg gan Fenter Môn. Roedd y cynllun yn cynnwys rhaglen fentora 11 wythnos, yn cefnogi pobl ifanc wrth iddynt ddatblygu eu syniadau a'u cynlluniau busnes. Ochr yn ochr â'r mentora, roedd disgwyl i'r bobl ifanc ddogfennu eu profiadau trwy'r cyfryngau cymdeithasol, gan anelu yn eu tro at dynnu sylw at y cyfleoedd busnes a'r posibiliadau i bobl ifanc yr ardal.

Ffiws/Gofod Creu: Ariannodd cynllun Ffiws greu lleoedd i wneuthurwyr dros dro o amgylch Gwynedd ac Ynys Môn gan gynnig mynediad am ddim i offer arbenigol, gyda thechnegwyr wrth law i helpu gyda hyfforddiant a defnydd. Roedd y lleoedd yn cynnig mynediad at offer fel argraffwyr 3D a thorwyr laser. Y bwriad oedd cefnogi busnesau lleol i ddatblygu prototeipiau a syniadau am gynnyrch ynghyd ag ennill profiad o ddefnyddio offer arloesol.

Cymunedau Mentrus: Ceisiodd cynllun Cymunedau Mentrus yng Ngwynedd gefnogi busnesau cymdeithasol a mentrau cymunedol i ddatblygu eu cymunedau trwy berchnogaeth gymunedol ac egwyddorion economi sylfaenol, gan edrych ar sut i wneud eu cymunedau'n gadarnach trwy ddatblygu syniad/her i ddatblygu sgiliau a swyddi newydd, a thrwy hynny gefnogi'r iaith Gymraeg.

Bwrlwm ARFOR: I ddechrau, roedd y pedair Sir yn awyddus i gydweithio i ddatblygu ymhellach y cysyniad o 'becynnau croeso' a oedd wedi'u creu cyn y rhaglen. Nod y pecynnau hyn oedd cyfeirio gwasanaethau Cymraeg a chefnogaeth i bobl a oedd yn newydd i'r ardal. Fodd bynnag, gyda'r pandemig yn cael ei ystyried yn rhwystr tebygol i ymgysylltu ag unigolion yn y fath fodd, penderfynodd y tîm rheoli a chyflwyno archwilio dulliau o hyrwyddo busnesau a ddefnyddiai'r iaith Gymraeg fel rhan annatod o'u gweithrediadau. Y nod oedd arddangos buddion hyn i fusnes, eu staff a'u cymunedau. Crëwyd Bwrlwm ARFOR fel platfform ar gyfer astudiaethau achos; podlediadau; fideos; gweithdai ar ddefnyddio'r iaith Gymraeg mewn Busnes www.bwrlwmarfor.cymru.

1.1.2 Canfyddiadau'r Adroddiad Interim Gwerthuso

Datblygwyd yr Adroddiad Interim yn ystod 2020-2021. Daeth i'r casgliad nad oedd yn bosibl cael strategaeth gynhwysfawr a manwl ar gyfer defnyddio ymyriadau economaidd er budd y Gymraeg, oherwydd diffyg data a thystiolaeth gefnogol i adnabod ac argymhell gweithgareddau penodol.

Nododd yr adroddiad, er gwaethaf consensws ymhlith academyddion, Llywodraeth Cymru a sefydliadau cymdeithas sifil bod prosesau ac ymyriadau economaidd yn cynnig ffordd o sicrhau cynaliadwyedd yr iaith Gymraeg, ychydig iawn o drafod a data a gafwyd ynghylch prosesau economaidd penodol a'u heffaith wirioneddol, yn gadarnhaol neu'n niweidiol, ar y Gymraeg. Cefnogodd ymchwil diweddar ar ran Llywodraeth Cymru yr honiad hwn (Thomas, Duggan, Glover a Glyn, 2020), gan adleisio canfyddiadau Dr Huw Lewis a thîm [Adfywio](#) o Brifysgol Aberystwyth.

Er bod tystiolaeth yn cefnogi'r rhagdybiaeth sydd wrth wraidd y rhaglen, sef bod mudo allan o'r ardal yn cael effaith sylweddol a niweidiol ar yr iaith, daeth yr adroddiad i'r casgliad bod diffyg tystiolaeth yn llwyr gefnogi'r awgrym y dylid creu mwy o swyddi a swyddi gwell a fyddai ar ei ben ei hun yn datrys y mater hwnnw.

Awgrymodd yr adroddiad fod materion economaidd strwythurol dyfnach, fel yr economi yn gwyro tuag at sectorau sydd â gwerth sylfaenol is a rhagolygon gwannach ar gyfer twf, cyflogau is na'r cyfartaledd ac anhygyrchedd cymharol tai i bobl ifanc, yn ysgogwyr allweddol wrth wthio pobl ifanc allan o'r ardal.

Ymhellach, mae'r llenyddiaeth ehangach yn ymwneud â mudo gwledig, fel yr archwiler yn yr Adroddiad Interim, yn awgrymu bod materion fel ansawdd bywyd, mynediad at wasanaethau ac addysg, diwylliant ceidwadol a phatriarchaidd ardaloedd gwledig ynghyd ag awydd i ehangu gorwelion a chyrchu cyfleoedd hamdden yn ffactorau pellach a phwysig i'w hystyried mewn perthynas â phobl ifanc yn allfudo.

Mae'r datrysiadau a'r ymyriadau economaidd yn unig sy'n ofynnol felly, yn debygol o olygu canolbwyntio ar ddatblygu amrywiaeth a chefnogi sectorau sy'n debygol o weld mwy o werth a chyflogau uwch. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw ddata ar gael i argymhell pa sectorau neu ffyrdd o weithio sy'n debygol o gael effaith gadarnhaol ar yr iaith yn ogystal ag ar yr economi. O ganlyniad, efallai y bydd ymdrechion i ddenu pobl, siaradwyr Cymraeg yn benodol, a galluogi i bobl symud i mewn i'r ardal neu yn ôl iddi, yn ffyrdd gwell ac efallai mwy effeithiol yn y cyfamser o wneud iawn am allfudo pobl ifanc.

Daeth yr adroddiad i ben trwy wneud pedwar argymhelliad a oedd yn anelu at gefnogi'r broses o ddeall y cysylltiad rhwng y broses economaidd a'r iaith. At hynny, nod yr argymhellion oedd nodi ffyrdd y gellid adnabod a phrif ffyrddio ymyriadau economaidd a oedd o fudd i'r iaith.

Roedd yr argymhellion fel a ganlyn:

1. Yn gyntaf, anelu at gefnogi a pharhau â gwaith cyfredol Arfor o dreialu ac, o bwysigrwydd allweddol, gwerthuso a dysgu o ymyriadau yn yr economi ac i gefnogi busnesau.

2. Yn ail, cynigiodd yr adroddiad y dylid sefydlu grŵp ymchwil (gan gynnwys aelodau o ymhellach i ffwrdd nag arbenigwyr ieithyddol neu'r rhai sydd wedi bod yn gysylltiedig â'r pwnc hwn ers rhai blynyddoedd), i ddatblygu a hyrwyddo dealltwriaeth o'r cysylltiad rhwng yr economi a'r iaith. Dylai'r grŵp werthuso a threialu ymyriadau, adolygu tystiolaeth ac ymchwil ehangach, ac argymhell ymyriadau effeithiol i'w prif ffrydio a'u hyrwyddo o fewn a chan y pedair sir.
3. Yn drydydd, a chyda golwg tymor hir, argymhellodd yr adroddiad y dylid cysylltu'r gwaith â chorff ffurfiol, a all brif ffrydio a hyrwyddo ymyriadau llwyddiannus o fewn yr awdurdodau lleol yn ardal Arfor yn ogystal ag yn allanol. Yn gryno, dylai'r pedwar awdurdod lleol ystyried parhau i weithio gyda'i gilydd yn ffurfiol y tu hwnt i oes y rhaglen a dylent gytuno i brif ffrydio a hyrwyddo ymyriadau llwyddiannus ymysg ei gilydd a thu hwnt.
4. Yn ogystal, gan fod effaith COVID-19 yn debygol o atal prosiectau a gwariant, a gynlluniwyd ar gyfer rhaglen gyfredol Arfor, argymhellodd yr adroddiad y dylid defnyddio'r arian i ddatblygu dealltwriaeth o'r rhesymau pam mae pobl ifanc yn gadael neu'n dychwelyd i ardal Arfor, neu i werthuso nodau prosiectau perthnasol, a weithredir y tu allan i raglen Arfor, megis effaith ieithyddol datblygiadau fel Yr Egin, neu i archwilio'r cynnydd diweddar a glywir ar lafar yn nifer y bobl sy'n dychwelyd i ardal Caernarfon.

Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar werthuso'r gweithgareddau a gynhaliwyd gan raglen Arfor. Fodd bynnag, mae hefyd yn ceisio ystyried a chysylltu'r canfyddiadau â'r cyd-destun ehangach a archwiliwyd yn yr Adroddiad Interim. At hynny, ei nod yw gwerthuso'n feirniadol berthnasedd yr argymhellion sy'n dilyn yn ystod camau olaf rhaglen Arfor.

1.2 Cyd-destun

1.2.1 Y Cyd-destun Polisi

Mae rôl y Gymraeg mewn datblygu economaidd - ac effaith datblygu economaidd ar yr iaith - wedi bod yn bwnc trafod ers blynyddoedd. Yn 2014, cyhoeddodd Grŵp Gorchwyl a Gorffen annibynnol adroddiad yn pwysleisio'r angen am dystiolaeth ac ymchwil bellach mewn perthynas â'r cysylltiad rhwng yr economi a'r iaith.

Mae strategaeth Gymraeg gyfredol Llywodraeth Cymru, '[Cymraeg 2050](#)', yn nodi pwysigrwydd ac effaith y cyd-destun economaidd ar y Gymraeg. Mae'n cyflwyno'r farn bod cadarnleoedd y Gymraeg yn ddibynnol ar swyddi yn y sector cyhoeddus, neu ar swyddi sy'n gysylltiedig â diwydiannau 'gwledig' penodol fel amaethyddiaeth, twristiaeth neu'r diwydiannau bwyd. Mae hefyd yn cydnabod effaith negyddol ffactorau economaidd ar yr iaith a'i chynaliadwyedd yn yr ardaloedd hyn. Yn hyn o beth, mae'n adleisio strategaethau blaenorol fel '[iaith fyw: iaith byw - Strategaeth Iaith Gymraeg 2012 - 2017](#)'. Yn bwysig, fodd bynnag, mae'r strategaeth, sy'n adleisio '[Ffyniant i Bawb: y Strategaeth Genedlaethol](#)', yn cydnabod yr angen am newid economaidd a chymdeithasol ac i ddatblygu'r economi mewn modd a all gynnal yr iaith:

'Ni allwn ddisgwyl i gymunedau sy'n siarad Cymraeg aros yn eu hunfan tra bod natur cymdeithas yn newid. Yn hynny o beth, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yn llawn pwysigrwydd datblygu economi gynaliadwy, ffyniannus mewn ardaloedd gwledig, gan gynnwys yn yr ardaloedd a ddisgrifiwyd yn flaenorol.' (Cymraeg 2050, t.62)

Amlinellodd strategaeth 'Ffyniant i Bawb' Llywodraeth Cymru ei chynlluniau i ddatblygu economi Cymru yn y dyfodol. Beirniadaeth ar y strategaeth, fodd bynnag, yw ei bod yn ddull rhanbarthol sy'n methu ag adnabod 'cadarnleoedd' yr iaith Gymraeg fel rhywbeth sydd angen ystyriaeth economaidd benodol neu amgen. Yn y bôn, mae'r pedair sir wledig, lle mae'r Gymraeg yn gryf ac yn amlwg, wedi'u cynnwys mewn rhanbarthau economaidd lle mae'r Saesneg sydd gryfaf a lle mae'n ymddangos bod y pwyslais yn ymwneud â chanolfannau trefol. Y pryder, felly, yw bod cynllunio iaith economaidd yn debygol o gael ei ddiystyru neu ei israddio mewn cyd-destun rhanbarthol o'r natur hon.

Yn ehangach, roedd canfyddiad ymhlith rhanddeiliaid a gafodd eu cyfweld ar gyfer yr adroddiadau gwerthuso interim a therfynol bod polisi'r llywodraeth yn hanesyddol wedi mynd at ddatblygiad economaidd (gwledig) a pholisi iaith fel meysydd polisi gwahanol, ac anaml y byddai'r olaf yn cael ei integreiddio i'r cyntaf. Lle mae polisi iaith ac economaidd yn cwrdd, mae'n canolbwyntio'n bennaf ar dynnu sylw at, neu uchafu gwerth neu effaith yr iaith o fewn neu ar fusnesau, yn hytrach nag ar gydnabod yr economi a phrosesau economaidd fel offer i ddylanwadu ar yr iaith a'i defnydd.² Yn wir, roedd hwn yn ganfyddiad allweddol o'r Adroddiad Interim, gan adleisio astudiaethau allweddol gan gyrrff ymchwil ac academyddion ehangach. Felly, er bod awydd strategol i gefnogi'r iaith trwy ymyrraeth economaidd yn bodoli, gellir ystyried Arfor fel y cyntaf i geisio defnyddio ymyriadau economaidd yn unig i gefnogi'r iaith.

O ran hyn, felly, mae Arfor yn cynnwys dull sylfaenol wahanol o ddatblygu gwledig, lle mae adfywiad iaith wedi'i integreiddio ac yn nod allweddol ochr yn ochr â rhannu ffyniant. At hynny, mae'r dull a'r ddelwedd o osod adfywiad iaith a chynaliadwyedd fel nod penodol datblygu gwledig ac economaidd yn addas i'r agenda gwledig ehangach.

[Tîm Hybu Comisiynydd y Gymraeg a Helo Blod Busnes Cymru](#)

Roedd dwy ffynhonnell gymorth allweddol i fusnesau sydd eisiau datblygu eu gallu a'u defnydd o'r Gymraeg yn deillio o wasanaeth Busnes Cymru Llywodraeth Cymru a thîm cymorth busnes *Hybu Comisiynydd y Gymraeg*. Cynlluniwyd gwasanaeth Helo Blod Busnes Cymru i gynnig gwasanaethau cyfieithu a phrawf ddarllen cyflym a hygyrch i fusnesau ac elusennau. Mae'r gwasanaeth hefyd yn cynnig cyngor mewn perthynas â defnyddio'r Gymraeg o fewn y busnes neu'r elusen. Mae tîm cymorth busnes *Hybu Comisiynydd y Gymraeg* yn ceisio hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg o fewn busnesau a chefnogi busnesau unigol yn eu hymdrechion i ddatblygu eu gallu a'u gwasanaethau.

²Ar hyn o bryd mae dwy ffynhonnell gymorth allweddol i fusnesau a'r economi sy'n ymwneud â'r Gymraeg. Sef gwasanaeth Helo Blod Busnes Cymru, a thîm cymorth busnes Comisiynydd y Gymraeg.

Mae'r gwasanaeth yn cynnig ystod o gefnogaeth gan gynnwys cyngor ac arweiniad, ynghyd â phroffilio a chefnogi cynlluniau datblygu iaith ar gyfer busnesau unigol.

Gellir gweld bod y rhain yn cynrychioli dull iaith>economi o gefnogi'r Gymraeg, h.y. ymdrechion i hyrwyddo defnydd o wasanaethau a chynhyrchion Cymraeg gan fusnesau neu hyrwyddo gwerth yr iaith Gymraeg i unigolion yn y farchnad lafur neu fusnesau yn fwy cyffredinol. Nid yw'r rhain yn cynrychioli dull economi>iaith sy'n perthyn i ymyriadau economaidd neu fusnes sy'n cael effaith ar y Gymraeg.

Roedd gan bob awdurdod lleol berthynas â'r ffynonellau cymorth hyn yn barod. Barnwyd bod y berthynas hirsefydlog ac effeithiol gyda'r gwasanaeth Helo Blod yn benodol yn ffactor allweddol yn eu hymglymiad wrth gynllunio'r cyllid a ddarperir i fusnesau fel rhan o raglen Arfor.

1.2.2 Cyd-destun ymarferol

Effeithiwyd yn sylweddol ar y rhaglen gan y pandemig coronafirws mewn sawl ffordd. Yn gyntaf, cafodd y nod cyffredinol o greu swyddi, er yn anffurfiol, ei addasu i gynnwys diogelu swyddi hefyd. Yn ail, roedd prosiectau unigol a deiliaid grantiau yn diwygio, gohirio neu, ar adegau prin, yn rhoi'r gorau i gynlluniau a gynigiwyd yn y ceisiadau. Yn drydydd, ac mewn perthynas â'r gwerthusiad, roedd gwaith maes wedi'i gyfyngu i gipio data ar-lein ac o bell.

O ganlyniad, cynhaliwyd yr holl gyfweiliadau a gweithdai ar gyfer y gwerthusiad hwn dros MS Teams neu dros y ffôn. Nid oedd y tîm gwerthuso yn gallu cynnal unrhyw ymweliadau personol i arsylwi safleoedd, busnesau na gweithgareddau parhaus fel y bwriadwyd yn wreiddiol. O ganlyniad, mae'r gwerthusiad yn tynnu'n gyfan gwbl ar gyfraniadau cyfranogwyr a staff rheoli a'r data monitro a gwerthuso a gasglwyd gan y tîm rheoli.

1.3 Y Gwerthusiad

1.3.1 Nodau a Chwestiynau Ymchwil Allweddol

Yn y bôn, esblygodd rhaglen Arfor, er ei chylch gwaith cychwynnol arbennig o eang, i fod yn gronfa beilot neu arddangoswr. Ceisiodd y rhaglen gefnogi nifer o gynlluniau unigol cymharol fach y mae eu heffaith ar yr economi, ac o ganlyniad yr iaith, wedi'i damcaniaethu, ond heb ei phrofi na'i thystio. Trwy'r prosesau gwerthuso allanol a mewnol, y gobaith yw y bydd y rhaglen yn datgelu gwersi allweddol mewn perthynas â'r mathau o ymyriadau sy'n cael effaith gadarnhaol ar yr economi yn ogystal â'r iaith. Y gobaith hefyd yw y bydd y rhaglen yn arwain at fewnwelediadau gwerthfawr mewn perthynas â sut mae rhai prosesau economaidd o fudd i'r iaith.

Mae'r adroddiad hwn yn cynrychioli canlyniad a gwerthusiad proses o'r rhaglen Arfor. Mae'r gwerthusiad yn manylu ar y canfyddiadau mewn perthynas â'r ddwy gydran ym Mhennod 2 a 3. Mae'r casgliadau'n ceisio crynhoi canfyddiadau'r adroddiad yn gryno trwy fynd i'r afael â dau gwestiwn allweddol a thri chwestiwn is-ymchwil. Y cwestiynau allweddol ac is-ymchwil yw:

1. Pa effaith mae Arfor wedi'i chael ar fusnesau? A fyddai'r effaith hon wedi'i sicrhau heb gefnogaeth y rhaglen?
2. Yn seiliedig ar y ddysg o'r rhaglen hon, sut all ymyriadau economaidd gyfrannu at gynaliadwyedd y Gymraeg yn ardal Arfor?

Er bod y gwerthusiad yn ceisio ateb y cwestiynau ymchwil allweddol hyn, roedd gan reolwyr a rhanddeiliaid ddiddordeb arbennig yng ngoblygiadau a gwersi ehangach y rhaglen. Mae'r adroddiad hwn, felly, yn cynnwys adran drafodaethau helaethach (Pennod 4) na'r disgwyl, sy'n archwilio unrhyw fewnwelediad a gafwyd i gysyniadau allweddol sy'n ymwneud ag ymyriadau economi>iaith a pholisi iaith yn fwy cyffredinol. Mae'r adran hefyd yn ceisio ystyried a chysylltu'r canfyddiadau â'r cyd-destun ehangach a archwiliwyd yn yr Adroddiad Interim.

1.3.2 Methodoleg a data

Fel rhaglen beilot sy'n archwilio dichonoldeb ymyriadau economaidd fel ffordd o gefnogi'r iaith, mae'r gwerthusiad wedi mabwysiadu dull anwythol ac archwiliadol, h.y. ni osodwyd unrhyw dargedau penodol er mwyn mesur llwyddiant cynlluniau unigol yn eu herbyn. Yn hytrach, cynhaliwyd ymchwil ansoddol fanwl i archwilio effaith y gwahanol gynlluniau ar y busnesau a'r buddiolwyr cyn dod i gasgliadau cyffredinol. Yr unig darged fel y cyfryw oedd y disgwyliad, er mwyn cael ei ystyried yn llwyddiannus i unrhyw raddau, bod angen i gynllun fod wedi cael effaith gadarnhaol ar yr economi a'r iaith. Fodd bynnag, mesurwyd hyn yn wrthrychol trwy archwilio busnesau a swyddi a grëwyd, a'r refeniw a gynhyrchwyd. Ceisiodd y gwerthusiad ddysgu gwersi ac archwilio'r prosesau lle gall ymyriadau economaidd gefnogi'r iaith.

Fel rhaglen beilot a geisiodd gefnogi sawl cynllun, ar draws ardal eang a chyda buddsoddiad cyfyngedig, roedd yn annhebygol y bydd effaith y rhaglen i'w gweld mewn data economaidd ac ieithyddol cenedlaethol neu leol hyd yn oed. Roedd **effaith y rhaglen yn annhebygol o fod yn adnabyddadwy o fewn metrig economaidd ac iaith.**

Roedd hefyd yn **annhebygol y bydd unrhyw ddata meintiol sylweddol ar gael i ddangos effaith y rhaglen.** Roedd hyn yn bennaf oherwydd effaith y pandemig coronafirws, yn arafu ac yn gohirio cyflwyno, yn ogystal â natur yr ymyriadau, h.y. newidiadau tymor hir i fusnesau a datblygu gwasanaethau newydd. Yn gryno, ni fyddai data ar gael tan ar ôl y cyfnod gwerthuso. At hynny, gyda phob cais grant busnes yn unigol unigryw ac yn bwrpasol, mae cymariaethau rhwng y derbynwyr a chynlluniau wedi'u cyfyngu i **arsylwadau a dadansoddiad ansoddol, cymharol** yn hytrach nag ymchwiliad ystadegol. Roedd data gwrthrychol, meintiol ar gael, ond dim ond peth o'r effaith a ragwelir y bydd tystiolaeth ar gael ar ei gyfer, megis busnesau a swyddi a grëir, neu refeniw a gynhyrchir.

Serch hynny, argymhellir yng nghasgliadau'r adroddiad hwn y dylai rheolwyr Arfor a'r ALLau dan sylw **barhau i fonitro effaith ar fuddiolwyr y rhaglen, a'u datblygiad, yn y dyfodol.**

Er bod y gwerthusiad yn tynnu ar y data meintiol cyfyngedig sydd ar gael, mae'r ddibyniaeth yn bennaf ar ddata ansoddol a gynhyrchir o nifer o gyfweiliadau â buddiolwyr (busnesau ac unigolion sydd wedi elwa o'r cynlluniau), staff rheoli a rhanddeiliaid. Nod y cyfweiliadau hyn oedd cynhyrchu mewnwelediad yn anwythol. Mae'r gwerthusiad wedi ceisio archwilio'r profiadau a'r effaith ar sampl o fuddiolwyr o bob cynllun, a chyflwyno'r canfyddiadau ochr yn ochr â barn staff rheoli a rhanddeiliaid.

Cynhaliodd y tîm ymchwil y gweithgareddau canlynol rhwng Rhagfyr 2020 a Mawrth 2021 i gasglu data ar gyfer y gwerthusiad:

- 12 Cyfweiliad lled-strwythuredig gyda staff cyflwyno a rheoli
- 43 Cyfweiliad lled-strwythuredig gyda rhanddeiliaid yn y cam interim a 12 yn y cam adroddiad terfynol
- Adolygiad o ddogfennaeth ymgeisio a chyflwyno
- Adolygiad o ddata monitro a pherfformio
- Cyfweiliad lled-strwythuredig gyda 42 o berchnogion/rheolwyr busnes a dderbyniodd cymorth grant
- Archwilio 5 astudiaeth achos Ffiws ochr yn ochr â chyfweiliadau rheoli a chyflwyno (x2)
- Cyfweiliadau â 4 buddiolwr Llwyddo'n Lleol
- Cyfweiliadau â 2 aelod o staff Ffiws
- Cyfweiliadau â 3 buddiolwr Cymunedau Mentrus
- Gweithdy gyda rhanddeiliaid a staff.

2 Trafod rhaglenni a chanfyddiadau unigol

2.1 Allbynnau a Chanlyniadau'r Rhaglen

Tabl 2.1: Data Allbwn a Chanlyniad y Cynllun

Awdurdod Lleol	Busnesau a Gefnogwyd				Swyddi wedi'u Diogelu		Swyddi newydd o fewn 12 mis		Swyddi newydd o fewn 2 flynedd		Effaith Ychwanegol			Gwariant
	Grant	Busnesau Newydd (iau na 12 mis)	Busnesau Cyfredol	Cyfanswm	Llawm Amser	Rhan Amser	Llawm Amser	Rhan Amser	Llawm Amser	Rhan Amser	Lleoliad Gwaith	Trosiant Cynyddol	Defnydd cynyddol o'r Gymraeg	
Ynys Môn	Busnes	4	9	13	13	16	36	12	52	15	2	10	9	£401,464.00
	laith	9	25	34								21	24	
Gwynedd	Ffiws													£74,227.27
	Cymunedau Mentrus	heb gofnodi	heb gofnodi	3										£81,000.00
Gwynedd & Ynys Môn	Llwyddo'n Lleol	22		22										£100,000.00
Gwynedd	Cymorth i Fentro	heb gofnodi	heb gofnodi	17					58	7				£173,757.20
Ceredigion	Mentro mewn Buses	heb gofnodi	heb gofnodi	14	42				60					£211,616.58
	Tyfu yw'r Nod	heb gofnodi	heb gofnodi	17										
Sir Gâr	Sector Grant	20	24	44			11	11	21	44				£466,250.00
Bwrlwm Arfor	Hyrwyddo a Marchnata													
Cyfanswm		55	58	164	208	16	47	23	191	66	2	31	33	£1,749,310.21

fynhonnell: Data Monitro Prosiectau³

³ Derbyniodd 10 o fusnesau Grant laith a Grant Busnes a chyfanswm y busnesau unigryw yw 154

Mae Tabl 2.1 uchod yn cyflwyno'r data monitro cyfun gan y pedwar Awdurdod Lleol. Fodd bynnag, fel y manylir isod, mae'r ffigurau swyddi yn debygol iawn o fod yn gysylltiedig â rhagamcanion ac amcangyfrifon. Mae hyn yn rhannol oherwydd y disgwyliad y byddai'r grant yn cael effaith hirdymor ar y busnesau, ac yn rhannol oherwydd effaith y pandemig coronafirws, sydd wedi atal ei gyflwyno ac y credir ei fod wedi oedi'r effaith.

2.2 Cefnogaeth/Cyllid Busnes Uniongyrchol:

Roedd cyfran sylweddol o'r rhaglen yn cynnwys amrywiol gynlluniau cymorth/cyllid busnes uniongyrchol. Roedd y rhain yn cynnwys y grantiau Iaith a Busnes yn Ynys Môn; grant Cymorth i Fentro yng Ngwynedd; y grantiau sectoraidd yn Sir Gâr; a grantiau Twf a Mentro yng Ngheredigion.

Er bod gwahaniaethau rhwng y cynlluniau, yn gyffredinol roeddynt yn debyg iawn. Roedd pob un yn cynnwys grantiau uniongyrchol, refeniw a chyfalaf i fusnesau. Roedd yn ofynnol i bob busnes amlinellu eu cynlluniau i ddatblygu busnes a defnydd y Gymraeg o fewn y busnes. Cymeradwyodd paneli dethol geisiadau ym mhob achos, ond gyda chymeradwyaeth swyddogol uwch, ychwanegol mewn rhai Awdurdodau Lleol. Roedd y canfyddiadau mewn perthynas â chyflwyno ac effaith y grantiau hefyd yn debyg. O ganlyniad, er mwyn crynhoi ac er mwyn osgoi ailadrodd canfyddiadau tebyg, bydd yr adran hon yn trafod y grantiau uniongyrchol i fusnesau yn gyffredinol oni bai bod gwahaniaethau penodol yn haeddu sylw arbennig.

Cynllunio a nodau

Roedd yr holl fusnesau a gyfwelwyd yn amlwg yn cytuno â rhesymeg y rhaglen ac yn teimlo bod angen creu swyddi a chefnogi'r Gymraeg yn yr ardal. Er bod llawer o'r busnesau a gafodd eu cyfweld yn defnyddio'r Gymraeg yn eu busnes, gwelodd y mwyafrif gyfle hefyd i gynyddu neu ehangu'r ddarpariaeth honno.

Ynys Môn

Cynlluniwyd y Grantiau Iaith bach i gefnogi busnesau i ddatblygu eu gwasanaethau a'u cynhyrchion Cymraeg. Roedd yn ofynnol i fusnesau amlinellu ymyriadau penodol a fyddai'n cael eu hariannu gan y grant yn ogystal â'u cynlluniau tymor hwy mewn perthynas â gwasanaethau a chynhyrchion Cymraeg. Cynlluniwyd y grant (o hyd at £5,000 yn 2019/20 a hyd at £2,000 yn 2020/21) i dalu 80% o gostau unrhyw anghenion cymorth gweledol fel;

- Arwyddion pwynt gwerthu ar gyfer siopau.
- Cefnogaeth i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei chlywed, fel talu am adloniant cymdeithasol Cymraeg.
- Deunyddiau marchnata yn Gymraeg fel darparu cefnogaeth a thalu cost cynhyrchu ffilmau i hyrwyddo'r busnes yn ddigidol.
- Neu gefnogi busnesau i ddatblygu eu defnydd o'r Gymraeg trwy dalu costau gwersi Cymraeg.

Ar ôl cais a chyfweliad panel llwyddiannus, byddai'n ofynnol i fusnesau ymgysylltu â Helo Blod, y gwasanaeth cyfieithu a chynghori Cymraeg a ddarperir gan Fusnes Cymru.

Roedd y Grantiau Busnes llawer mwy yn gyffredinol o hyd at 50% neu £30,000 yn symlach, gan gynnig grantiau cyfalaf i gefnogi busnesau gydag unrhyw ddatblygiadau a chostau os gellir eu cyfiawnhau o fewn y ffurflen gais. Roedd yn ofynnol hefyd i fusnesau amlinellu cynlluniau datblygu iaith ar gyfer y dyfodol, ac i ymgysylltu â gwasanaeth Helo Blod.

Gwynedd

Roedd Gwynedd yn gweithredu cynllun Cymorth i Fentro, gan gefnogi busnesau i bob pwrpas trwy becyn cymorth. Gan weithio gyda Busnes Cymru a'r Hwb Menter, y nod oedd adnabod sut y gallai busnes ddatblygu dros bum mlynedd a chael gwared ar unrhyw rwystrau twf. Anelwyd y rhaglen at fusnesau sy'n ymwneud â chynhyrchu (yn rhithiol neu'n ffisego), ond roedd hyblygrwydd. Yn ymarferol, fodd bynnag, dim ond busnesau bach a micro a fynegodd unrhyw ddiddordeb yn y gefnogaeth. Fodd bynnag, cynlluniwyd yr arian i weithredu ochr yn ochr â chynlluniau cymorth ehangach.

Trwy hyrwyddo cymharol gydlynol, adroddodd staff ac yn wir fusnesau eu bod wedi symud o un cynllun cymorth i'r nesaf. Byddai rhai, er enghraifft, yn dechrau trwy ymgysylltu â Ffiws, yna gwneud cais am Gymorth i Fentro i ddatblygu syniadau busnes ymhellach. Roedd yn ofynnol i fusnesau a oedd yn derbyn cefnogaeth ymgysylltu â'r gwasanaeth Helo Blod a ddarperir gan Fusnes Cymru.

Ceredigion

Cynigiodd Ceredigion ddau grant uniongyrchol i fusnesau. Anelwyd y cyntaf, Grant Mentro, yn benodol at fusnesau newydd tra roedd yr ail, Grant Twf, yn agored i unrhyw fusnesau yn y sir. Cynlluniwyd y grantiau yn dilyn fforwm ymgynghori â busnesau yn yr ardal. Sefydlwyd ychydig o egwyddorion craidd sy'n diffinio'r grantiau ac yn amlinellu eu rôl o'r gefnogaeth ehangach a gynigir i fusnesau.

Yn gyntaf, roedd y staff rheoli yn dymuno cael grant hyblyg a oedd yn hygyrch i fusnesau bach a micro na fyddai fel rheol â'r gallu nac yn cwrdd â'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer cefnogaeth ehangach. Byddai'r grant yn talu am refeniw a hyd at £10,000 o'r costau cyfalaf a amlinellwyd yn y ceisiadau, ond y tu hwnt i hynny nid oedd unrhyw gyfyngiadau ar ddefnydd y grant. Priodolwyd yr amrywiaeth o fusnesau a ymgysylltodd â'r grant yn ddiweddarach i'r hyblygrwydd hwn. Nid oedd staff eisiau cyfyngu'r grant i sectorau penodol a nodwyd nad oeddent **wedi derbyn unrhyw geisiadau gan rai sectorau allweddol yn yr ardal**, gan awgrymu bod hyn yn dangos bod ffynonellau cymorth eraill ar gyfer busnesau o'r fath.

'Mae angen i ni greu busnesau newydd. Ond fyddwn i ddim eisiau cyfyngu pa sectorau rydyn ni'n eu cefnogi gormod. Mae grantiau ar gael yn aml ar gyfer y sector bwyd a diodydd, neu dwristiaeth. Ond ni chawsom un cais gan y sector twristiaeth mewn gwirionedd.' (Cyfweliad Rheoli, 2021)

Roedd **hyblygrwydd hefyd yn ymestyn i'r broses ymgeisio ei hun**. Mabwysiadodd y rheolwyr ddull cynhwysfawr tuag at ddatblygu ceisiadau, gan ymatal rhag gwrthod yn llwyr os oedd y staff o'r farn bod potensial i'r cais, hyd yn oed os na chredid bod y sgorio yn cyrraedd y trothwy. Byddai staff yn gweithio gyda busnesau i ddatblygu'r ceisiadau ymhellach, gan nodi'n aml mewn cyfweiliadau bod y busnesau yn aml yn ddibrofiad wrth baratoi ceisiadau grant. Ar ben hynny, rhoddwyd rhwydd hynt i'r panel, a fyddai'n adolygu ceisiadau, i argymhell ailgyflwyno a chynnig adborth adeiladol. Nododd staff fod y broses wedi arwain at **geisiadau a oedd yn y pen draw yn llawer mwy cydnaws â nodau'r rhaglen na'r cyflwyniadau cychwynol**.

Yn ail, roedd y cais yn ei gwneud yn ofynnol i'r busnes ddangos ymgysylltiad a bwriad sylweddol i ddatblygu gallu neu wasanaethau Cymraeg y busnes. Dyfarnwyd hyd at 25% o'r sgôr cais i gynllunio a datblygu iaith o fewn y grant. Roedd hyn, yn ôl y rheolwyr a'r busnesau, yn **angori datblygiad iaith yn natblygiad ehangach y busnes**.

Nododd staff rheoli hefyd na chawsant fawr o wthio yn ôl gan fusnesau a bod y grant i bob pwrpas yn gweithredu fel math o **drosoledd i wthio busnesau ymhellach yn eu taith datblygu iaith**.

'Y peth gyda grant yw bod gennych chi rywbeth i'w gynnig fel bachyn. Gallwch chi gael yr ymgysylltiad hwnnw a dechrau mentora. Maen nhw'n cael mwy o werth hefyd oherwydd gallwn ni ddechrau rhannu mwy o wybodaeth gyda nhw.'
(Cyfweiliad Rheoli, 2021)

Sir Gâr

Ceisiodd Cyngor Sir Caerfyrddin ganolbwyntio gwariant ar ddau sector economaidd allweddol. Y sectorau hyn oedd y sectorau bwyd a diod a diwydiant creadigol, y ddau sector allweddol a nodwyd yn [cynllunio economaidd a strategol](#) yr awdurdod. Roedd y broses yn cynnwys pedair galwad ar wahân am geisiadau, i swyddogion adolygu'r ceisiadau cyn eu trosglwyddo i'r Grŵp Gweithredu Lleol (LAG) i'w cymeradwyo. Ochr yn ochr â derbyn cyllid grant ar gyfer buddsoddiadau cyfalaf, roedd disgwyl i'r busnes ymgysylltu â'r gwasanaeth Helo Blod a ddarperir gan Fusnes Cymru.

Arweiniodd y penderfyniad i ganolbwyntio ar ddau sector allweddol at feirniadaeth gan rai rhanddeiliaid a staff rheoli. Fodd bynnag, fe'i nodwyd hefyd fel cryfder allweddol y grant yn Sir Gâr. Cwestiynodd rhanddeiliaid werth grant cymharol fach wedi'i dargedu at ddau sector a oedd yn derbyn cefnogaeth sylweddol gan ffynonellau eraill. Roedd y rhanddeiliaid hyn yn cwestiynu pa effaith ychwanegol y gallai'r grant hwn fod wedi'i darparu ar ben yr hyn a oedd ar gael eisoes.

Fodd bynnag, awgrymodd staff rheoli fod nifer o fuddion o ganolbwyntio ar y ddau sector hyn. Yn gyntaf, roedd y grant yn cynnig ffordd y gallai'r Awdurdod Lleol **geflogi eu blaenoriaethau economaidd strategol ymhellach**. Gellid llenwi bylchau, a nododd staff eu bod **wedi gweithio'n agos gyda chynlluniau ehangach** megis rhaglen [Cywain](#) gan adnabod busnesau a allai elwa a datblygu ymhellach gyda chefnogaeth grant Arfor.

Yn ail, gallai **busnesau llai** a fyddai fel arall yn anghymwys neu a fyddai'n ei chael hi'n anodd cystadlu am grantiau, cefnogaeth neu gyllid ehangach, **gyrchu grant Arfor am resymau pwrpasol a phenodol iawn**. Roedd hyn yn gysylltiedig â chryfder ehangach y grant, sef y gallai'r **grant fod yn arbennig o hyblyg ac y gallai ariannu datblygiadau technolegol neu gyfalaf penodol iawn ond allweddol** a fyddai o ganlyniad **yn galluogi i'r busnesau oresgyn rhwystrau neu agor marchnadoedd a ffynonellau refeniw newydd ar gyfer y busnesau dan sylw**.

Yn olaf, roedd staff rheoli yn awyddus i bwysleisio bod y grant hwn, oherwydd y ffocws ar y Gymraeg, **yn unigryw ac yn ychwanegu gwerth at y pecyn cymorth cyfan a dargedwyd at sectorau allweddol yr awdurdod**. Nododd staff, wrth osod yr iaith fel ystyriaeth allweddol yng ngheisiadau grant Arfor, bod ffocws penodol ac unigryw yn cael ei roi ar ddatblygu gallu Cymraeg ochr yn ochr ag agweddau eraill ar y busnes. Roedd y grant, awgrymodd staff, yn gorfodi busnesau a'u perchnogion i feddwl yn wahanol a rhoi ystyriaeth wirioneddol i'r iaith. Teimlwyd bod cysylltu â'r sesiynau Helo Blod wedi helpu i ddatblygu'r ffordd o feddwl ynghylch sut i gynnwys a manteisio ar yr iaith Gymraeg yn y busnes.

2.2.1 Prosesau Ymgeisio

Yn gyffredinol, roedd staff rheoli a busnesau yn ystyried bod prosesau ymgeisio ar draws yr holl grantiau yn ffafriol. Gwelwyd yn aml fod prosesau ymgeisio yn syml ac, er eu bod yn rhy fiwrocraataidd o bryd i'w gilydd, roeddent yn cael cefnogaeth dda gan staff gofalus. Nododd busnesau hefyd eu bod wedi derbyn cyfathrebu clir a chyflym gan y cyngor ac adborth effeithiol ar eu ceisiadau.

Awgrymodd staff rheoli, yn enwedig yng **Ngheredigion**, fod buddion pellach i'r model hwn gan nodi, wrth weinyddu'r grantiau eu hunain, bod staff y cyngor wedi datblygu dealltwriaeth ddyfnach o fusnesau yn yr ardal. Roedd hyn, nododd staff, o werth arbennig wrth gynllunio a darparu grantiau busnes uniongyrchol pellach a bydd o werth parhaus i staff sy'n gweithio ym maes datblygu economaidd.

'Un o'r sgîl-ffeithiau dwi'n meddwl o'n hochr ni fel Cyngor, ac ni fyddwn wedi rhagweld hyn, ond oherwydd ein bod ni wedi gweithio gyda busnesau yn yr ardal trwy Arfor ... roedd yr hyn a ddysgon ni trwy Arfor yn help mawr i ni pan oeddem yn cyflwyno'r gefnogaeth bandemig. Rhwng y grant hwnnw ac Arfor, nid oes llawer o fusnesau yng Ngheredigion nad ydym yn gwybod amdanynt nawr. Mae gennym ddarlun gwell o'r math o fusnesau sydd gennym yng Ngheredigion.'
(Cyfweliad Rheoli, 2021)

Eithriad i'r broses a reolir gan yr Awdurdod Lleol fyddai **Ynys Môn**. I bob pwrpas, cafodd y broses 'rheng flaen' ar gyfer grantiau **Ynys Môn** ei rhoi ar gontract i Fenter Môn, a rôl y Cyngor oedd rheoli cyllideb a chyhoeddi llythyrau cynnig a thaliadau. Ym mlwyddyn 2, dirprwywyd y grant iaith yn llawn i Fenter Môn. Ochr yn ochr â'r sylwadau cadarnhaol gan fusnesau ac ymgeiswyr, nododd personél rheoli hefyd fod y dull hwn wedi arwain at **broses symlach a daeth â buddion penodol**.

Gwelwyd bod Menter Môn yn gallu troi ceisiadau yn gyflym. At hynny, roedd staff Menter Môn, gyda chysylltiadau â'r seilwaith cymorth ehangach ar gyfer y Gymraeg, yn gallu tynnu ar eu profiadau i **ddarparu cyngor ychwanegol a sylwadau mwy gwybodus ar y ceisiadau**. Roedd staff hefyd yn gallu tynnu sylw at ffynonellau cymorth ychwanegol, yn anad dim o'r Fenter Iaith.

'Nid oedd y broses gyda chyngor Ynys Môn yn rhy hawdd, roedd yna lawer o rwystrau ac ati, ac roedd y Cyngor yn awyddus y byddai'n rhaid i argymhellion y panel dethol fynd at uwch swyddog. Rydyn ni'n hoffi troi ceisiadau grant yn gynt, felly dyna pryd yr oedd y grant iaith yn ddefnyddiol.' (Cyfweiliad Rheoli, 2021)

Mae'n ymddangos bod busnesau wedi dod i wybod am y grant trwy wahanol ffyrdd, yn aml yr Awdurdod Lleol a'i lwyfannau cyfryngau cymdeithasol neu ei wefan, ond hefyd ar lafar gwlad gan ffrindiau, cydweithwyr neu fusnesau eraill. Teimlwyd, yn benodol yn **Sir Gâr**, fod pandemig y coronafirws wedi effeithio ar y nifer a gymerodd y grant a nifer y ceisiadau a dderbyniwyd, ond derbyniwyd mwy o geisiadau yn ystod chwe mis olaf y rhaglen.

'Pan setlodd pethau ym mis Medi roedd arian ar gyfer galwad arall [am geisiadau], ond nid oedd y nifer a wnaeth cais mor fawr ag yr oeddem yn ei ddisgwyl. Yn gyntaf, cafwyd llawer o gefnogaeth gan Lywodraeth Cymru. Yn ail, roedd ffordd o feddwl y busnesau yn ymwneud â goroesi yn hytrach na thyfu. Yn drydydd, mae yna lawer o achosion [o COVID-19] mewn rhai ardaloedd. Yn bedwerydd, roedd costau staff yn gysylltiedig â llawer o'r grantiau hyn fel ni allent ymrwymo. Ers i ni ailagor y grant yn fwy diweddar, mae yna lawer o ddiddordeb ac mae ffocws y busnesau wedi symud yn ôl i'r uchelgeisiau twf hynny, ac mae yna lawer o fusnesau newydd.' (Cyfweiliad Rheoli, 2021)

2.2.2 Cyflwyno

Gwelodd personél rheoli y gallai'r grantiau gyflawni rôl benodol iawn. Siaradodd staff yn **Ynys Môn** er enghraifft, am annog busnesau i wneud cais am y Grant Iaith cyn symud ymlaen i'r Grant Busnes. Byddai hyn i bob pwrpas yn gorfodi'r busnes i ymgysylltu â gwasanaeth Helo Blod a sicrhau rhai allbynnau neu ganlyniadau Cymraeg. Awgrymodd staff rheoli ar gyfer pob grant nad oedd y Grant Busnes bob amser yn sicrhau allbynnau neu ganlyniadau o'r fath, a bod busnesau'n gweld y gofynion iaith fel meini prawf a chydran ymylol braidd. Fodd bynnag, roedd y rheolwyr yn ystyried y Grant Iaith fel ffordd o sicrhau canlyniadau Cymraeg. Roedd hyn oherwydd bod sgôr sylweddol yn cael ei ddyfarnu i ddatblygu gallu'r Gymraeg y busnes yn y broses ymgeisio.

'O ran yr hyn rydyn ni'n ei newid, yr un sydd fwyaf amlwg yw, fel unrhyw gynllun grant, mae gennych chi fusnesau a fyddai'n gwneud beth bynnag [sydd ei angen] er mwyn derbyn yr arian. Yr hyn a wnaethom oedd cyflwyno proses o wneud cais am grant iaith i ddechrau, yna mynd ymlaen i'r gronfa fusnes, fel bod cysylltiad â Helo Blod. Aeth rhai yn syth at grant busnes, cyn belled â bod rhywun yn addo gwneud rhywbeth ieithyddol. Mae risg nad yw'r ail ddull wedi gweithio mor effeithiol o ran sicrhau budd iaith.' (Cyfweliad Busnes, 2020)

Cyrhaeddiad a'r math o fuddiolwr

Ynys Môn

Derbyniodd cyfanswm o 37 busnes un grant neu'r ddau. Mae data'n dangos o blith y 34 o fusnesau a dderbyniodd y Grant Iaith, roedd 13 ohonynt hefyd wedi derbyn y Grant Busnes. Derbyniodd tri busnes y Grant Busnes yn unig.

Derbyniodd amrywiaeth o fusnesau arian trwy'r grant, yn amrywio o fwytai pizza i ffisiotherapyddion, cwmnïau ysgytliaeth a chwmnïau gwasanaethau priodas. Awgrymodd yr holl fusnesau a gyfwelwyd fod y grant yn hawdd ei gyrchu, a bod gwybodaeth yn hawdd i'w chael. Roedd ofnau am y broses ymgeisio yn gadarnhaol ar y cyfan er bod ychydig yn awgrymu bod naill ai oedi rhwng y cais a'r gymeradwyaeth, tra bod ychydig hefyd wedi tynnu sylw at y gefnogaeth gadarnhaol a gafwyd gan staff.

Yn ôl y disgwyl, cynlluniwyd y Grantiau Iaith i gefnogi datblygiad gwasanaethau Cymraeg a'i defnydd o fewn y busnes. Adroddodd y busnesau a gyfwelwyd ystod o setiau sgiliau a galluoedd mewn perthynas â'r Gymraeg. Roedd rhai busnesau, er enghraifft, yn cynnwys staff a oedd yn siaradwyr Cymraeg rhugl, ac roedd eraill yn cynnwys staff sy'n gyfyngedig yn eu sgiliau a'u galluoedd Cymraeg neu'n brin o hyder i'w defnyddio.

Gwynedd

Grant Cymorth i Fentro oedd y lleiaf i bob pwrpas, gan gefnogi cyfanswm o 17 busnes. Busnesau bach a micro oedd y busnesau hyn i raddau helaeth ar draws ystod o sectorau gan gynnwys poptai, cigyddion, argraffwyr, distyllfeydd, gwaith coed a chynhyrchwyr mêl. Roedd tua thraean y cwmnïau a oedd yn derbyn cyllid yn ymwneud â'r sector bwyd a diod, sy'n golygu mai dyna'r sector a oedd yn cael ei gynrychioli fwyaf.

Ceredigion

Derbyniodd 31 o fusnes grant yng Ngheredigion, 17 'Grant Mentro' a 14 'Grant Twf'. Nododd staff rheoli fod mwyafrif y **'Grant Mentro'** wedi'i ddyfarnu i fusnesau yr oedd eu perchnogion **o dan 35**. Nid cynllun bwriadol oedd hyn ond teimlai staff rheoli bod hyn oherwydd y galw gan bobl fusnes iau yn ceisio cefnogaeth ar gyfer busnesau newydd. **Roedd mynediad at gyfalaf a diffyg statws credyd yn rhwystrau sylweddol yr oedd pobl iau yn eu hwynebu wrth godi arian i fuddsoddi mewn busnesau.**

'Roedd yna un dyn ifanc, 17 oed, a oedd eisiau mynd ar ei liwt ei hun fel weldiwr. Roedd wedi gwneud yr hyfforddiant, ond roedd hi'n anodd. Rhoesom daliad ymlaen llaw iddo a dweud y gwir. Mae'n anodd i unrhyw un o'r oedran yna, heb hanes credyd, i gael benthyciad gan fanc. Rydym wedi gallu bod yn fwy hyblyg i gefnogi busnesau i ddatblygu. Mae wedi cadw'r bobl hyn yn eu hardal leol ac yn gweithio er budd y gymuned a'r economi leol. Mewn ffordd, dyna beth yw Arfor; ydy, mae'n ymwneud â'r iaith a'r busnes, ond yn fwy eang mae'n ymwneud â chadw pobl yn lleol, yn enwedig pobl iau.' (Cyfweliad Rheoli, 2021)

Cefnogwyd ystod o fusnesau, er bod pob un yn fusnesau bach neu ficro. Roedd rhai yn fusnesau a oedd yn nodedig fel busnes Cymraeg. Wrth gael eu holi ynghylch rhesymeg cefnogi'r busnesau hyn, nododd staff rheoli fod y panel dethol yn gweld y cwmnïau hyn fel **arweinwyr yn y gymuned a oedd yn dangos fod gwerth i'r Gymraeg mewn busnes**, a bod y rhain yn haeddu cefnogaeth a'u hyrwyddo.

'Roedden nhw i gyd yn fusnesau bach. Ond o ran busnes fel [enw busnes wedi'i olygu], daw'r Gymraeg yn naturiol. Maent yn gweithredu trwy'r Gymraeg. Mae llawer o'r busnesau hyn yn gwneud hynny ... felly roeddem eisiau helpu i gynnal y busnesau hynny yn yr ardal, trwy'r buddsoddiad hwnnw mewn datblygiad arloesol. Roeddem hefyd eisiau cydnabod bod gwerth i fod yn gwmni Cymraeg. Mae hyn wedi eu hyrwyddo ac wedi rhoi llwyfan iddynt ddangos eu bod yn cael eu cydnabod a bod gwerth i'r iaith mewn busnes,' (Cyfweliad Busnes, 2021)

Sir Gâr

Cefnogwyd cyfanswm o 24 o fusnesau hirsefydlog ac 20 o fusnesau newydd (diffiniwyd busnesau newydd fel y rhai a oedd wedi bod yn weithredol am 12 mis neu lai). Derbyniodd dau fusnes ddau grant. O'r rhain, roedd 30 o'r busnesau o'r sector bwyd a diod, 9 o'r sector diwydiant creadigol a 5 wedi'u dosbarthu fel 'arall', gyda chysylltiad gwannach â naill ai un neu'r ddau sector. Rhagwelir y bydd y grant wedi gwario £449,286.66 yn cefnogi'r busnesau hyn. Fodd bynnag, nododd staff rheoli ei bod wedi bod yn anodd gwario'r arian oherwydd oedi a busnesau'n cau yn ystod y cyfnod clo oherwydd y pandemig coronafirws. Ar gyfartaledd dyfarnwyd £10,211.06 i fusnesau. Derbyniodd dau fusnes grant o £50,000 ar gyfer datblygu lleoedd, a phan hepgorir yr allanolion hyn, y grant cyfartalog a dderbyniwyd gan fusnesau oedd £8,316.35.

Roedd y busnesau bwyd a diodydd yn cynnwys cynhyrchwyr, cyfanwerthwyr a busnesau sy'n wynebu cwsmeriaid fel caffis a bwytai. Roedd saith o'r busnesau yn gysylltiedig â'r diwydiant llaeth, yn cynhyrchu llaeth, hufen iâ neu iogwrt. Roedd ystod o fusnesau bwyd a diod eraill hefyd yn derbyn cyllid grant fel poptai, cynhyrchwyr bwyd anifeiliaid, cyfanwerthwyr te a busnesau bwyd cartref. Roedd busnesau yn sector y diwydiant creadigol yn cynnwys gweithgynhyrchwyr dillad neu argraffwyr, cynhyrchwyr crefft a chynhyrchydd digidol a phodlediad. Busnesau micro neu fach oedd y rhain i gyd, gyda'r nod o ehangu gwasanaethau a chreu swyddi yn sgil hynny.

Defnyddiwyd y grant i ariannu buddsoddiadau cyfalaf mewn amrywiaeth eang o ffyrdd. Er enghraifft, busnesau llaeth, yn enwedig cynhyrchwyr llaeth, yn buddsoddi mewn peiriannau

gwerthu llaeth sydd wedi'u cynllunio i alluogi i'r busnes werthu'n uniongyrchol i'r cyhoedd. Buddsoddodd rhai o'r busnesau creadigol mewn offer argraffu, caledwedd a meddalwedd digidol, neu ddatblygu lleoedd gwaith.

Dewisiadau amgen a gwrthffeithiol

Awgrymodd y busnesau ar draws yr holl grantiau uniongyrchol, fel busnesau bach a micro, nad oeddent **mewn sefyllfa i ariannu'r mathau o ddatblygiadau i'w busnesau heb grant Arfor**. Mae'n ymddangos bod hyn yn awgrymu bod graddfa a maint y grantiau wedi galluogi busnesau na fyddai fel rheol yn gallu buddsoddi yn y gwasanaethau a'r cynhyrchion Cymraeg a'u datblygu.

'Fel busnes bach iawn ni fyddwn wedi gallu fforddio talu am gyfieithydd i wneud fy holl farchnata, gwefan a chyfarwyddiadau yn ddwyieithog. Dw i ddim yn meddwl byddai wedi bod yn bosibl cael benthyciad i wneud hyn.' (Cyfweiliad Busnes, 2020)

Fel y trafodir isod, denodd y Grant Mentro yng Ngheredigion geisiadau gan bobl ifanc yn unig. Nododd llawer naill ai mewn cyfweiliadau neu wrth staff rheoli, fod cyrchu buddsoddiad ar gyfer eu busnesau cychwynol neu fusnesau eginol yn arbennig o heriol o ystyried eu diffyg profiad a'u hymwybyddiaeth o ffynonellau ond hefyd diffyg hanes credyd a oedd yn cyfyngu ar eu gallu i gael gafael ar ffynonellau. **O ganlyniad, cyflwynodd Arfor fodd hygyrch o gyrchu buddsoddiad i'w busnesau.**

Ymddengys bod y gefnogaeth hefyd wedi **ysgogi ymgysylltiad sylweddol â'r Gymraeg, a fyddai'n annhebygol o fod wedi digwydd fel arall**. Mae'r Grant Iaith yn Ynys Môn, er enghraifft, wedi cefnogi busnesau i ddatblygu gwasanaethau a chynhyrchion dwyieithog neu Gymraeg. Mae'n annhebygol iawn y byddai'r busnesau hyn wedi datblygu'r gwasanaethau a'r cynhyrchion hyn heb y cyllid. Yr hyn a awgrymwyd ac weithiau a nodwyd yn eglur yn ymatebion busnesau oedd nad oedd buddsoddi mewn gwasanaethau neu gynhyrchion Cymraeg yn debygol o fod yn flaenoriaeth i unrhyw fusnes.

Yn ehangach, adleisiodd staff rheoli a busnesau awgrymiadau ei gilydd na fyddai busnesau naill ai wedi dod ar draws y gefnogaeth sydd ar gael i ddatblygu gwasanaethau a gallu Cymraeg neu na fyddent wedi ymgysylltu mor sylweddol ag y gwnaethant trwy'r Grant hwn. Fel y trafodir isod, roedd y gofyniad a'r pwysiad sgôr yn y broses ymgeisio hefyd yn annog **ymgysylltiad sylweddol â datblygiad y Gymraeg a gwasanaethau cymorth ehangach.**

Ffactorau Allanol

Cafodd pandemig y coronafirws effaith sylweddol ar y grant mewn sawl ffordd. Yn gyntaf, mae'r ceisiadau a'r diddordeb yn y grant, yn enwedig mewn rhai Awdurdodau Lleol, wedi amrywio oherwydd, ym marn personél rheoli, cau busnesau neu'r newid o feddylfryd 'twf' i feddylfryd 'goroesi' yn ystod y pandemig.

Yn ail, effeithiodd y pandemig ar fusnesau a'u gallu i gyflawni amodau'r grant. Er ei bod yn bosibl prynu offer, er yn aml gydag oedi oherwydd bod cyflenwyr a busnesau wedi cau yn ystod y cyfnod clo, roedd gweithrediadau'r busnesau eu hunain yn aml wedi gostwng yn eu graddfa neu hyd yn oed eu cau i lawr yn llwyr yn ystod y cyfnod clo. Nododd staff rheoli fod yr oedi hyn yn aml yn arwain at fusnesau yn newid eu cynlluniau cyflwyno gydag oedi canlyniadol wrth gymeradwyo a throsglwyddo arian a gwario'r arian grant. Nododd personél rheoli, fodd bynnag, fod lefelau diddordeb yn y grantiau, yn enwedig yng Ngwynedd a Môn, yn parhau i fod yn uchel trwy gydol y pandemig, hyd yn oed os oedd eu gallu i gyflawni amodau'r grant yn gyfyngedig.

Yn bwysig fodd bynnag, o ganlyniad i bandemig y coronafirws, ychydig o'r busnesau a gyfwelwyd a oedd yn teimlo'n arbennig o hyderus mewn perthynas â chanlyniadau effaith y grant. Awgrymodd y mwyafrif fod y canlyniadau a nodwyd ar ffurflenni monitro yn ddangosol, a byddai angen dilysu neu gadarnhau pellach yn y dyfodol.

Ni awgrymodd unrhyw fusnes na fyddai'r canlyniadau'n cael eu cyflawni, dim ond y byddai'n cymryd mwy o amser i wneud hynny oherwydd yr oedi a achoswyd. Fodd bynnag, nid oedd yr unigolion a gyfwelwyd yn teimlo ei bod yn bosibl tystio i effaith y gwasanaethau neu'r cynhyrchion newydd ar drosiant yr holl fusnes yn fwy cyffredinol. **Er bod y grant yn amlwg wedi arwain at ddatblygu gwasanaethau a chynhyrchion trwy'r Gymraeg, bydd yn rhaid aros am dystiolaeth o effaith gwneud hynny a phrawf o gysyniad.**

'Nid oes unrhyw swyddi newydd wedi'u creu gan fod Covid wedi tarfu ar dymor priodasau. Mae'r rhan fwyaf o'r staff tymhorol yr ydym yn eu cyflogi yn lleol ac yn dueddol o siarad Cymraeg.' (Cyfweliad Busnes, 2020)

Fodd bynnag, roedd staff rheoli hefyd o'r farn bod y rhaglen wedi elwa o set ehangach o amgylchiadau a ffactorau allanol a ddylanwadodd ar dueddiadau ym mywyd cymdeithasol a busnes. Nododd staff, er enghraifft, fod **diddordeb cynyddol yn y syniad o brynu'n lleol**, ac roedd y grant yn fodd i fusnesau geisio manteisio ar y duedd hon. Ar ben hynny, roedd y pwyslais ar y Gymraeg, cynnyrch lleol neu gyrchu cydrannau neu gynhwysion allweddol yn lleol wedi helpu i dynnu sylw at gymeriad lleol y busnesau hynny ac o ganlyniad roedd y staff yn teimlo eu bod mewn sefyllfa dda i fanteisio ar awydd cynyddol i brynu cynnyrch lleol.

2.2.3 Effaith ar y busnes

Canfyddiadau Allweddol

- Helpu i ddiogelu 208 o swyddi amser llawn neu gyfwerth ag amser llawn ac 16 o swyddi rhan amser.
- Helpu busnesau i greu 238 o swyddi cyfwerth ag amser llawn ac 89 o swyddi rhan amser.
- Mae'r pandemig a'r oedi cysylltiedig wedi cyfyngu ar y gallu i fesur effaith y ffrydiau refeniw grant. Byddai angen dilysu a chadarnhau'r canlyniadau o hyd er mwyn asesu'r effaith yn wrthrychol.
- Grant wedi'i ddefnyddio i ddatblygu cynhyrchion newydd ac arloesi o fewn y busnes.
- Mae busnesau'n optimistaidd mewn perthynas â'r effaith y byddai'r datblygiadau a ariannwyd gan y grant yn ei chael ar eu busnesau.
- Roedd yr effaith a ragwelwyd yn cynnwys darparu gwasanaethau yn fwy effeithlon neu fwy o gleientiaid, cwsmeriaid a throsiant.
- Teimlai busnesau mai prin oedd y dewisiadau amgen, os o gwbl.
- Pobl ifanc i gyd dderbyniodd Grant Mentro (Ceredigion).

Mae staff rheoli o'r farn mai yn y dyfodol y byddai'r dystiolaeth orau o effaith grantiau ar fusnesau a'u trosiant. Yn wir, nododd staff y byddai dwy flynedd wedi bod yn dynn iawn i ddangos unrhyw effaith o dan unrhyw amgylchiadau, ond yn enwedig o ystyried yr oedi a achoswyd gan bandemig coronafirws. Fodd bynnag, roeddent yn hyderus bod cynhyrchion a gwasanaethau newydd wedi'u creu o ganlyniad i'r grant.

Dylid nodi bod y ffigurau a ddyfynnir isod yn cynnwys ffigurau ar gyfer swyddi amser llawn, rhan-amser a chyfwerth ag amser llawn. Mae hyn oherwydd gwahanol brosesau monitro/adrodd a ddefnyddir gan wahanol Awdurdodau Lleol.

Honnir bod y grantiau uniongyrchol i fusnesau wedi cefnogi 95 o fusnesau (85 o fusnesau unigryw), **wedi helpu i ddiogelu 208 o swyddi amser llawn neu gyfwerth ag amser llawn ac 16 o swyddi rhan amser.** Maent hefyd, wrth fonitro hawliadau data, **wedi helpu busnesau i greu 238 swydd gyfwerth ag amser llawn ac 89 o swyddi rhan amser.** Gyda chyfanswm gwariant (ar adeg ysgrifennu) o £1,494,082.94, mae hyn yn cyfateb i gymhareb o **un swydd gyfwerth ag amser llawn wedi'i diogelu am bob £6,917.05 ac un swydd gyfwerth ag amser llawn yn cael ei chreu bob £5,288.79 a wariwyd.**

Fodd bynnag, rhaid trin y ffigurau hyn yn ofalus, gan fod y data a ddarperir yn ymwneud â'r canlyniadau disgwylidig yn unig nad ydynt wedi'u cadarnhau.

Tabl 2.2: Effaith y Grantiau Uniongyrchol i Fusnesau

Awdurdod Lleol	Busnesau a Gefnogwyd				Swyddi wedi'u Diogelu		Swyddi newydd o fewn 12 mis		Swyddi newydd o fewn 2 flynedd		Effaith Ychwanegol			Gwariant
	Grant	Busnesau Newydd (iau na 12 mis)	Busnesau Cyfredol	Cyfanswm	Llawm Amser	Rhan Amser	Llawm Amser	Rhan Amser	Llawm Amser	Rhan Amser	Lleoliad Gwaith	Trosiant Cynyddol	Defnydd cynyddol o'r Gymraeg	
Ynys Môn	Busnes	4	9	13	13	16	36	12	52	15	2	10	9	£401,464.00
	laith	9	25	34								21	24	
Gwynedd	Cymorth i Fentro	heb gofnodi	heb gofnodi	17					58	7				£173,757.20
Ceredigion	Mentro mewn Busnes	heb gofnodi	heb gofnodi	14	42				60					£211,616.58
	Tyfu yw'r Nod	heb gofnodi	heb gofnodi	17										
Sir Gâr	Sector Grant	20	24	44	153		11	11	21	44				£466,250.00
Cyfanswm		33	58	95	208	16	47	23	191	66	2	31	33	£1,494,082.94

Ffynhonnell: Data Monitro Rhaglen

Ynys Môn

Mae'r data monitro a gasglwyd gan Ynys Môn yn awgrymu bod **23** allan o **37** busnes a dderbyniodd un neu'r ddau grant, wedi ehangu'r busnes tra bod **naw** yn fusnesau newydd. Adroddodd **31** o'r busnesau fod trosiant **wedi cynyddu**, **24** wedi nodi bod **cynhyrchion neu wasanaethau newydd wedi'u creu** a **33** yn nodi bod defnydd **o'r Gymraeg wedi cynyddu** o ganlyniad i'r grant . Dywedodd dau o'r busnesau fod **cymwysterau/achrediad newydd wedi'u cyflawni** gan y busnes (neu aelodau staff).

Mae'r data monitro hefyd yn awgrymu y bydd **88 o swyddi amser llawn newydd a 27 o swyddi rhan amser newydd** yn cael eu creu o fewn dwy flynedd neu'n gynt tra bod **13 o swyddi amser llawn ac 16 rhan amser hefyd wedi'u diogelu** o ganlyniad i'r grant. Mae hon yn gymhareb o greu un swydd cyfwerth ag amser llawn am bob £1,873.88 a wariwyd.

Crëwyd dau leoliad gwaith hefyd. Fodd bynnag, roedd yr holl swyddi hyn wedi'u creu neu eu diogelu gan fusnesau a dderbyniodd y Grant Busnes hefyd. Ni nododd yr un o'r busnesau a dderbyniodd y Grant laith yn unig eu bod wedi creu neu ddiogelu unrhyw swyddi. Mae'n debygol, felly, i'r holl swyddi hyn gael eu creu o ganlyniad i'r Grant Busnes ac nid y Grant laith.

Mae data monitro hefyd yn awgrymu bod y grantiau wedi ysgogi cyfanswm o **£285,189** mewn buddsoddiad gan y cwmnïau eu hunain, y daeth £262,851 ohono mewn perthynas â'r grantiau busnes. Gwnaethpwyd y buddsoddiad hwn gan y cwmnïau i gefnogi neu ategu at y datblygiadau sy'n cael eu hariannu trwy'r grantiau. Yn ehangach, mae'r buddsoddiad yn awgrymu bod busnesau wedi gwerthfawrogi'r buddsoddiad yn ddigonol i ymrwymo eu hadnoddau eu hunain i gefnogi'r datblygiadau. **Ar gyfartaledd, anogodd pob grant busnes £12,516.71 o fuddsoddiad preifat**, ond roedd y symiau'n amrywio'n sylweddol rhwng grantiau.⁴ Buddsoddodd busnesau gymaint â £45,497 a chyn lleied â £1,674.

Grant laith Ynys Môn

Awgrymodd cyfweiliadau hefyd nad oedd y Grant laith wedi arwain at greu unrhyw swyddi newydd, er y gallai unrhyw drosiant cynyddol gynnal ac o bosibl arwain at greu swyddi newydd. Roedd y cynhyrchion neu'r gwasanaethau a gafodd eu creu trwy'r Grant laith i gyd yn gysylltiedig â chyfathrebu allanol a ffurfiol â chwsmeriaid. Roedd y grant yn cefnogi creu'r holl gyfieithiad newydd ar gyfer gwasanaethau archebu ar-lein, bwydlenni a gwefannau. O ganlyniad, gall cwsmeriaid ymgysylltu â busnesau, eu gwasanaethau a'u cynhyrchion trwy gyfrwng y Gymraeg. Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf o'r busnesau'n cynnwys staff a oedd yn rhugl yn y Gymraeg, ac a oedd wedi nodi bod eu hymwneud â chwsmeriaid, er ar lefel anffurfiol, eisoes trwy gyfrwng y Gymraeg.

Gwynedd

Cefnogodd Grant Cymorth i Fentro yng Ngwynedd **17 busnes**, gan greu **58 swydd amser llawn newydd a saith swydd ran-amser**. Mae hon yn gymhareb o **greu un swydd gyfwerth ag amser llawn am bob £2,825.32 a wariwyd**. Pwysleisiodd staff rheoli fodd bynnag fod y ffigurau hyn yn rhagwelediad neu'n ddamcaniaethol a, gan adlewyrchu ymatebion mewn cyfweiliadau, na chyrrhaeddwyd y niferoedd hyn hyd yn hyn. Mae monitro parhaus ar y busnesau a gefnogwyd yn allweddol i ddilysu'r effaith hon.

Yn yr un modd â'r mwyafrif o fusnesau, mae'r pandemig wedi effeithio ar gyflwyno ac i ba raddau y gellir mesur yr effaith. Serch hynny, roedd y rhai a holwyd yn **optimistaidd mewn perthynas â'r effaith y byddai'r datblygiadau a ariennir gan y grant yn ei chael ar eu busnesau**. Roedd y rhai a gyfwelwyd yn gallu rhoi manylion eu cynlluniau a'r camau datblygu yn y tymor byr a'r tymor canolig.

⁴ Mae gwriad safonol o £12,660.32 yn dangos y gwahaniaethau rhwng symiau.

'Nid ydym wedi gweld canlyniadau eto oherwydd nad yw'r ganolfan ymwelwyr wedi gallu agor oherwydd cyfyngiadau Covid. Pan fydd yn agor dylai ddenu mwy o ymwelwyr a chynyddu gwerthiant. Byddwn yn cyflogi dau dywysydd teithiau dwyieithog. Dylai'r sgriniau gwybodaeth digidol dwyieithog hefyd gynyddu nifer yr ymwelwyr â busnesau lleol eraill gan y byddant hefyd yn eu hyrwyddo i ymwelwyr.' (Cyfweliad Busnes, 2021)

Fodd bynnag, roedd rhai yn gallu bod yn fwy penodol a hyderus mewn perthynas â'r effaith, yn enwedig y rhai a oedd wedi addasu eu darpariaeth ac wedi canolbwyntio ar wasanaethau neu gynhyrchion o bell neu ar-lein. Serch hynny, **byddai angen dilysu a chadarnhau'r canlyniadau er mwyn asesu'r effaith yn wrthrychol**. Teimlai'r staff rheoli fod y pecyn ehangach o grantiau ac ymgorffori cefnogaeth trwy Fusnes Cymru yn ychwanegu gwerth ychwanegol at y dull gweithredu. Roedd busnesau a oedd yn elwa o'r grant mewn sefyllfa i dynnu ar gyngor busnes ac fe'u gwnaed yn ymwybodol o'r gefnogaeth bellach a oedd ar gael.

Ceredigion

Cefnogodd y ddau grant **31 o fusnesau i gyd, 17** yn elwa o'r 'Grant Mentro' a **14** o'r 'Grant Tyfu'. Yn gyfan gwbl, creodd y ddau grant **60 o swyddi cyfwerth ag amser llawn** a helpu i **ddiogelu 42 o swyddi cyfwerth ag amser llawn**.

Nododd busnesau yn aml y byddai buddion y Grantiau yn cael eu gohirio oherwydd effaith y pandemig coronafirws. Serch hynny, roeddent i gyd yn hyderus y byddai'r gefnogaeth a ddarperir yn arwain yn y pen draw naill ai at **ddarparu gwasanaethau'n fwy effeithlon** neu **fwy o gleientiaid, cwsmeriaid a throsiant**.

'Mae hyn wedi caniatáu imi brynu peiriant CNC sy'n caniatáu imi gynhyrchu mwy mewn cyfnod byrrach o amser, ac yn fwy cywir. Mae'n gallu haneru [yr amser a gymerir] a gwneud tasg arall ar yr un pryd.' (Cyfweliad Busnes, 2021)

Roedd staff rheoli yn mynnu bod y gefnogaeth a **gynigiwyd i'r 17 busnes cychwynol** trwy'r 'Grant Mentro' yn **arbennig o effeithiol**. Roedd cyfweliadau busnes yn adleisio'r farn hon. Credwyd bod hyn yn rhannol o leiaf oherwydd oedran iau perchnogion y busnes a'r heriau yr oeddent yn eu hwynebu wrth gyrchu cyllid neu gymhwyso ar gyfer benthyciadau.

'Y busnesau newydd hynny sydd wedi cychwyn, mae wedi caniatáu i'r 17 busnes hynny fodoli. Mae wedi galluogi i'r busnesau hynny gychwyn mewn cyfnod anodd iawn. Mae llawer o bob grant wedi dweud y byddent wedi cael trafferth heb Arfor, ac mae hynny'n dweud llawer. O'r 17 busnes newydd hynny, rwy'n amau y byddent wedi cychwyn o gwbl. Byddent yn bendant wedi'i chael hi'n anodd.' (Cyfweliad Rheoli, 2021)

'Hynny yw, mae wedi caniatáu imi sefydlu'r busnes a chael swydd. Rwyf hefyd wedi gallu cynnig gwasanaethau newydd a gwneud tasgau mwy oherwydd mae gen i'r peiriannau cywir.' (Cyfweliad Rheoli, 2021)

Sir Gâr

Roedd data monitro a gasglwyd gan staff rheoli yn awgrymu bod **153 o swyddi wedi'u diogelu**, er bod 92 o'r rhain yn gysylltiedig â dau fusnes. Fodd bynnag, mae gwahanu grant Arfor o gymorth ehangach ar gyfer coronafirws yn heriol, ac mae'n annhebygol mai'r grant oedd yr unig neu hyd yn oed y prif fodd o ddiogelu'r swyddi hyn. Mae ffyrlo a'r gefnogaeth fusnes ehangach yn debygol o fod wedi chwarae rhan fwy allweddol wrth ddiogelu'r swyddi a'r busnesau, er na ddylid diystyru cefnogaeth Arfor.

Yn gyfan gwbl, bydd 11 o swyddi newydd wedi'u creu erbyn diwedd mis Mawrth 2021, a byddai un ar ddeg o swyddi rhan amser wedi'u creu erbyn yr un cyfnod. Bydd 21 o swyddi eraill wedi'u creu o fewn blwyddyn i'r rhaglen ddod i ben ac ochr yn ochr â 44 o swyddi rhan-amser eraill. I gyd, felly, disgwylir i'r grant fod **wedi diogelu 153 o swyddi** a bydd, o fewn 12 mis, wedi cefnogi creu **32 o swyddi amser llawn a 55 o swyddi rhan amser**. Cymhareb o **1 swydd gyfwerth ag amser llawn wedi'i chreu am bob £7,836 a wariwyd**.⁵

Nododd y busnesau a gyfwelwyd mai'r gobaith yw y byddai unrhyw swyddi a fwriadwyd neu a fyddai'n cael eu creu o ganlyniad i'r grant yn mynd i drigolion lleol. Dim ond data monitro a gesglir yn ddiweddarach fydd yn tystio i hyn. Bydd proffil iaith recriwtiaid newydd yn llywio'r effaith mewn perthynas â nodau ehangach y rhaglen. Mewn rhai achosion, roedd perchnogion y busnes eu hunain wedi gallu ymrwymo'n llawn amser i'r busnes.

'Mae hyn wedi creu swydd amser llawn i mi. Rydw i wedi byw yn yr ardal hon erioed ac rydw i'n siarad Cymraeg yn barod.' (Cyfweliad Busnes, 2020)

Awgrymodd y busnesau newydd, h.y. y rhai a oedd wrthi'n cael eu sefydlu neu a oedd wedi bodoli am lai na 12 mis, **fod y gefnogaeth yn ffactor allweddol wrth sefydlu busnes yn llwyddiannus**. Nododd y perchnogion busnes hyn yn aml ei bod yn anodd dod o hyd i gyfalaf, a naill ai nad oedd **dewis amgen i'r grant**, neu y byddai benthyciad banc wedi cynnwys proses hirach a biwrocraidd yn ogystal â bod yn ymrwymiad ariannol rhy beryglus neu gostus i'r cwmni. Felly roedd y grant nid yn unig yn ffynhonnell ariannu a fyddai wedi bod yn anodd ei gael mewn man arall, ond hefyd wedi galluogi i'r busnes symud yn gyflym wrth ddatblygu, sefydlu a dechrau masnachu.

'Ni allem gael yr arian fel arall. Ddim heb Arfor. Nid oedd unrhyw gyllid addas arall ar gael. Fe wnaeth hyn ein helpu i ehangu'r busnes yn gynt o lawer.' (Cyfweliad Busnes, 2021)

⁵ Mae hyn yn tybio bod y swyddi Rhan Amser yn cyfateb i 0.5 cyfwerth ag amser llawn

Dywedd pob busnes a gyfwelwyd fod y grant wedi cael effaith sylweddol ar eu busnes. Yn ogystal â helpu'r busnesau i gael eu sefydlu, nododd y busnesau presennol eu bod wedi ehangu eu gweithrediad ac yn disgwyl cynnydd mewn refeniw o ganlyniad i'r datblygiadau. Fodd bynnag, roedd pandemig y coronafirws wedi **cyfyngu ar y gallu i fesur effaith y grant ar eu ffrydiau refeniw** a'r amcan hwnnw; nid oedd data meintiol i ddangos yr effaith ar gael ar hyn o bryd. Roedd ffactorau eraill yn gohirio neu'n cyfyngu i ba raddau y gellid tystio i'r effaith. Roedd rhai busnesau, er enghraifft, yn dal i aros am dystysgrifau diogelwch, neu dim ond yn y broses o ddechrau masnachu.

'Dydyn ni ddim wedi gwerthu eto oherwydd rydyn ni'n dal i aros am statws Hylendid Bwyd. Rydyn ni wedi dechrau derbyn rhag-archebion ar y wefan. Ond mae salami ac ati yn cymryd o leiaf bedwar mis i sychu cyn y gallwch chi ddechrau eu gwerthu.' (Cyfweiliad Busnes, 2021)

Canfyddiadau cyffredinol

Nododd yr holl fusnesau a gyfwelwyd fod eu **deunyddiau cyfathrebu marchnata gyda chleientiaid a chwsmeriaid eisoes yn ddwyieithog** a'u bod, oherwydd sgiliau a galluoedd y staff hyn, eisoes yn gallu ac yn tueddu i ymgysylltu'n anffurfiol â chwsmeriaid trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mewn rhai achosion, ac yn fwy penodol yn **Sir Gâr**, roedd staff o'r farn bod gan bobl fwy o ddiddordeb mewn symud i'r ardal neu aros yn yr ardal i gychwyn eu busnesau oherwydd bod y grant ar gael, o bosibl oherwydd y pecyn cymorth ehangach sydd ar gael i fathau penodol o fusnesau.

Roedd staff rheoli hefyd yn teimlo bod y busnesau a gefnogwyd gan y grant yn nodedig ac yn amlwg yn eu pentrefi a'u cymunedau lleol mewn sawl achos. Er eu bod yn anodd eu tystio, roedd y rheolwyr yn teimlo bod y busnesau hyn yn **helpu i adeiladu gwytnwch yn y cymunedau** yn ogystal â, dros amser, yn darparu enghreifftiau o bobl lleol yn llwyddo heb orfod gadael yr ardal. Roedd y rhain yn safbwyntiau goddrychol a fynegwyd gan y rheolwyr, ac maent yn haeddu ymchwiliad pellach os a phan fo hynny'n bosibl.

'Roedd y ddau frawd hyn â chefnidir ffermio a oedd eisiau aros yn yr ardal. Roeddent eisiau rhoi rhywbeth yn ôl i'r ardal, felly dechreuon nhw fusnes iogwrt. Gwelwyd y math hyn o beth mewn sawl cais ac efallai ei fod yn rhywbeth o ran COVID a phobl eisiau dod adref fel petai ... Y peiriannau gwerthu llaeth hefyd, mae pobl yn rhoi cynnig ar rywbeth sydd ychydig yn wahanol. Mae'r peth lleol hwnnw'n dod drwodd yn y ceisiadau, y syniad o brynu'n lleol. Enghraifft arall fyddai cwpl, rhai di-Gymraeg, sydd wedi bod yn tyfu gwenith sy'n frodorol i'r ardal ac yn defnyddio hynny i wneud a gwerthu bara. Maen nhw'n gweld y dreftadaeth a'r hanes a phethau felly. Mae'n mynd y tu hwnt i'r iaith, mae'n ymwneud â'r gymuned wir eisiau rhywbeth ac eisiau creu cynnyrch Cymraeg i Gymry. Mae'n ymwneud â naws am le.' (Cyfweiliad Rheoli, 2021)

Yn ehangach, roedd staff rheoli yn teimlo y byddai wedi bod yn fanteisiol gallu cyfateb y cyllid â chyllid LEADER. Gallai hyn fod wedi galluogi datblygu ceisiadau mwy soffistigedig neu gydgysylltiedig yn cynnwys gwariant cyfalaf a refeniw ar gyfer datblygiadau arloesol, yn enwedig pe bai mwy o amser wedi bod ar gael i ddatblygu syniadau.

2.2.4 Effaith ar y Gymraeg

Canfyddiadau Allweddol

- Mae Grantiau Uniongyrchol wedi gwreiddio darpariaeth a datblygiad iaith o fewn busnesau.
- Gwneir hyn trwy'r broses ymgeisio a sgorio pwyslais ar allu Cymraeg a datblygu gwasanaeth.
- Cred bod hyn wedi sicrhau ymgysylltiad mwy sylweddol â'r agenda, yn ogystal â gyda gwasanaethau cymorth ehangach y llywodraeth fel Helo Blod.

Ac eithrio'r Grant Iaith, roedd hi'n anos mesur y canlyniadau iaith. Dim ond rhai a oedd yn monitro'r busnesau yn hyn o beth. Yn **Ynys Môn**, nododd **33 o'r 37** o dderbynwyr y naill gronfa neu'r llall neu'r ddwy gronfa fod defnydd eu busnes **o'r Gymraeg wedi cynyddu** tra bod **24** wedi nodi eu bod wedi **datblygu mwy o arwyddion Cymraeg neu ddwyieithog**. **Nododd pob un o'r derbynwyr Grant Iaith gynnydd yn nefnydd y Gymraeg** a chofnododd 9 allan o 13 o'r Grant Busnes eu bod yn gwneud hynny.

Roedd y cyfweiliadau'n darparu data ychwanegol, er eu bod yn cynrychioli sampl yn unig o'r busnesau a gefnogwyd gan y grantiau. Nododd tua **64%** o'r busnesau nad oedd y Grant **wedi cael effaith sylweddol** ar ddefnydd y Gymraeg yn y busnes yn fewnol neu'n anffurfiol. Fodd bynnag, roeddent yn gweithredu'n bennaf trwy'r Gymraeg cyn derbyn y gefnogaeth neu roeddent yn unig fasnachwyr nad oedd y defnydd mewnol ac anffurfiol o'r Gymraeg yn berthnasol iddynt. Nododd tua **24%** o'r busnesau a gafodd eu cyfweld, yn fewnol ac yn anffurfiol, **fod defnydd o'r Gymraeg wedi cynyddu** oherwydd, yn rhannol o leiaf, y gefnogaeth a dderbyniwyd. Yn fwyaf cyffredin, **roedd hyn yn deillio o recriwtio siaradwyr Cymraeg**. Mae'n awgrymu y gallai cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg mewn busnesau bach a micro gael effaith ar y gweithlu ehangach, o leiaf ar lefel achlysurol neu anffurfiol.

'Mae wedi tyfu ychydig, gan fod gennym ddau siaradwr Cymraeg a dysgwr Cymraeg nawr ac rydym yn cynnal sgysiau byr, anffurfiol yn Gymraeg.' (Cyfweiliad Busnes, 2021)

Nododd lleiafrif bach o fusnesau (2) eu bod wedi datblygu eu meddalwedd archebu i gynnwys y ddwy iaith, gan orfodi sgiliau Cymraeg gan y staff yn eu tro. Gellid ystyried y rhain, er eu bod yn brin, fel enghreifftiau o **brosesau mewnol ond ffurfiol** sydd wedi'u datblygu o ganlyniad i'r grant, ac yn enwedig ym marn y busnesau, o ganlyniad i'w hymgysylltiad â gwasanaeth Helo Blod (gweler isod).

Nododd tua **22%** o'r busnesau eu bod wedi **cychwyn neu gynyddu i ba raddau yr oeddent yn ymgysylltu â chleientiaid yn ddwyieithog neu yn Gymraeg**. Roedd mwyafrif y rhain yn tueddu i fod yn fusnesau yng **Ngheredigion**, er nid yw'n eglur beth yw'r rheswm dros hynny. Awgrymodd y rhai a holwyd fod hyn oherwydd cynnydd yng nghynnwys Cymraeg eu hallbwn marchnata neu gyfryngau cymdeithasol.

O ganlyniad, roedd cleientiaid a chwsmeriaid yn dewis ymgysylltu â'r busnes yn Gymraeg. Awgrymodd **46%** o'r ymatebion eu bod **eisoes yn ymgysylltu â chleientiaid neu gwsmeriaid yn ddwyieithog**. Teimlai'r gweddill nad oedd ganddynt y gallu i wneud hynny neu nad oeddent yn siŵr. Mae tystiolaeth i awgrymu, felly, bod cynyddu maint y Gymraeg gweladwy yn annog ymgysylltiad yn y Gymraeg, ac o ganlyniad i fusnesau ymateb yn Gymraeg, os oes gallu yn bodoli.

'Rydym yn cael nifer cynyddol o geisiadau, negeseuon a galwadau ffôn gan gwsmeriaid yn Gymraeg oherwydd y cynnwys Cymraeg cynyddol ar gyfryngau cymdeithasol a'r wefan.' (Cyfweiliad Busnes, 2021)

'Mae cwsmeriaid yn cysylltu â ni trwy'r cyfryngau cymdeithasol yn Gymraeg lawer mwy ac rydym hefyd yn cael mwy o ymholiadau ffôn gan gwsmeriaid yn Gymraeg.' (Cyfweiliad Busnes, 2021)

'Mwy o sgysiau yn Gymraeg wrth i gwsmeriaid sylweddoli bod gennym staff Cymraeg eu hiaith.' (Cyfweiliad Busnes, 2021)

Nododd tua **36%** o'r busnesau a gyfwelwyd fod eu trafodion ffurfiol â chleientiaid a chwsmeriaid yn **ddwyieithog cyn y Grant**. Fodd bynnag, nododd oddeutu **26%** o'r ymatebion fod **agweddau mwy ffurfiol ar y busnes yn delio â chleientiaid a chwsmeriaid**, o ganlyniad i'r gefnogaeth, **trwy gyfrwng y Gymraeg**. Awgrymodd gweddill yr ymatebion nad oedd eu prosesau ffurfiol fel anfonebu ac archebu ar gael yn ddwyieithog, neu na allent ddarparu manylion yn ystod y cyfweiliad. Mae'n awgrymu eto y gallai fod cysylltiad rhwng cynyddu gwelededd y Gymraeg a busnesau yn addasu ac yn bodloni'r galw i gymryd rhan yn Gymraeg.

'Mae mwyafrif ein gwefan a'n cyfryngau cymdeithasol yn ddwyieithog nawr, ac rwy'n gobeithio cael popeth yn ddwyieithog erbyn haf 2021. Mae'r ffurflenni e-bost ac archebu bellach yn ddwyieithog hefyd.' (Cyfweiliad Busnes, 2021)

Gofynnwyd i fusnesau hefyd fyfyrion ar welededd yr iaith Gymraeg o fewn a chan eu busnesau. Awgrymodd tua **31%** fod eu holl farchnata a chyfryngau cymdeithasol neu **agweddau gweladwy eraill eisoes yn ddwyieithog** neu drwy gyfrwng y Gymraeg. Fodd bynnag, nododd **66%** o'r ymatebion eu bod **wedi cynyddu eu cynnwys a'u hallbwn iaith Gymraeg gweladwy o ganlyniad i'r grant**. Mae rhai wedi datblygu eu hallbwn presennol tra bod eraill wedi cychwyn o ddim. Gallai'r raddfa fod yn fach mewn rhai achosion, megis newid enwau, tra bod cwmnïau eraill wedi ymrwymo i bresenoldeb a marchnata cyfryngau cymdeithasol dwyieithog.

'Roedd y Wefan, cyfryngau cymdeithasol a hysbysebion eisoes yn rhannol ddwyieithog o leiaf cyn Arfor ond oherwydd Arfor rydym wedi cynyddu'r Gymraeg yn ein holl negeseuon.' (Cyfweliad Busnes, 2021)

'Labelu dwyieithog ac rydw i wedi dechrau paratoi marchnata digidol a phostio negeseuon cyfryngau cymdeithasol sy'n ddwyieithog.' (Cyfweliad Busnes, 2021)

Yn ehangach, awgrymodd staff rheoli yn benodol fod y **Grantiau wedi ennyn ymgysylltiad mwy sylweddol â'r Gymraeg** fel pwnc i'w ddatblygu yn y busnes. Ategwyd at y sylwadau hyn gan y busnesau eu hunain wrth gael eu cyfweld, a nododd werth ymgysylltu â'r gwasanaethau hyn ac na fyddent wedi ystyried cyrchu'r gwasanaethau hyn pe na bai'n ofynnol iddynt wneud hynny gan y grant. Roedd y broses ymgeisio am grant **yn ei gwneud yn ofynnol i fusnesau amlinellu eu cynlluniau** ar gyfer datblygu gwasanaethau Cymraeg. Yn aml, fel yn achos dau grant **Ceredigion**, rhoddodd sgoriau'r ceisiadau bwysoliad sylweddol i'r agwedd hon (roedd tua 25% o'r holl farciau ar gael am eu cynlluniau mewn perthynas â'r Gymraeg). At hynny, roedd y grantiau yn mynnu (ac yn achos **Ceredigion** hefyd yn cael eu monitro) ymgysylltu â'r gwasanaeth Helo Blod fel rhan o'r amodau. I lawer o fusnesau, dechreuodd hyn y **broses o ymgysylltu'n sylweddol â'r mater**.

Grant Iaith Ynys Môn

Roedd y Grant Iaith yn wahanol mewn rhai agweddau gan ei fod yn ymwneud â datblygu gwasanaethau iaith a gallu'r busnesau yn unig. Mae'r grant wedi galluogi i rai busnesau **oresgyn rhai o'r rhwystrau i wasanaethau cymorth ehangach**, yn benodol mewn perthynas ag ariannu gwersi Cymraeg i staff. Er bod y gefnogaeth hon ar gael o ffynonellau eraill, mae busnesau llai yn arbennig yn wynebu rhwystrau rhag cyrchu gwersi Cymraeg. Nododd staff rheoli, er enghraifft, wrth dynnu sylw at gryfder y grant hwn, er mwyn bod yn gymwys i gael cefnogaeth Busnes Cymru ar gyfer gwersi Cymraeg, roedd angen grwpiau o saith aelod staff neu fwy. Ar ben hynny, mae'n ofynnol i'r aelodau staff hyn fod ar yr un lefel gallu, ac roedd y cyrsiau yn yr ystafell ddosbarth yn gofyn am amser i ffwrdd o'r busnes ac, felly, yn gost i'r busnes. Fodd bynnag, roedd y grant iaith **yn galluogi i fusnesau gael mynediad at wersi Cymraeg mwy pwrpasol a pherthnasol yn y Gymraeg** a gynhaliwyd, yn rhannol o leiaf oherwydd y pandemig coronafirws, ar-lein ac ar adegau mwy cyfleus i'r aelodau staff.

'Yn sicr mae yna enghreifftiau lle mae pobl wedi defnyddio'r grant iaith i gymryd gwersi Cymraeg. Felly yn anffurfiol, ac yn fewnol, mae'r gronfa wedi cael effaith ar allu. Roedd yna gwmni [golygu], gwnaethant gais iddi hi a'i staff fynychu rhaglen ddysgu Cymraeg ffurfiol, ond nid oeddent yn gymwys oherwydd bod angen saith aelod o staff ar yr un lefel iaith arnoch. Rwy'n credu mai dim ond Awdurdod Lleol fyddai â saith aelod o staff fel 'na, ar yr un lefel yn union. Hefyd, ni allwch gymryd gwersi Cymraeg os oes rhaid i chi gau'r drws i'r siop. Felly mae'r cyrsiau bellach yn rhithiol ac yn fwy hygyrch.' (Cyfweliad Rheoli, 2021)

Fodd bynnag, roedd rhai Grantiau, yn arbennig dau grant **Ceredigion**, yn gwahardd ei ddefnyddio ar gyfer gwersi Cymraeg. Roedd hyn, awgrymodd staff, oherwydd pryder y byddai gwneud hynny yn dyblygu'r gefnogaeth ehangach sydd ar gael yn y sir.

Roeddem yn glir na fyddai hyn yn cael ei ddefnyddio ar gyfer gwersi Cymraeg. Mae digon o hynny ar gael yn y sir, ac am ddim. Rwy'n teimlo'n gryf am hynny. Sut fyddech chi'n ei fonitro beth bynnag?' (Cyfweiliad Busnes, 2021)

2.2.5 Canfyddiadau Pellach a Chyffredin

Ar draws yr holl grantiau busnes, daeth busnesau, staff rheoli a rhanddeiliaid i gasgliadau cyffredin nad oeddent yn gyfyngedig i unrhyw un grant penodol. O'r cychwyn cyntaf, er enghraifft, roedd staff rheoli yn cydnabod bod **galw am gymorth ariannol i fusnesau ddatblygu**. Credwyd bod angen penodol i helpu **busnesau micro a bach** oherwydd yr heriau neu'r gost o sicrhau ffynonellau cyllid a buddsoddiad amgen fel benthyciadau banc. Roedd hyblygrwydd y grant yn agwedd arall y credir ei bod yn apelio'n arbennig at fusnesau llai a micro. Dim ond tystiolaeth anecdotaidd a gefnogodd y canfyddiad hwn, ond serch hynny mae'n cynnig esboniad posibl i atyniad y grantiau busnes uniongyrchol. Mae hefyd yn awgrymu, fel yr oedd ychydig o rhanddeiliaid a busnesau wedi nodi'n benodol, bod mynediad at gyfalaf a **ffynonellau cymorth i ficrofusnesau sy'n edrych i ddatblygu yn gyfyngedig**.

'Na, dydw i ddim yn gwybod am unrhyw ffynonellau cyllid ar gyfer busnesau lleol, nac arian i hyrwyddo Cymraeg na'i defnydd. Roedd yn sioc imi weld yr amodau anodd y mae rhai busnesau wedi bod yn eu hwynebu. Yn ôl a ddeallaf, mae unrhyw arian gan y llywodraeth ar gyfer busnesau yn 2020 neu 2021, fel Busnes Cymru wedi mynd tuag at gefnogi busnesau trwy'r pandemig.' (Cyfweiliad â Rhanddeiliaid, 2021)

O'r busnesau a gafodd eu cyfweld, nododd lawer **na fyddent wedi symud ymlaen â'u cynlluniau datblygu oni bai am y grantiau a dderbyniwyd**.

Canfu dau o'r awdurdodau lleol fod **pandemig y coronafirws wedi effeithio i ba raddau yr oedd busnesau eisiau datblygu**. Roedd rhanddeiliaid a phersonél rheoli o'r farn bod y busnesau hyn **wedi ymwneud yn ormodol â goroesi yn hytrach na datblygu**. Fodd bynnag, nododd staff rheoli fod **diddordeb o'r newydd** yn y grantiau busnes ac awydd gan berchnogion i ddatblygu eu busnesau wrth i gyfnodau clo gael eu llacio **yn hanner olaf 2020**.

O ran pethau y byddwn i'n eu newid, y peth gwirioneddol amlwg fyddai, fel gydag unrhyw gynllun grant, bod gennych chi fusnesau a fydd yn gwneud unrhyw beth dim ond i gael yr arian. Yr hyn a wnaethom oedd cyflwyno proses o wneud cais am grant iaith i ddechrau, yna mynd ymlaen i'r grant busnes, fel bod cysylltiad yno â Helo Blod. Aeth rhai yn syth at y grant busnes oherwydd eu bod wedi addo gwneud rhywbeth gyda'r iaith, ond y perygl yno yw nad yw'n gweithio cystal, ac nad ydyn nhw'n cynhyrchu unrhyw beth o ran yr iaith.' (Cyfweiliad Rheoli, 2021)

Grantiau Busnes Uniongyrchol – Casgliadau

I gloi, ymddengys bod y grantiau wedi cael effaith ar bron pob derbynydd. Mae'r data'n awgrymu, er mai dim ond y ffigurau rhagamcanol oedd ar gael, bod cyfanswm o 282.5 o swyddi cyfwerth ag amser llawn wedi'u diogelu tra bydd 238 o swyddi amser llawn ac 89 o swyddi rhan amser yn cael eu creu o ganlyniad i'r gefnogaeth. At ei gilydd, mae hyn yn cyfateb i **un swydd gyfwerth ag amser llawn yn cael ei diogelu am bob £6,917.05 ac un swydd gyfwerth ag amser llawn yn cael ei chreu am bob £5,288.79 a wariwyd**. Fodd bynnag, amcangyfrifon yw'r ffigurau hyn, ac mae angen monitro pellach i ddilysu effaith y grant.

Serch hynny, mae data'n awgrymu bod y Grantiau wedi cefnogi llawer o fusnesau i **ddatblygu cynhyrchion a gwasanaethau newydd** sydd wedi neu y rhagwelir y byddant **yn cynyddu trosiant yn y dyfodol**. At hynny, mae'r Grantiau wedi arwain at ymdrech sylweddol i ddatblygu a chynyddu darpariaeth a gallu'r Gymraeg yn y busnesau. Teimlai busnesau a staff rheoli na fyddai'r datblygiadau hyn wedi bod yn bosibl heb y grant, gan fod y ffynonellau cyllid ehangach ar gyfer y datblygiadau penodol a phwrpasol yr oedd busnesau'n gobeithio eu gwneud yn rhy anodd eu cyrchu.

Mae'r effaith ar fusnes yn syml. Mae'r buddsoddiad wedi galluogi i'r busnesau **gyflogi mwy o bobl, ehangu gwasanaethau, datblygu cynhyrchion newydd** neu **ffyrdd mwy effeithlon o weithio** a masnachu. Ar gyfer **busnesau newydd**, credir bod yr effaith wedi bod **yn allweddol wrth alluogi, yn enwedig perchnogion busnesau iau, i gael gafael ar gyllid a buddsoddiad**.

Yn y cyfamser, mae'r broses ymgeisio wedi **ymgorffori darpariaeth a datblygiad iaith o fewn busnesau**, yn benodol y gofyniad i gyflwyno a sgorio'n dda ar ymrwymiad i'r Gymraeg a'i datblygiad o fewn a chan y busnes. Trwy wreiddio datblygiad iaith wrth gynllunio busnes, mae'r grantiau wedi sicrhau **ymgysylltiad mwy sylweddol â'r agenda**, ynghyd â **gyda gwasanaethau cymorth ehangach y llywodraeth** fel Helo Blod.

Teimlwyd yn eang bod pandemig y **coronafirws wedi effeithio ar** y busnesau wrth gyflawni eu cynlluniau ac, yr hyn yr adroddwyd amdano yn ehangach, wedi **cyfyngu ar y gallu i dystiolaethu** unrhyw effaith benodol a oedd wedi deillio o'r grant a'r datblygiadau gwasanaeth neu gynnyrch cysylltiedig. Teimlai'r rheolwyr a'r busnesau fel ei gilydd mai dim ond yn y tymor **hwy gellid dangos yr effaith**. Serch hynny, roedd busnesau yn **optimistaidd ynghylch effaith y cynhyrchion a'r gwasanaethau newydd ar eu trosiant**.

Yn y cyfamser, roedd staff rheoli wedi nodi buddion ehangach i'r gymuned, gan awgrymu bod y busnesau eu hunain yn **enghreifftiau ac astudiaethau achos byw o drigolion lleol yn llwyddo heb orfod gadael yr ardal**. Roedd busnesau allweddol **wedi cael eu cydnabod** ochr yn ochr â **gwerth yr iaith Gymraeg mewn busnes**. Credwyd bod hyn yn cael effaith ehangach ar ganfyddiadau unigolion sy'n ystyried gyrfaoedd yn yr ardal neu symud i ffwrdd. Roedd staff hefyd yn teimlo bod y rhaglen yn cefnogi busnesau, yn enwedig busnesau bach, mewn ffyrdd na allai grantiau eraill. Yn ei thro, gall y gefnogaeth hon gynorthwyo'r busnesau hyn i fanteisio ar awydd i brynu'n lleol, lle'r oedd iaith a chymeriad lleol y busnes yn gryfder allweddol.

2.3 Llwyddo'n Lleol

Cefndir a chynllun

Rhaglen bwrpasol oedd Llwyddo'n Lleol a ddatblygwyd ac a reolwyd gan Fenter Môn⁶ i gefnogi a mentora pobl ifanc wrth iddynt ddatblygu eu busnesau. Byddai pobl ifanc ar y cynllun yn mynychu gweithdai wythnosol ac yn derbyn cefnogaeth grŵp gan gynghorwyr busnes arbenigol. Cynlluniwyd y rhaglen i bara 11 wythnos, pan gafodd y bobl ifanc y dasg o ddogfennu eu profiadau dros gyfryngau cymdeithasol mewn cyfres o heriau. Derbyniodd buddiolwyr fwrsariaeth o £1,000 hefyd. Ni amlinellwyd sut y dylid gwario'r arian hwn, a nododd rhai buddiolwyr eu bod wedi defnyddio'r fwrsariaeth i ychwanegu at eu hincwm tra bod eraill wedi buddsoddi mewn offer ar gyfer y busnes.

Roedd y rhaglen wedi bod yn cael ei datblygu ers rhai blynyddoedd, gyda staff rheoli yn yr awdurdodau lleol ac ym Menter Môn yn nodi y bu awydd i dreialu'r dull ers cryn amser. Cynigiodd Arfor gyfle delfrydol i dreialu'r cynllun.

'Rwy'n credu bod Llwyddo'n Lleol wedi bod o gwmpas ers cryn amser fel syniad. Mae rhyw siarad bob amser y byddai'n wych ceisio defnyddio hwn i argyhoeddi neu ddenu pobl ifanc i aros yma. Bu un neu ddau syniad tebyg yn y gorffennol. Ond yr hyn a newidiodd hefyd oedd ein bod yn teimlo, gyda COVID, bod angen newid pethau. Yn sicr mae'r rhaglen [Arfor] wedi rhoi cyfle inni dreialu Llwyddo'n Lleol.' (Cyfweiliad Rheoli, 2021)

'Dw i ddim yn siŵr y byddem wedi gallu rhedeg y cynllun hwn eleni heb arian Arfor. Nid oedd ar y gweill. Arfor a roddodd y sbardun inni a dim ond arian Arfor a redodd hyn nes i ni ddechrau defnyddio ychydig bach o arian LEADER. Heb Arfor, ni fyddem wedi gallu bod mor hyblyg ac mae'n bwysig pwysleisio'r hyblygrwydd hwnnw [fel cryfder].' (Cyfweiliad Rheoli, 2021)

Roedd dau nod craidd i'r rhaglen hon. Yn gyntaf, y gefnogaeth uniongyrchol i grŵp o bobl ifanc a oedd yn y broses o sefydlu eu busnesau yn ardal Gwynedd neu Ynys Môn. Cynlluniwyd y rhaglen i arfogi pobl ifanc â sgiliau caled a meddal i sefydlu eu busnesau. Yn ail, trwy ei gwneud yn ofynnol i'r bobl ifanc ddogfennu eu profiadau a rhannu eu straeon â'u cyfoedion trwy'r cyfryngau cymdeithasol, ceisiodd y rhaglen dynnu sylw at ddewisiadau amgen i'r sgwrs ganfyddedig, sy'n gyffredin yn ardaloedd gwledig Cymru, bod yn rhaid i bobl ifanc adael Awdurdod Lleol er mwyn llwyddo mewn busnes.

'Nid yw llawer o bobl ifanc yn credu bod unrhyw beth cŵl am yr ardal hon, ac mae'r dinasoedd a'r ardaloedd mwy poblog yn denu llawer mwy o bobl ifanc. Roeddem yn gobeithio newid hynny ychydig a dangos y gall yr iaith a gweithio yn yr ardal hon gynnig llawer mwy i bobl ifanc. Oherwydd efallai bod gan y bobl ifanc hyn syniadau sy'n newid bywyd iddyn nhw eu hunain a'u cymunedau.' (Cyfweiliad Rheoli, 2021)

⁶ Mae nodyn eglurhaol ar rôl Menter Môn fel partner cyflwyno a rheoli wedi'i gynnwys yn yr adran cyflwyniad [yma](#).

Roedd iteriadau blaenorol o'r cynllun hwn yn rhagweld y byddai pobl ifanc yn cael eu lleoli mewn busnesau, i gael eu mentora a'u hyfforddi yn y swydd. Fodd bynnag, oherwydd pandemig y coronafirws, penderfynwyd mynd at y garfan fel un grŵp, a'u cefnogi wrth iddynt ddatblygu eu cynlluniau busnes. Credwyd bod **hyn wedi gweithio'n dda, ac o edrych yn ôl, roedd yn gynllun gwell na'r un a ragwelwyd yn wreiddiol.**

Fe'i cynlluniwyd hefyd i ategu at gynllun Ffiws a redir yn yr un ardal, gyda'r rhai sydd wedi'u cofrestru ar Lwyddo'n Lleol yn cael eu hannog i ddefnyddio offer a thechnegwyr Ffiws i ddatblygu prototeipiau a phrofi cynnyrch. Roedd buddiolwyr hefyd yn gymwys, a chafodd llawer gefnogaeth gan gynllun peilot 'Amser i Fentro'⁷ Arloesi Gwynedd Wledig. Bwriad y cynllun hwn oedd cefnogi'r unigolion ar ôl cynllun Llwyddo'n Lleol. Darparodd Amser i Fentro gymorth ariannol i ganiatáu i unigolion gymryd amser o'u gwaith neu addysg i ddatblygu eu busnesau ymhellach.

Cyflwyno

Cyflwynwyd dwy rownd o Lwyddo'n Lleol, y cyntaf yn 2020 i **14 buddiolwr**, a'r ail yn 2021 i **wyth buddiolwr**. Yn y ddau achos, cyflawnwyd y cynllun trwy gyfrwng y Gymraeg. Gwahoddwyd cynghorwyr busnes Cymraeg eu hiaith i gynnal gweithdai wythnosol gyda'r buddiolwyr. **Cwtogwyd y meini prawf ar gyfer yr ail garfan i geisio denu myfyrwyr Prifysgol a oedd wedi aros adref oherwydd rheoliadau cyfnod clo.**

Wrth i'r cynllun geisio arddangos pobl ifanc sy'n cychwyn busnesau yn yr ardal ynghyd â darparu cefnogaeth uniongyrchol i unigolion, roedd y broses ymgeisio a dethol yn cynnwys ystyried gallu neu botensial yr unigolyn i fod yn llfarydd neu'n fodel rôl. Siaradodd staff rheoli am yr angen i ddod i adnabod yr ymgeiswyr yn ogystal ag ystyried eu ceisiadau ffurfiol.

Awgrymodd y buddiolwyr a gafodd eu cyfweld i gyd fod y broses ymgeisio yn syml. Daeth y mwyafrif o'r garfan gyntaf yn ymwybodol o'r rhaglen trwy'r cyfryngau cymdeithasol a negeseuon gan reolwr y cynllun. Er bod rhai wedi codi pryderon mewn perthynas ag amserlenni talu rheolaidd, roedd y mwyafrif yn gyffredinol fodlon â rheolaeth y cynllun.

Effaith

Cwblhaodd yr holl fuddiolwyr y cynllun. Mae arwydd cynnar yn dangos bod 14 o'r 22 o bobl ifanc a gymerodd ran, naill ai wedi cychwyn eu busnesau neu ar fin cychwyn a bod saith arall yn dal i ddatblygu eu cynlluniau a'u syniadau. Nododd y buddiolwyr eu hunain fod y garfan yn dal i fod mewn cysylltiad yn rheolaidd trwy grwpiau WhatsApp, **yn rhannu syniadau, arfer da ac yn hyrwyddo busnesau ei gilydd.**

⁷ Roedd 'Amser i Fentro' eisoes yn bodoli drwy raglen Arloesi Gwynedd Wledig. Ni chafodd Llwyddo'n Lleol ei gynllunio i gyd-fynd nag alinio ag 'Amser i Fentro', ond wrth edrych yn ôl, daeth personél rheoli i werthfawrogi'r aliniad a gwerth ystod o grantiau a ellid eu cyfuno i gefnogi busnesau. Roedd y gallu i gefnogi'r gwaith dilynol, ac yn bwysig, rhoi amser i ymgeiswyr Llwyddo'n Lleol i fuddsoddi mewn datblygu a lansio eu syniad busnes yn effeithiol (a ddatblygwyd drwy Llwyddo'n Lleol), yn fodel effeithiol a allai fod wedi, ym marn y staff rheoli, sicrhau y sefydlwyd mwy o fusnesau yn y pen draw.

Roedd yr holl fuddiolwyr a gyfwelwyd yn teimlo eu bod wedi **datblygu eu sgiliau a'u gwybodaeth rheoli busnes**. Nododd y buddiolwyr fod y cynllun wedi rhoi mynediad iddynt at arbenigwyr mewn ystod o feysydd, o farchnata a brandio i reolaeth ariannol, cysylltiadau cwsmeriaid ac agweddau cyfreithiol.

Roedd y buddiolwyr a gyfwelwyd hefyd yn arbennig o gadarnhaol mewn perthynas â'u profiadau a'r effaith a gafodd y cynllun arnynt eu hunain yn bersonol, a'u busnesau. Ar lefel bersonol, roedd buddiolwyr yn aml yn siarad am **ddatblygu eu sgiliau meddal**, yn enwedig eu hyder mewn perthynas â **marchnata ar-lein ac ar y cyfryngau cymdeithasol**. Er y byddai disgwyl i sgiliau a gwybodaeth gynyddol arwain at gynnydd mewn hyder, nododd y buddiolwyr fod yr heriau wythnosol **yn gwneud mwy i ddatblygu eu hyder a'u parodrwydd i ymgysylltu â chleientiaid dros gyfryngau cymdeithasol**.

'Rydw i wedi bod yn ffodus iawn i ennill cymaint o hyder trwy'r cynllun ... ni fyddwn erioed wedi rhoi fideos ohonof fy hun ar y cyfryngau cymdeithasol [hwrwyddo fy musnes] oni bai am hyn. Mae llawer o gleientiaid wedi clywed amdanaf trwy'r fideos.' (Cyfweiliad Buddiolwr, 2021)

'Sgiliau yn bendant. Sgiliau cyfathrebu a chyflwyno, nid wyf yn credu y byddwn wedi gallu rhoi cyflwyniadau heb hyn. Ond hefyd gwneud y cyfrifon a'r gwaith papur, ochr ymarferol pethau. Hyder hefyd. Nid wyf yn trin hyn fel hobi mwyach, mae'n fusnes nawr. Rwy'n ail-frandio ac rwy'n rhoi mwy o ffocws ar y dyluniad. Mae gen i'r hyder i wneud hynny nawr.' (Cyfweiliad Buddiolwr, 2021)

Teimlai'r buddiolwyr a gyfwelwyd hefyd fod y cynllun wedi cael effaith gadarnhaol arbennig **ar eu busnesau**. Nododd pob un eu bod, trwy'r heriau, wedi bod trwy'r broses o **ddatblygu eu busnesau, eu cynhyrchion a'u gwasanaethau** ond hefyd wedi cyfathrebu â **chleientiaid newydd a chynyddu ymwybyddiaeth o'u busnesau**. Nododd buddiolwyr hefyd fod y sgiliau a'r wybodaeth yr oeddent wedi'u datblygu trwy'r sesiynau wythnosol hefyd yn eu gwasanaethu'n dda yn ystod camau cychwynnol a sylfaenol sefydlu eu busnesau.

Tynnodd buddiolwyr sylw arbennig at y twf **mewn cleientiaid, arallgyfeirio eu gwasanaethau a'u cynhyrchion, gwell marchnata a brandio** ac o ganlyniad **cynnydd mewn trosiant** a oedd wedi deillio o'r newidiadau a roddwyd ar waith.

'Rydw i wedi ehangu'r busnes a'r trosiant. Ar ôl dibynnu ar ffeiriau crefft a gwneud £40 yma ond talu £10 am y stondin, nawr rydw i'n gwneud tua £300 y mis oherwydd yr holl wasanaethau newydd rydw i'n eu cynnig a'r marchnata.' (Cyfweiliad Buddiolwr, 2021)

Roedd y buddiolwyr a gafodd eu cyfweld i gyd yn siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf gan nodi mai **eu bwriad bob amser oedd aros a byw yn yr ardal**. Nododd un bod yn rhaid iddi deithio y tu allan i'r ardal ar gyfer ei swydd, ond bod y cynnydd yr oedd hi'n ei wneud gyda'i busnes ei hun wedi ei galluogi i adael y swydd a dod o hyd i swydd ran amser yn agosach at adref i allu canolbwyntio mwy ar ei busnes ei hun.

Adroddodd y buddiolwyr fod ganddynt **gynulleidfa eang i'r negeseuon blog a'r postïadau cyfryngau cymdeithasol** yn dogfennu eu cynnydd, **yn enwedig gan eu cyfoedion a phobl ifanc eraill**. Teimlai buddiolwyr er eu bod bob amser wedi bwriadu aros yn yr ardal, roedd pobl ifanc eraill yn cymryd sylw o'r posibilïadau yr oedd y rhaglen yn eu harddangos, h.y. bod **yn bosibl aros yn yr ardal a chychwyn busnes**.

'Fel rhan o hyn ond hefyd trwy gynllun Cymorth i Fentro, gofynnwyd i ni geisio ysbrydoli pobl ifanc a'u darbwyllo ei bod hi'n bosibl cychwyn busnes, felly rydw i wedi bod yn rhoi cyflwynïadau bwyd mewn clybiau ieuencid, yn rhithiol, wrth gwrs. Sgyrsiau rhithiol, a dau ... Mae wedi agor eu llygaid i'r cyfleoedd sydd ar gael ... Ac roedd yr ymateb yn dda iawn yn y clybiau ieuencid ... Cafwyd ymateb da hefyd i'r ffaith fy mod i'n rhedeg y busnes hwn trwy'r Gymraeg. Rwy'n credu eu bod wedi synnu y gallwn redeg y busnes yn Gymraeg ac nad oedd yn rhaid i mi wneud popeth trwy'r Saesneg yn gyntaf ond y gallwn ddal i gyrraedd pobl a gwneud iddo weithio.' (Cyfweliad Rheoli, 2021)

Nododd pawb a gyfwelwyd fod y gefnogaeth **wedi bod yn allweddol yn natblygiad eu busnesau**. Roedd pawb yn teimlo na fyddent **wedi gwneud cymaint o gynnydd**, ac yn sicr nid mor gyflym **heb y sgiliau a'r wybodaeth a gawsant trwy'r cynllun**, ond hefyd trwy'r heriau a'r gwaith yr oedd yn ofynnol iddynt ei wneud.

Mae'n ymddangos bod y cynllun **wedi ychwanegu gwerth at gynlluniau eraill** a oedd yn cael eu hariannu fel rhan o raglen Arfor, **ac wedi elwa oddi wrthynt**. Er enghraifft, nododd staff rheoli fod buddiolwyr yn gallu defnyddio lleoedd gwaith ac offer Ffiws i ddatblygu prototeipiau a synïadau am gynnyrch. Nododd buddiolwyr hefyd eu bod wedi cael eu hannog i wneud cais llwyddiannus am gefnogaeth, trwy gynllun LEADER Arloesi Gwynedd Wledig, 'Amser i Fentro', ac wedi gwneud hynny. I bob pwrpas, talodd y cynllun hwn i'r unigolion dreulio un diwrnod arall yr wythnos yn gweithio ar ddatblygu eu busnesau ac roedd wedi galluogi i fuddiolwyr barhau i ddatblygu eu busnesau heb y risg o adael eu cyflogaeth a cholli eu prif ffynhonnell incwm.

'Rwyf hefyd wedi cael cefnogaeth gan Amser i Fentro [sic]. Felly rydw i wedi cael mwy o amser ac i bob pwrpas rwy'n cael fy nhalu i weithio ar y busnes am un diwrnod yr wythnos. Mae hynny wedi cynyddu fy ngallu ond hefyd fy hyder i fynd amdani yn ogystal â'r gefnogaeth ariannol wrth gwrs. Mae'n cadw'r momentwm i fynd, mae'r momentwm a gewch gan Lwyddo'n Lleol yn parhau oherwydd hyn.' (Cyfweliad Buddiolwr, 2021)

Yn yr un modd â chynlluniau eraill yn rhaglen Arfor, byddai busnesau a buddiolwyr yn cael eu cyfeirio at wasanaethau cymorth ehangach sydd ar gael, yn eu tro yn helpu i hyrwyddo ac annog ymgysylltiad â'r gefnogaeth ehangach a gynigir gan Lywodraeth Cymru. Nododd buddiolwyr eu bod wedi cael eu cyfeirio a'u hannog i ymgysylltu â gwasanaeth Helo Blod er enghraifft. Awgrymodd y bobl ifanc **na fyddent wedi gwneud hynny fel arall** a'u bod bellach yn defnyddio'r gwasanaeth yn rheolaidd. Nododd un nad oedd hi'n arbennig o hyderus yn ei sgiliau ysgrifennu Cymraeg, ond bod y gwasanaeth wedi rhoi hyder iddi gynnig ei holl waith papur trwy gyfrwng Cymraeg i'w chleientiaid.

'Efallai y bydden nhw wedi gwneud hynny [cynhyrchu deunyddiau yn ddwyieithog] beth bynnag, ond trwy Lwyddo'n Lleol, mae'n rhaid iddyn nhw gael y gefnogaeth honno gan Helo Blod. Rydyn ni'n eu haddysgu am werth yr iaith a'i chynnwys yn eu busnes. Mae rhai wedi bod mewn dau feddwl am wefan ddwyieithog, ond ar ôl y gefnogaeth fe wnaethant sylweddoli ei gwerth, ac maen nhw'n gwneud hynny.' (Cyfweliad Rheoli, 2021)

Casgliadau

Mae cynllun Llwyddo'n Lleol yn gymharol unigryw yn yr ystyr ei fod nid yn unig yn ceisio cefnogi unigolion i ddatblygu a sefydlu eu busnesau, ond hefyd yn anelu at ddefnyddio'r unigolion hynny fel modelau rôl, gan hyrwyddo'r syniad y gall pobl ifanc aros, byw a dechrau eu busnesau eu hunain o fewn ardal Arfor. Mae'r cynllun yn ceisio mynd i'r afael ag un o heriau craidd yr ardal, sef y bobl ifanc sy'n mudo i rannau eraill o'r DU.

Mae'r data sydd ar gael ar y rhaglen a'i heffaith yn gyfyngedig ac yn oddrychol ei natur i raddau helaeth. Serch hynny, mae staff rheoli a buddiolwyr yn awgrymu ei fod yn cael yr effaith y cafodd ei gynllunio i'w chael. Yn gyntaf, mae'r **unigolion a'r busnesau sy'n cael eu cefnogi** i gyd yn nodi eu bod **wedi elwa'n fawr o'r cynllun**. Mae unigolion yn **datblygu'r sgiliau, y wybodaeth a'r hyder** sy'n eu galluogi i ddatblygu a sefydlu eu busnesau yn lleol. Mae'r busnesau eu hunain yn arddangos arwyddion llwyddiant mwy gwrthrychol fel **syfaen cleientiaid sy'n ehangu ac wedi cynyddu trosiant** ers y gefnogaeth.

Er eu bod yn llai pendant, ac yn debygol o gael eu gweld yn y tymor hwy yn unig, mae buddiolwyr a staff rheoli yn teimlo, trwy ddogfennu eu teithiau, fod y carfannau **wedi codi proffil pobl ifanc sy'n cychwyn ac yn rhedeg eu busnesau eu hunain** ymhlith eu cyfoedion a phobl ifanc yn gyffredinol. Byddai'r gwaith hyrwyddo a wnaed trwy gynllun Bwrlwm ARFOR yn ategu'r ymdrechion hyn yn ddiweddarach trwy arddangos astudiaethau achos. Awgrymodd buddiolwyr eu bod yn cael effaith ar bobl ifanc er nad oes unrhyw ddata sy'n galluogi archwilio'r effaith hon.

Serch hynny, mae'r cynllun wedi helpu i greu a chyflwyno sgwrs amgen i'r un sy'n awgrymu bod yn rhaid i bobl ifanc adael yr ardal er mwyn dod o hyd i waith. Mae'r 22 unigolyn sydd wedi elwa o'r cynllun hwn wedi cyflwyno eu straeon eu hunain o aros yn yr ardal leol a sefydlu busnes yn llwyddiannus naill ai fel swydd amser llawn neu fel ffordd o ychwanegu at eu hincwm.

Mae integreiddio â chynlluniau ehangach hefyd wedi ychwanegu gwerth at Lwyddo'n Lleol. Mae cynlluniau Ffiws, Llwyddo'n Lleol ac Amser i Fentro yn cyfuno i roi mantais sylweddol i bobl ifanc a busnesau newydd yn ystod y cyfnod sefydlu. Mae'r ddau gynllun arall yn galluogi i fuddiolwyr y cynllun hwn gael mynediad at offer arbenigol, datblygu prototeipiau a syniadau a hefyd i gynnal rhywfaint o fomentwm wrth iddynt sefydlu a datblygu eu busnes heb y risg o golli eu llif incwm hirsefydlog.

2.4 Ffiws/Gofod Creu

Roedd Gofod Creu yn gynllun a ariannwyd trwy'r rhaglen Arfor gan Gyngor Gwynedd. Mae'r cysyniad yn adlewyrchu enghreifftiau rhyngwladol, lle mae lleoedd gwaith cydweithredol yn cael eu sefydlu ar gyfer creu, dysgu ac archwilio gan ddefnyddio offer arbenigol. Roedd y cynllun yn cynnig cyfleoedd i fusnesau archwilio'r defnydd o offer arbenigol, yn y pen draw i gefnogi ac annog twf ac arloesedd. Datblygwyd dau le yng Ngwynedd, wedi'u brandio fel 'Ffiws', trwy bartneriaeth rhwng Menter Môn a MSparc. Er nad oedd yn nod craidd, roedd hyn hefyd yn gyfle i staff y cyngor wneud defnydd arall o adeiladau'r stryd fawr.

Roedd y lle cyntaf wedi'i leoli ar Stryd Fawr Porthmadog, gan gynnig mynediad a chefnogaeth i ddefnyddio argraffydd 3D, torrwr laser, gwasg gwres, gwasg mwg, torrwr finyl ac offer arbenigol arall. Cynigiodd y technegwyr gefnogaeth i unrhyw unigolion ddefnyddio'r offer i ddatblygu cynhyrchion a phrototeipiau, yn ogystal â chynnig gweithdai a sesiynau hyfforddi. Cynlluniwyd ail le ar gyfer Parc Busnes Nefyn, ond oherwydd pandemig y coronafirws, ni fwrwyd ymlaen â'r cynllun.

Nid oes unrhyw ddata monitro ar gael ar gyfer y lleoedd a'u defnydd, er bod staff rheoli yn ymwybodol o 9 busnes o leiaf sydd wedi sefydlu yn dilyn eu hymgysylltiad â'r lleoedd.⁸ Nododd staff mewn cyfweiliadau bod y diddordeb yn uchel i ddechrau, mewn defnyddio'r offer ac yn y gweithdai a'r hyfforddiant a gynigiwyd. Defnyddiwyd y lleoedd yn aml gan y cyhoedd, busnesau lleol a busnesau newydd, gan gynnwys cyfranogwyr Llwyddo'n Lleol. Mae yna hefyd achosion o unigolion sydd wedi ceisio cyllid yn llwyddiannus gan gynllun Cymorth i Fentro i ddatblygu eu cynhyrchion a'u busnes ymhellach yn dilyn ymgysylltiad cychwynol â Ffiws.

'Daeth [enw wedi'i olygu] i Ffiws i ddysgu mwy am y peiriant CNC ac i weld a oedd hi'n bosibl ei ddefnyddio i wneud cwch gwenyn. Ar ôl sgwrs gyda'r [enw wedi'i olygu] y technegydd ... roedd yn hyderus y byddai peiriant CNC yn helpu ei fusnes trwy ganiatáu iddo wneud mwy o gychod gwenyn mewn llai o amser. Mae bellach yn y broses o edrych i brynu peiriant CNC ar gyfer y busnes ... mae wedi gwneud cais i gronfa Cymorth i Fenter Arfor ac wedi bod yn llwyddiannus yn y rownd gyntaf. Mae hefyd wedi llwyddo i sicrhau uned fusnes yn Harlech lle bydd y gwaith cynhyrchu yn digwydd. Dywedodd fod Ffiws wedi ei helpu i danio'r dychymyg a'i fod yn ddiolchgar iawn i Ffiws am roi'r cyfle iddo roi cynnig ar yr offer uwch-dechnoleg sydd ar gael yno.' (Astudiaeth Achos Ffiws, 2021)

Mae Ffiws yn chwarae rôl gefnogol, **gan ychwanegu gwerth at wasanaethau cymorth busnes ehangach** yn ogystal â gwasanaethu'r gymuned. Cafodd ei integreiddio'n effeithiol â chynlluniau ehangach Arfor, a bydd y gofod yn cael ei ariannu am flwyddyn ychwanegol trwy'r cynllun LEADER. Nododd staff hefyd bwysigrwydd gallu cyrchu offer ac arbenigedd arbenigol yn lleol, os yw pobl eisiau sefydlu busnesau, gweithio a byw'n lleol.

⁸ Nid oes tystiolaeth o gyswllt achosol, uniongyrchol. Ond mae'r lleoedd yn cael eu defnyddio gan unigolion sy'n mynd ymlaen wedyn i gychwyn busnesau.

'Nid yw Ffiws yn datrys unrhyw her, ond mae'n helpu busnesau sy'n dod atom gyda syniadau ar gyfer cynnyrch sydd angen ei ddatblygu. Fe helpodd y rhai a oedd gyda Llwyddo'n Lleol, ac oherwydd hynny rydym yn edrych ar greu lleoedd creadigol i artistiaid. Mae'n ymwneud â'r economi leol ac economi gylchol, os ydym am i bobl fyw a gweithio o fewn 20 munud [i'w cartref], wel mae Llwyddo'n Lleol wedi profi bod hynny'n bosibl yn enwedig pan fydd pethau fel Ffiws i'w cefnogi.' (Cyfweliad Rheoli, 2021)

2.5 Cymunedau Mentrus

Ceisiodd cynllun Cymunedau Mentrus gefnogi rhaglenni pilot dan arweiniad y gymuned leol sy'n cefnogi ac yn datblygu'r economi sylfaenol ochr yn ochr â chadwyni cyflenwi lleol, cyflogaeth leol a chynyddu faint o arian sy'n cael ei ddwyn i mewn a'i gadw mewn cymunedau. Roedd angen i ymgeiswyr ddangos ymrwymiad a budd i'r gymuned leol. Nod y cynllun oedd gweithio gyda thri phrosiect, a nodwyd busnesau cymdeithasol fel ffordd y gellid cyflawni'r nodau, ond hefyd oherwydd diddordeb strategol ehangach y staff rheoli mewn ehangu eu hymgysylltiad â sefydliadau o'r fath. Och'r yn och'r â chefnogi'r tri phrosiect a chymuned, y gobaith oedd y byddai'r gwaith yn cynhyrchu mewnwelediad i sut i greu cyflogaeth yn lleol. Yn y pen draw, fe wnaeth y cynllun ymgysylltu â thair menter gymdeithasol, pob un wedi'i lleoli yng Ngwynedd. Mae Menter y Plu yn fenter gymdeithasol a ddechreuwyd trwy brynu a gweithredu tafarn yn Llanystumdwy. Mae Pum Plwy Penllyn yn gweithredu yn ardal y Bala, gan osod a rhentu ystafelloedd cyfarfod a swyddfeydd. Yn y cyfamser, mae Partneriaeth Ogwen yn darparu gwasanaethau clericio i'r Cynghorau Cymuned Lleol; datblygu prosiectau adfywio cymunedol, economaidd ac amgylcheddol; rheoli eiddo a datblygu prosiectau trosglwyddo asedau cymunedol; a chefnogi prosiectau sy'n creu cymuned iach, fywiog a chynaliadwy.

Yn wreiddiol, roedd disgwyl i swyddogion datblygu gael eu cyflogi'n uniongyrchol trwy'r grant. Byddai'r swyddogion hyn wedyn yn ehangu cyrhaeddiad a gweithgaredd y sefydliad. Ym mhob un o'r tri achos fodd bynnag, **oherwydd effaith y pandemig, cafodd cynlluniau eu hadolygu a'u newid**. Yn y pen draw, ceisiodd y sefydliadau ddatblygu naill ai eu seilwaith digidol neu ffisegol. O ganlyniad i'r newidiadau hyn, gwnaeth dau o'r mentrau cymdeithasol welliannau ffisegol i'w hasedau tra bod traean yn defnyddio'r cyllid grant i wella a datblygu gwefan ac i gyflogi swyddog datblygu prosiect a marchnata.

Cais a chynllun

Holwyd gweithwyr y tair menter. Roedd y rhain yn awgrymu bod cyswllt personol a pherthnasoedd â staff rheoli a chyflwyno yn eu helpu i ddod o hyd i wybodaeth am y grant a thrwy'r broses ymgeisio ei hun. Nododd ychydig fod y broses ymgeisio yn heriol, yn bennaf oherwydd faint o wybodaeth yr oedd yn rhaid ei darparu a'r amserlenni tynn dan sylw.

Cyflwyno

Mae'r pandemig coronafirws wedi effeithio ar y tair menter ac i ba raddau y gallant ddangos unrhyw effaith hyd yn hyn. Roedd y ddwy fenter a wnaeth welliannau ffisegol yn ymwybodol na fyddai'r llety swyddfa a oedd wedi'i ddatblygu a'i adnewyddu gyda'r cyllid grant yn weithredol nac yn gallu tynnu referniw nes bod mesurau cyfnod clo a phellter cymdeithasol wedi'u llacio.

Unwaith y cymeradwywyd y grantiau, fodd bynnag, nododd staff rheoli fod y mentrau eu hunain yn ddigon profiadol a medrus i reoli'r prosiectau eu hunain. Roedd y mentrau'n gyfarwydd â gofynion cyllid cyhoeddus, a'r angen i fonitro gweithgaredd a dangos effaith, ac roeddent yn gallu adrodd yn ôl i'r staff rheoli yn effeithiol.

'O ran Cymunedau Mentrus, nhw eu hunain. Mae'n debyg bod hynny oherwydd y math o gymunedau ydyn nhw a'r mentrau ydyn nhw. Mae effaith Cymunedau Mentrus wedi bod yn ehangach yn y gymuned. Mae'r canlyniadau wedi bod yn wych ond eto efallai bod hynny oherwydd gyda phwy rydyn ni wedi bod yn gweithio.' (Cyfweliad Rheoli, 2021)

Effaith

Serch hynny, roedd y ddwy fenter a ddatblygodd eu stoc a'u hadeiladau **yn teimlo'n hyderus** y byddai'r datblygiadau **yn arwain at gynnydd mewn referniw ac yn y pen draw at greu swyddi newydd**. Gallai'r drydedd fenter, a oedd wedi datblygu presenoldeb a siop ar-lein, **eisoedd adnabod a meintioli ffynonellau incwm newydd** ac roeddent yn hyderus eu bod, o ganlyniad i'r grant, **wedi ehangu eu sylfaen cwsmeriaid**.

'Mae gennym ni wasanaethau newydd sydd wedi'u creu ac rydyn ni wedi cynyddu o 6 i 13 busnes sy'n defnyddio'r ganolfan [ac yn defnyddio'r swyddfeydd newydd].'
(Cyfweliad Cymunedau Mentrus, 2021)

Nododd staff rheoli fod y sefydliadau hefyd wedi helpu i ddarparu cefnogaeth i gymunedau yn ystod y pandemig. Roedd hyn, yn ôl staff rheoli, yn adlewyrchiad o ethos ac ymrwymiad eu sefydliadau i'w cymunedau. Yn wir, roedd y rheolwyr a'r staff menter yn teimlo bod y mentrau cymdeithasol yn ymgeiswyr addas iawn i dderbyn cefnogaeth gan y rhaglen. Awgrymodd y cyfweleion hyn fod mentrau cymdeithasol yn debygol o gael eu gwreiddio yn eu heconomïau a'u cymunedau lleol ac yn cynnig mwy o fudd uniongyrchol i'r trigolion lleol gyda'r elw'n cael ei gadw a'i wario'n lleol. Roedd yr unigolion hyn hefyd yn teimlo bod y mentrau cymdeithasol yn fodd i luosi a chwyddo buddsoddiad y rhaglen, ac y gallai mentrau cymdeithasol, trwy gyflogi un swyddog datblygu, er enghraifft, ehangu lefel y gefnogaeth.

Nid yw'r datblygiadau wedi arwain yn uniongyrchol at gynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg o fewn y busnes nac wrth gyfathrebu â chleientiaid heblaw deunyddiau marchnata a'r wefan. Fodd bynnag, nododd yr holl fentrau eu bod yn gweithredu'n gyfan gwbl trwy gyfrwng Cymraeg cyn y grant.

Mae ei effaith iaith wedi bod trwy'r gyflogaeth a gynhyrchwyd o ganlyniad i'r gwelliannau ochr yn ochr â'r gwasanaethau ehangach sydd ar gael yn Gymraeg. Cyflogwyd crefftwyr lleol hefyd i wneud gwelliannau ffisegol ac mae unrhyw swyddi sy'n cael eu creu yn cael eu hysbyseb ymhlith trigolion lleol, gyda'r gallu i siarad Cymraeg yn ddymunol iawn neu'n hanfodol.

Mae'r ALI yn parhau i weithio'n agos gyda'r tair menter gymdeithasol dan sylw. Mae gan y mentrau cymdeithasol hyn fusnesau 'deilliedig', yn fwy o ganlyniad i'r grant, sy'n cyflogi trigolion lleol ac yn sicrhau bod yr arian sy'n cael ei wario ar y cynhyrchion a'r gwasanaethau hyn yn cael ei gadw a'i wario'n lleol. Bydd profiadau a gwybodaeth y staff menter yn cefnogi ymdrechion ehangach yr awdurdodau lleol i gynhyrchu dealltwriaeth o'r economi sylfaenol a'i heffaith a'i gwerth i gymunedau lleol.

Casgliadau

Mae effaith uniongyrchol y cynllun ychydig yn gyfyngedig ac yn anodd ei brofi ar hyn o bryd. Roedd y busnesau eu hunain yn **hyderus o gael effaith gadarnhaol ar eu** busnesau, gan arwain at **fwy o gleientiaid a chwsmeriaid, arallgyfeirio gwasanaethau a chynhyrchion, a throsiant uwch**. Byddai hyn yn arwain at y busnesau yn gallu **cyflogi mwy o bobl yn lleol, gyda phwyslais ar sgiliau Cymraeg**. Dim ond monitro a gwerthuso pellach all gadarnhau a dilysu'r effeithiau disgwylidig hyn.

Fodd bynnag, yn ehangach, mae'r cynllun wedi datgelu, ac yn wir, ehangu gallu **sawl sefydliad allweddol yn y cymunedau dan sylw, sy'n cyd-fynd â'r un nodau â rhaglen Arfor; i greu cyflogaeth sy'n cael effaith fuddiol ar y Gymraeg**. Yn benodol, maent yn ceisio sicrhau bod busnesau'n ailgylchu ac yn cadw arian o fewn cymunedau lleol wrth gynnig cyfleoedd cyflogaeth i siaradwyr Cymraeg. **Mae hyn yn awgrymu bod cronfa ehangach o gyfalaf cymdeithasol yn bodoli yn y cymunedau a all gynorthwyo i gyflawni nodau ehangach Arfor.**

2.6 Bwrlwm Arfor

I ddechrau, roedd y pedair sir yn awyddus i weld sut y gallai pob sir ddatblygu ymhellach y pecynnau croeso a gafodd eu creu beth amser yn ôl, gan dywys pobl a oedd yn newydd i'r ardal ar ble i fynd am wasanaethau Cymraeg. Penderfynwyd edrych ar syniad newydd o hyrwyddo busnesau a ddefnyddiai'r iaith Gymraeg fel rhan annatod o'u busnes a dangos y buddion a gafodd hyn iddyn nhw, eu staff a'u cymunedau. Crëwyd Bwrlwm ARFOR fel platfform ar gyfer astudiaethau achos; podlediadau; fideos; gweithdai ar ddefnyddio'r iaith Gymraeg mewn Busnes www.bwrlwmarfor.cymru. Mae enghreifftiau o gynnwys Bwrlwm Arfor wedi'u cynnwys yn y Crynodeb Gweithredol.

3 Gwerthuso Proses

3.1 Rhesymeg y prosiect

Roedd **cytundeb eang â rhesymeg** y rhaglen, a bod creu mwy o swyddi a gwell swyddi yn fodd y gallai ymyrraeth economaidd gefnogi'r iaith. Yn wir, nod mwyafrif y cynlluniau a ddatblygwyd ac a gyflwynwyd fel rhan o Arfor oedd cefnogi busnesau bach a micro i greu mwy o swyddi. Cytunodd y rheolwyr, rhanddeiliaid a phersonél y busnesau a gyfwelwyd fod y grantiau busnes uniongyrchol yn benodol yn fodd i gefnogi busnesau yn uniongyrchol ac o greu cyfleoedd yn anuniongyrchol i siaradwyr Cymraeg weithio a byw yn yr ardal.

Fodd bynnag, nododd ychydig, yn enwedig staff rheoli a rhanddeiliaid, na ddylid canolbwyntio ar greu swyddi yn unig, ac mae'n **debyg y dylai fod yn rhan o ddull ehangach**. Dylai'r dull ehangach hwn gynnwys gwella ystod o benderfynyddion **ansawdd bywyd** byw mewn ardaloedd gwledig, yn ogystal â **mynd i'r afael â'r naratif negyddol sy'n ymwneud â byw a gweithio yn lleol**. Nododd staff rheoli fod y broses o ddatblygu a chyflwyno'r rhaglen wedi llywio eu dealltwriaeth a'u canfyddiadau yn hyn o beth.

Nododd staff rheoli a rhanddeiliaid fod hwn wedi bod yn **beilot llwyddiannus**, bod llawer o wersi allweddol wedi'u dysgu, ac y gallai ac y dylai rhai llwyddiannau gael eu cyflwyno neu eu prif ffrydio ar draws awdurdodau lleol. Nododd llawer hefyd fod **rhesymeg o beilota a threialu dulliau newydd**, ariannu arloesedd ac annog busnesau i gyflwyno syniadau newydd, **yn dal i fod yn ddilys**. Credwyd yn eang bod **cyfiawnhad o hyd i barhau gyda rhaglen debyg i Arfor yn y dyfodol**, h.y. roedd y broblem sydd wrth wraidd y rhaglen yn dal i fodoli ac roedd yr un datrysiadau hynny wedi'u hadnabod, er bod y pedwar awdurdod lleol yn dal i fod yn bell o ddatrys eu heriau mewn perthynas â'r economi yn y Gymraeg.

Awgrymodd staff rheoli a rhanddeiliaid fod y rhaglen **wedi llwyddo i adnabod ffyrdd o greu swyddi ac i gefnogi'r Gymraeg**, ond credwyd bod y rhaglen hefyd wedi llwyddo i dreialu a datblygu **prawf o gysyniad** ar gyfer **ffyrdd llai uniongyrchol ond gellir dadlau mwy effeithiol o frwydro yn erbyn y naratif negyddol ynghylch byw, gweithio** a pheidio â gadael yr ardal. Tynnodd staff rheoli a rhanddeiliaid sylw arbennig at raglen Llwyddo'n Lleol a'r ffordd yr oedd wedi annog pobl ifanc i arwain a pherchnogi ymgyrch **gan bwysleisio buddion aros yn yr ardal a chychwyn busnesau yn lleol**.⁹ Yn ei dro, bron yn organig y teimlwyd, cafodd **hyn effaith gadarnhaol ar wytnwch y gymuned leol a'r Gymraeg**.

⁹ Cynigiwyd syniadau eraill yn y cam cynllunio na chawsant eu cyflwyno. Mae'r syniadau hyn yn awgrymu bod y staff rheoli rhaglenni a chynllunio yn edrych i ddatblygu dulliau mwy arloesol a oedd yn wir yn ceisio mynd i'r afael â'r broblem mewn dull sy'n newid pwyslais. Roedd un o'r syniadau hyn yn cynnwys yr Academi Byw a Bod, a fyddai wedi cyflogi 20 myfyriwr dros gyfnod o 10 wythnos, er y gallai'r 50 diwrnod gwaith hynny gael eu lledaenu dros gyfnod hirach o amser, h.y. 2 ddiwrnod yr wythnos am 25 wythnos. Byddai'r rhaglen wedi targedu pobl ifanc rhwng 15 a 29 oed a oedd hefyd yn rhan o grŵp a oedd, ar gyfartaledd, yn fwy tebygol o adael yr ardal. Byddai'r myfyriwyr yn cael y dasg o godi proffil cyfleoedd cyflogaeth yn yr ardal, yn enwedig ar gyfer siaradwyr Cymraeg ymhlith eu cyfoedion. Mae'r rhaglen hon yn debyg iawn i gynllun Llwyddo'n Lleol ond roedd yn canolbwyntio'n benodol ar hyrwyddo cyfleoedd gwaith.

Nid oedd hyrwyddo'r syniad o gyn-breswylwyr yn dychwelyd i'r ardal, neu eu cefnogi i wneud hynny, yn amcan penodol ar gyfer unrhyw un o'r cynlluniau. Fodd bynnag, nododd staff rheoli y byddai ymdrechion o'r fath yn unol â rhesymeg y rhaglen a math o ymyrraeth economaidd a fyddai bron yn sicr yn cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg. Er nad oedd yr un o'r cynlluniau'n ceisio annog pobl i ddychwelyd i ardal Arfor, roedd rheolwyr, rhanddeiliaid a phartneriaid cyflwyno **eisoes yn datblygu syniadau a chynlluniau a fyddai'n gwneud hynny.**

'A bod yn onest, nid wyf yn siŵr bod unrhyw un wedi dychwelyd oherwydd nid dyna sut y gwnaethom ei hysbysebu. Pe byddem wedi dweud, 'dewch yn ôl i Wynedd, byddwn yn rhoi grant i chi', ni fyddai wedi gweithio. Mae yna lawer mwy y mae rhywun yn mynd drwyddo cyn iddyn nhw godi pac a dod yn ôl. Ond mae ymgyrch Msparc, 'dowch yn ôl' yn ddiddorol. Pe bai gennym ryw fath o Arfor 2, byddem yn gwneud llawer mwy o'r ymgyrch honno, ac rydym yn edrych mwy ar yr agenda ac rwy'n ceisio creu prosiectau yn ymwneud â hynny. Mae hynny'n ddiddorol iawn, a dylem fod wedi gwneud mwy o hynny.' (Cyfweliad Rheoli, 2021)

Fodd bynnag, roedd gan rai rhanddeiliaid ddealltwriaeth wahanol o resymeg Arfor. Awgrymodd y rhanddeiliaid hyn y dylai Arfor ddatblygu yn rhanbarth economaidd ymhen amser, gyda datblygiad yn cael ei reoli gan gorff a oedd yn eistedd ar draws y pedwar awdurdod lleol. Teimlai'r rhanddeiliaid hyn hefyd y dylai Arfor fod yn edrych ar ddatblygu trafndiaeth a seilwaith digidol neu ymyrraeth o fewn marchnadoedd llafur lleol a datblygu cydlyniant economaidd y rhanbarth. **Nid rhaglen o'r fath yw hon.** Cynlluniwyd y rhaglen hon i fod yn **fach yn ei graddfa**, gan dargedu **symiau gweddol fach o arian** at **fusnesau penodol**. **Rhaglen beilot** yw hon sy'n archwilio **beth all weithio ar lefel unigol, busnes** ac, os yn bosibl, beth ellid ei brif ffrydio ar draws y pedwar awdurdod lleol.

Gwell Swyddi?

Mae rhanddeiliaid a staff rheoli wedi datblygu'r ffordd o feddwl o amgylch natur y broblem sy'n wynebu'r pedwar awdurdod lleol yn ogystal â'r atebion a'r dulliau mwyaf addas. Cwestiwn canolog yw a yw creu mwy o swyddi a swyddi gwell yn addas fel yr unig amcan. Er bod staff rheoli a rhanddeiliaid yn aml yn cytuno bod creu mwy o swyddi yn darged ac yn nod addas, **mynegir amheuaeth** mewn perthynas ag **ai dyma'r unig amcan**, ond hefyd mewn perthynas â **beth yw swydd "well"** a sut y gellid ei fesur.

Roedd y rhaglen wedi ysgogi ymchwiliad beirniadol i'r cysyniad o "swydd dda" mewn perthynas â nodau'r rhaglen, ffyniant economaidd, a hyfywedd ieithyddol yr ardal. Gallai'r trafodaethau hyn helpu i fireinio'r nodau penodol ymhellach, y targedau penodol ac effaith unrhyw ymdrechion yn y dyfodol sy'n ceisio datblygu'r economi a hyfywedd ieithyddol.

'Mae'n anodd diffinio creu mwy o swyddi a swyddi gwell. Gallai "gwell" i'r unigolyn olygu yn syml y gallant aros o fewn eu milltir sgwâr i fyw a gweithio. Efallai ei fod yn ymwneud â chyflogau uwch. Gallai swydd well erbyn hyn, ers COVID, olygu bod gennych well ansawdd bywyd. Felly, o ran swyddi gwell, nid wyf yn siŵr y byddwn i'n defnyddio hynny fel amcan eto. Mae rhai busnesau wedi datblygu neu wedi cael estyniadau a fydd yn helpu pethau. Ond y peth arall yw'r ffactor "teimlo'n dda" yn y cynlluniau hyn, mae mor bwysig ar y Stryd Fawr ein bod ni'n gweiddi yn ddwyieithog. Roedd pethau fel yna yn fuddugoliaeth gyflym i'r rhaglen, mae arwyddion pert yn gweithio, ac mae'n creu teimlad cynnes o fewn tref. Efallai nad yw'n creu swyddi, ond yn sicr mae'n cyfrannu at y lle.' (Cyfweliad Rheoli, 2021)

Pobl Iau

Yn ddiddorol, nid yw'r data a gynhyrchir gan y gwerthusiad hwn yn cynnig llawer o fewnwelediad i ba fath o swydd a fyddai'n gyfystyr â swydd "well", a fyddai o ganlyniad yn argyhoeddi pobl ifanc i aros yn yr ardal. Mae'r bobl ifanc sydd wedi'u cyflogi o ganlyniad i rai o'r cynlluniau neu mewn perthynas â nhw wedi dod o hyd i swyddi mewn ystod o sectorau sy'n cynnwys amrywiaeth o gyfrifoldebau. Fodd bynnag, gall poblogrwydd grantiau cychwynol gyda phobl iau awgrymu bod **diffyg mynediad at gyllid yn rhwystr i bobl iau gychwyn busnesau yn yr ardal.**

Fel y nodwyd, mae cynllun Llwyddo'n Lleol wedi ceisio ymgysylltu â'r naratif sy'n ymwneud â phobl ifanc a'r angen i adael yr ardal i ddod o hyd i gyflogaeth addas. Fodd bynnag, dim ond data a gwybodaeth gyfyngedig sydd ar gael ar hyn o bryd mewn perthynas â'i effaith. Mae'r data sydd ar gael yn awgrymu bod y rhai a gymerodd ran yn uniongyrchol yn y cynllun i gyd wedi aros yn yr ardal, ac roedd 21 o'r 22 yn parhau i ddatblygu eu busnesau naill ai fel prif ffynhonnell gyflogaeth neu fel ffordd o ychwanegu at eu hincwm. **Yn yr ystyr uniongyrchol hon, mae'r rhaglen wedi bod yn llwyddiannus.** Fodd bynnag, mae'n anos mesur yr effaith a gafodd gweithgareddau blocio a chyfryngau cymdeithasol ehangach yr unigolion hyn ar eu cyfoedion. Byddai'n uchelgeisiol disgwyl effaith sylweddol ar ddata allfudo ar gyfer y ddau awdurdod lleol (Ynys Môn a Gwynedd). Serch hynny, efallai y bydd staff rheoli sy'n ceisio parhau i fonitro effaith y cynlluniau hyn am dynnu ar ddyfodol yr unigolion hyn a gymerodd ran yn y cynllun mewn perthynas â'r effaith ar eu cyfoedion.

Gorgyffwrdd â chymorth arall neu ychwanegu gwerth

Roedd y rhan fwyaf o'r grantiau uniongyrchol i fusnesau yn annog neu hyd yn oed yn gofyn am ymgysylltu â gwasanaethau ehangach fel gwasanaeth Helo Blod Busnes Cymru. Trafododd rhanddeiliaid a staff rheoli mewn cyfweiliadau a'r gweithdy i ba raddau yr oedd hyn yn dyblygu gwaith gwasanaethau cymorth ehangach. Awgrymodd rhai rhanddeiliaid a staff, er enghraifft, fod y grantiau'n hyrwyddo gwasanaeth ac yn recriwtio busnesau, yn eu tro **yn dyblygu peth o'r gwaith yr oeddent yn teimlo y dylai'r gwasanaeth Helo Blod fod yn ei wneud**. Nododd eraill, fodd bynnag, fod y gefnogaeth a'r cyngor mwy cyffredinol a roddwyd i fusnesau wrth iddynt ddatblygu eu ceisiadau a chyflawni'r hyn a oedd yn cael ei ariannu **yn gorgyffwrdd i raddau â gwaith tîm cymorth busnes** Comisiynydd y Gymraeg, Hybu. Roedd hyn yn arbennig o berthnasol i'r busnesau hynny a aeth trwy'r broses dan reolaeth Menter Môn, a allai dynnu ar eu profiad a'u rhwydwaith ehangach i gefnogi busnesau yn hyn o beth.

I ryw raddau, mae hyn yn awgrymu y gallai'r **rhaglen fod wedi integreiddio'n well gyda'r gwasanaethau cymorth ehangach yn y cam cynllunio**. Fodd bynnag, dylai'r farn hon gael ei thymheru gan y ffaith bod y cam cynllunio yn arbennig o fyr, ac mae'n bosibl y bydd y diffyg integreiddio yn ganlyniad i'r brys i gyflwyno'r rhaglen. Yn wir, nododd rhai staff rheoli hefyd, o edrych yn ôl, y byddai'r gwasanaethau cymorth Cymraeg ehangach i fusnesau wedi elwa o fod yn rhan o'r rhaglen.

'Pe byddem yn ailgychwyn, byddwn wedi dod â Chomisiynydd y Gymraeg i mewn i helpu gyda'r ochr Gymraeg ohono [y grantiau uniongyrchol i fusnesau]. Nid dyna hanfod y cyfan, mae'n ymwneud â llawer mwy na hynny. Ond mae hefyd yn ymwneud â cheisio codi ymwybyddiaeth o'r hyn y gall y Gymraeg ei chynnig i fusnesau. Ond fel gyda phopeth, does gennych chi byth ddigon o amser i gynllunio ac nid yw'r prosiectau hyn ar silff yn barod i fynd felly mae'n rhaid i chi fynd gyda'r hyn sydd gennych, yn does.' (Cyfweiliad Rheoli, 2021)

'Efallai y gallem fod wedi gwneud mwy o hynny. Hyrwyddo gwersi Cymraeg i fusnesau fel rhan o'r pecyn. Pe byddem wedi gallu trefnu rhyw fath o bartneriaeth gyda Chomisiynydd y Gymraeg, byddai wedi digwydd yn fwy naturiol dwi'n meddwl.' (Cyfweiliad Rheoli, 2021)

Fodd bynnag, dadleuodd rhai rhanddeiliaid a staff rheoli fod y Grantiau Busnes, mewn gwirionedd, wedi **ychwanegu gwerth at Helo Blod a gwasanaeth cymorth busnes Comisiynydd y Gymraeg**. Awgrymodd y cyfranwyr hyn fod y rhaglen, yn gyntaf, wedi sicrhau mwy o ymgysylltiad, ac ymgysylltiad mwy sylweddol â'r gwasanaethau hyn. Ategwyd y sylwadau hyn gan y busnesau eu hunain wrth gael eu cyfweld, a nododd werth ymgysylltu â'r gwasanaethau hyn ac na fyddent wedi ystyried cyrchu'r gwasanaethau hyn pe na bai'n ofynnol iddynt wneud hynny gan y grant. Wrth **ofyn i fusnesau amlinellu eu cynlluniau** ar gyfer datblygu gwasanaethau Cymraeg fel rhan o'r cais am grant, er enghraifft, i lawer o fusnesau, cychwynnodd hyn **ar y broses o ymgysylltu'n sylweddol â'r mater**.

Roedd staff rheoli hefyd o'r farn, oherwydd natur y berthynas â'r busnesau a'r ddeialog gyson a gafwyd, bod y **busnesau yn gweld datblygiad gwasanaethau dwyieithog a'r Gymraeg yn fwy fel proses yn hytrach na digwyddiad unwaith ac am byth**. Teimlai staff rheoli y gallent egluro a chyfleu buddion ymyriadau a newidiadau ar raddfa fach a hefyd eu cysylltu â'r siwrnai ehangach y gallai busnes ymgymryd â hi. Roedd hyn, yn ôl staff rheoli, yn wahanol i'r ymgysylltiad penodol a chyfyngedig iawn â gwasanaeth Helo Blod, er enghraifft. Yn y pen draw, roedd y personél rheoli a'r rhanddeiliaid hyn yn teimlo bod rhywfaint o **ddyysgu ac arfer da y gellid ac y dylid eu rhannu â gwasanaethau cymorth ehangach**.

3.2 Cynllun

Cymerodd Gwynedd ac Ynys Môn agwedd wahanol i Geredigion a Sir Gâr. Roedd yr olaf yn canolbwyntio'n llwyr ar ddarparu grantiau uniongyrchol i fusnesau, tra bod siroedd y gogledd yn ceisio treialu ystod ehangach o gynlluniau. Mae Menter Môn hefyd yn cael ei his-gontractio i bob pwrpas i gyflawni rhai cynlluniau fel Llwyddo'n Lleol a gweinyddu Grantiau Iaith a Busnes. Yn aml, nodwyd y cyfnod byr sydd ar gael i gynllunio rhaglenni i'w gweithredu ar draws y pedwar ALI, gwahanol flaenoriaethau economaidd y pedwar awdurdod, yr aflonyddwch a achoswyd gan y pandemig a'r awydd i dreialu ystod o gynlluniau fel y rhesymau dros yr amrywiaeth hon mewn cynlluniau. Nododd personél rheoli fod hyn wedi bod yn gryfder yng nghynllun y rhaglen, ond mynegwyd **gofid hefyd na fu cyfle i ddatblygu cynllun a oedd yn gweithredu ledled yr ardal**.

Serch hynny, cydnabuwyd cynllun Llwyddo'n Lleol yn llwyddiant ac o ganlyniad mae Ceredigion a Sir Gâr wedi ceisio adnabod dulliau o ariannu ei gyflwyno yn eu hardaloedd yn y dyfodol; enghraifft nodedig o **beilot llwyddiannus yn cael ei gyflwyno ar raddfa ehangach a mwy**.

'Yr unig beth, er gwaethaf rhedeg ein cronfeydd grant ein hunain, yr hyn y byddwn i wedi hoffi ei weld oedd mwy o waith ar draws y pedair sir. Ond oherwydd diffyg amser, a'r pedair sir yn canolbwyntio ar redeg eu cynlluniau eu hunain, ac mae'r pandemig wedi cyfyngu cymaint. Pe baem yn mynd ymlaen at rywbeth newydd [h.y. gwaith pellach yn y maes hwn], hoffwn wneud rhywbeth gyda'n gilydd. Ond yn Sir Gâr, ac yng Ngheredigion yma, rydyn ni'n edrych i gynnal Llwyddo'n Lleol [trwy ffrydiau cyllido eraill.]' (Cyfweiliad Rheoli, 2021)

Roedd rhaglenni Llwyddo'n Lleol a Ffiws yn bodoli o leiaf fel syniadau cyn Arfor, er bod Menter Môn wedi cael anawsterau wrth ddod o hyd i gyllid ar eu cyfer. O ganlyniad, darparodd Arfor **blatfform er mwyn datblygu a threialu syniadau presennol**. Yn hyn o beth, roedd y **berthynas rhwng awdurdodau lleol y gogledd a Menter Môn yn allweddol**, ac yn galluogi i Ynys Môn a Gwynedd dynnu ar arbenigedd a ffordd o feddwl ehangach ym maes cefnogaeth economaidd ac iaith mewn ffordd nad oedd siroedd y de. Teimlai staff rheoli fod hyn wedi galluogi i'r rhaglen gynnig mwy o amrywiaeth ac ystod fwy o gefnogaeth yn y Gogledd yn ogystal â threialu syniadau arloesol a allai o bosibl wneud mwy na chefnogi busnesau unigol yn unig.

3.3 Cyflwyno

Marchnata a hyrwyddo

Nododd rheolwyr y rhaglen nad oedd unrhyw ymdrechion i roi cyhoeddusurwydd i Arfor fel rhaglen sengl neu unffurf. Roedd hyn yn rhannol oherwydd yr amrywiaeth o grantiau a rhaglenni a oedd ar gael ar draws y pedwar awdurdod lleol. Gwnaeth hyn hyrwyddo neges gysylltiedig yn arbennig o anodd ac efallai y byddai unrhyw ymdrechion i dynnu sylw at yr hyn a allai fod ar gael mewn rhai awdurdodau lleol beri dryswch i'r hyn a oedd ar gael mewn eraill. At hynny, nododd staff rheoli fod brand Arfor yn dal i gael ei ddatblygu tra bod ceisiadau'n cael eu derbyn am y grantiau. Dim ond erbyn diwedd cyfnod y rhaglen yr oedd staff rheoli yn teimlo bod ganddynt frand cyson i hyrwyddo a marchnata'r rhaglen ag ef. Nododd staff, pe bai rhaglen ddilynol yn cael ei chymeradwyo a'i hariannu, **bod y brand bellach wedi'i sefydlu ac yn cael ei adnabod i raddau.**

Ceisiodd yr awdurdodau lleol unigol roi cyhoeddusurwydd i'r grantiau a'r gefnogaeth a oedd ar gael, ac roedd staff yn teimlo bod ymdrechion yn ddigonol. Oherwydd pandemig y coronafirws a'r angen i osgoi negeseuon yn gwrthdaro neu ddrysu'r negeseuon iechyd cyhoeddus allweddol a oedd yn dod o'r Awdurdod Lleol, roedd yr ymdrechion i farchnata a hyrwyddo'r gefnogaeth ychydig yn gyfyngedig. Serch hynny, nododd staff fod nifer y ceisiadau a dderbyniwyd yn foddhaol ynghyd ag ansawdd y ceisiadau hynny.

'Mae'n un diddorol oherwydd nid wyf yn credu ein bod erioed wedi gwneud y penderfyniad i fynd allan a hyrwyddo Arfor. Ceisiodd pob Awdurdod Lleol godi ymwybyddiaeth o'u prosiectau unigol eu hunain oherwydd bod Arfor yn golygu gwahanol bethau i wahanol bobl. Os ydych chi'n ei hyrwyddo, mae'n anodd rheoli disgwyliadau pobl. Hynny yw, os ydych chi'n ei hyrwyddo yn ei gyfanrwydd, felly'r peth iawn oedd ei hyrwyddo fesul Awdurdod Lleol.' (Cyfweliad Rheoli, 2021)

Teimlai ychydig o awdurdodau lleol, yn fwyaf arbennig Sir Gâr a Cheredigion, fod nifer y ceisiadau wedi lleihau yn ystod 2020 ac wrth i'r cyfnod clo ddod i rym. **Roedd staff yn teimlo bod busnesau'n cau, a bod perchnogion neu gyfarwyddwyr yn canolbwyntio ar oroesi yn hytrach na datblygu ac arloesi.** Fodd bynnag, wrth i gyfyngiadau ddechrau codi yn agos at hydref 2020, roedd mwy o geisiadau yn dod i mewn, gan gynnwys y rheini ynghylch cynlluniau i ddatblygu busnesau a gwasanaethau a chynhyrchion newydd. Roedd staff a oedd yn gweithio gyda chynlluniau Ynys Môn neu Gwynedd wedi synnu ar nifer y busnesau a oedd yn chwilio am gefnogaeth i ddatblygu. Teimlai'r staff rheoli hyn nad oedd hyrwyddo a marchnata erioed yn broblem i'r rhaglen mewn gwirionedd; roedd archwaeth amlwg.

Ceisiadau a buddiolwyr

Awgrymodd rhai rhanddeiliaid a staff rheoli fod y rhaglen wedi denu busnesau a oedd yn siarad Cymraeg yn bennaf, a busnesau a oedd eisoes wedi ymrwymo i ddatblygu eu gwasanaethau a'u cynhyrchion Cymraeg neu ddwyieithog, waeth beth fo'r gefnogaeth. Tueddai'r eithriadau i fod yn fusnesau a oedd â diddordeb gweithredol mewn datblygu eu gallu a'u gwasanaethau Cymraeg.

Byddai'r rhain yn aml yn mynd ymlaen i ddadlau y dylai **Arfor yn ddelfrydol fod yn targedu busnesau ac unigolion nad ydynt wedi datblygu eu gwasanaethau Cymraeg**, neu nad ydynt mor ddatblygedig yn eu ffordd o feddwl mewn perthynas â'r busnes datblygu iaith.

Mynegodd staff rheoli rywfaint o ofid nad oedd y rhaglen **wedi llwyddo i ymgysylltu â busnesau nad oeddent wedi ystyried datblygu gwasanaethau a chynhyrchion Cymraeg** o'r blaen. Nododd sawl aelod o staff, fodd bynnag, y byddai ymgysylltu â'r rhain wedi golygu cynllun ymgysylltu helaeth. Ar ben hynny, nododd ychydig nad hyrwyddo buddion y Gymraeg i fusnesau oedd **nod y rhaglen**.

'Mae tua 90% o'r busnesau rydyn ni wedi'u cefnogi yn fusnesau Cymraeg beth bynnag. Mae yna ambell un nad ydyn nhw'n Gymraeg, ond mae hyd yn oed y rheini yn gweld buddion [datblygu pa wasanaethau a chynhyrchion iaith]. A ddylem ni fod wedi targedu busnesau di-Gymraeg fel y gallem gael mwy o ddylanwad? Fe wnaethon ni gefnogi [enw busnes wedi'i olygu], ac mae trafodaeth fawr am statws y cwmni. Ond efallai mai busnesau fel yna y mae angen i chi eu targedu os ydych chi'n mynd i gael dylanwad.' (Cyfweiliad Rheoli, 2021)

Nododd staff hefyd fod rhesymeg i gefnogi busnesau o'r fath. Dyma'r busnesau a oedd wedi bod yn rhagweithiol wrth ddatblygu eu gwasanaethau a'u cynhyrchion Cymraeg, mewn sawl achos dros sawl blwyddyn. Teimlai staff rheoli fod rhesymeg i gefnogi a gwobrwyo'r busnesau hyn **gan eu cydnabod fel arweinwyr yn y maes**. Teimlai staff hefyd y byddai'r gefnogaeth yn rhoi cydnabyddiaeth a **gwerth i'r defnydd o'r iaith mewn busnes**.

Yn bwysig, rhaid deall yr effaith y mae'r cynllun hwn wedi'i chael ar fusnesau ac unigolion yn y cyd-destun hwn. **Mae'r rhaglen hon yn bennaf wedi ceisio bod o fudd i fusnesau y gellir eu hystyried yn "gefnogwyr" i'r nod ehangach o ehangu'r defnydd o'r Gymraeg o fewn busnes**. Nid yw wedi ceisio pregethu mewn perthynas â buddion defnyddio'r Gymraeg. Ei fwriad yw ceisio gwobrwyo'r rheini sy'n gwneud hynny neu sy'n dymuno datblygu eu gallu a'u darpariaeth.

Ar ben hynny, ac esboniad posibl am natur yr ymgeiswyr a'r buddiolwyr, roedd yn gyffredin i fusnesau nodi eu bod wedi dysgu am y rhaglen trwy gysylltiadau personol ac ar lafar a'r cyfryngau cymdeithasol. Roedd y staff rheoli eu hunain yn eiriolwyr dros y rhaglen, gan rannu mor eang â phosibl ar gyfryngau cymdeithasol.

Gan edrych i'r dyfodol, ac unrhyw estyniad i'r rhaglen, dylid ystyried marchnata a brandio Arfor yn ofalus. Mae risg, gan fod y grant hwn wedi'i anelu at fod o fudd i'r Gymraeg, y gallai gael ei ystyried yn amherthnasol i fusnesau sydd â gwasanaethau neu gynnyrch Cymraeg cyfyngedig neu ddim o gwbl. Fodd bynnag, mae ceisio hyrwyddo buddion defnyddio'r Gymraeg mewn busnes, mewn perygl o orgyffwrdd â rôl cyfrifoldebau Comisiynydd y Gymraeg.

Cyfalaf cymdeithasol gwell

Mae cyfalaf cymdeithasol yn cyfeirio at y rhwydweithiau a'r perthnasoedd rhwng pobl a sefydliadau o fewn cymdeithas a chymunedau. Y cysylltiadau a'r perthnasoedd hyn yw'r hyn sy'n galluogi i gymdeithasau weithredu a chyflawni nodau cyffredin. Er na chafodd ei archwilio'n benodol trwy offer ymchwil, ac felly mae'n parhau i fod yn ganfyddiad petrus ar y pwynt hwn, roedd rhywfaint o awgrym bod rhaglen Arfor wedi gwella cyfalaf cymdeithasol o amgylch y Gymraeg.

Mynegodd y busnesau a gyfwelwyd i gyd eu cefnogaeth i resymeg gyffredinol y rhaglen tra bod cynllun Cymunedau Mentrus wedi ehangu gallu a chyrraeddiad busnesau cymdeithasol sy'n ceisio nodau tebyg. Awgrymodd rhanddeiliaid fod cefnogaeth ehangach yn bodoli yn yr ardal i helpu i geisio amcanion craidd datblygu economaidd a oedd yn gefnogol i'r iaith. Nododd rhanddeiliaid hefyd bartneriaid cyflwyno posibl eraill, y tu hwnt i lywodraeth leol neu genedlaethol, nad oeddent wedi ymgysylltu yn ystod oes Arfor.

Ymddengys bod Arfor wedi gweithredu fel canolbwynt, y mae ac y gallai clymblaid o 'gefnogwyr' dynnu o'i gwmpas (a'i ddenu trwy gyllid uniongyrchol). Mae hyn yn awgrymu y gallai fod rhwydwaith o sefydliadau ac unigolion sydd â diddordeb mewn ceisio'r diben cyffredin o ddatblygu ymyriadau economaidd sydd o fudd i'r iaith, a gall rhaglen fel Arfor arwain a datblygu hyn trwy ei gwaith. Mae cyfranogiad Menter Môn fel partner cyflwyno a rheoli yn enghraifft o'r math o gefnogaeth ac ymglymiad ehangach y gellir ei ysgogi a'i feithrin trwy'r model Arfor. Yn wir, mae eu hymglymiad wedi galluogi i'r cwmni olaf dreialu a datblygu eu datrysiadau arloesol eu hunain i'r heriau sy'n wynebu Cymru wledig a'r Gymraeg, ac ychwanegu gwerth a gwybodaeth at eu gwaith ehangach.

Mae goblygiadau hyn i raddau helaeth yn ymwneud â'r dyfodol ac unrhyw ehangu neu estyniad posibl i'r rhaglen. Os yw Arfor i barhau ar ryw ffurf, yna dylai ei rôl fel canolbwynt, ond hefyd y cefnogwyr a'r partneriaid cyflwyno posibl, fod yn ystyriaeth yn ei fodel cynllunio a chyflwyno esblygol.

3.4 Rheoli

Model cyflwyno

O safbwynt y busnesau, ymddengys mai budd allweddol o gyflwyno'r rhaglen trwy'r awdurdodau lleol oedd y **broses ymgeisio effeithlon**. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i'r grantiau uniongyrchol i fusnesau. Credwyd yn eang bod hyn oherwydd profiad aelodau staff y cyngor wrth weinyddu grantiau. Ar y cyfan, mae prosesau'n bodoli ac mae staff, wrth weinyddu grantiau, yn ymwybodol o'r camau angenrheidiol i sicrhau atebolrwydd. Ar ben hynny, o ystyried y terfynau amser tynn a'r angen i droi grantiau o gwmpas yn gyflym, mae'n ymddangos bod hyn yn gryfder penodol yn y model.

Fodd bynnag, nododd staff rheoli ym mhob un o'r pedwar awdurdod lleol fod y **baich gweinyddol yn llawer trymach na'r disgwyl** neu y cynlluniwyd ar ei gyfer, yn enwedig mewn perthynas â'r grantiau uniongyrchol i fusnesau. Nododd staff yn aml ei bod yn ofynnol i bersonél rheoli a chyflwyno weithio'n hirach na'r hyn a gynlluniwyd yn wreiddiol, ac y gellid bod wedi cyflawni llawer mwy gyda mwy o aelodau staff.

Roedd y penderfyniad i reoli grantiau ar gytundeb allanol i Fenter Môn mewn gwirionedd, yn rhannol o leiaf, yn ymgais i leddfu'r baich gweinyddol, er yr ystyriwyd bod gan Fenter Môn set wybodaeth a sgiliau penodol a fyddai'n eu galluogi i weinyddu'r grantiau yn fwy effeithiol yn ogystal â chysylltiad â ffynonellau cymorth ehangach.

'Mae angen mwy o adnoddau staff. Mae Arfor yn llawer o waith. Mae'n cymryd mwy o amser i fonitro pob Awdurdod Lleol a phrosiectau unigol [na'r disgwyl yn wreiddiol]. Mae llawer o amser wedi mynd i mewn i reoli a gweinyddu prosiectau. Nid wyf yn gwybod a yw hynny oherwydd y model cyflwyno, hynny yw, trwy ei wneud trwy bedwar awdurdod lleol rydych chi'n dysgu llawer mwy. Pe bai dim ond un sefydliad gennych yn gyfrifol amdano, dw i ddim yn meddwl y byddai'r dysgu wedi bod cystal.' (Cyfweliad Rheoli, 2021)

Awgrymodd ychydig o randdeiliaid y gallai model cyflwyno amgen fod wedi lliniaru rhywfaint o'r baich gweinyddol hwn. Weithiau ystyrir bod awdurdodau lleol yn fiwrocraataidd ac yn drwm o ran prosesau, er nad oedd hon yn farn a rannwyd gan yr holl randdeiliaid na'r mwyafrif o'r busnesau a gafodd eu cyfnewid. Serch hynny, roedd rhai yn teimlo y byddai corff annibynnol neu gorff ar wahân wedi gallu gweinyddu'r rhaglen gyfan yn fwy effeithiol na phedwar awdurdod lleol unigol.

Roedd rhai rhanddeiliaid hefyd yn siomedig na chymerwyd **cyfleoedd i estyn allan at sefydliadau allweddol y tu allan i'r awdurdodau lleol, ac i fynd atynt fel partneriaid cyflwyno**. Awgrymodd rhai rhanddeiliaid y gallai Yr Egin fod wedi chwarae rhan fwy canolog naill ai wrth hyrwyddo'r grantiau ar gyfer busnesau, neu fel partner cyflwyno. Roedd y rhain yn awgrymu y gallai fod budd posibl o gydlynu cefnogaeth i'r diwydiant creadigol trwy neu gydag Yr Egin, a gallai Canolfan Fwyd Cymru yn Horeb chwarae rôl debyg wrth gefnogi neu ddarparu cefnogaeth i fusnesau a busnesau newydd yn y sector bwyd a diodydd.

Nododd staff yn aml fod **amser yn brin ar gyfer cynllunio a datblygu cynlluniau** yn ystod camau cynharach y rhaglen yn cyfyngu i ba raddau y gellid datblygu partneriaethau neu gynlluniau newydd ac arloesol. Fodd bynnag, nododd staff ym mhob un o'r pedwar Awdurdod Lleol fod gan **brifysgolion yn yr ardal y potensial i gefnogi cyflwyno rhaglenni Arfor** ac, os ystyrir estyniad neu barhad, yna dylid ystyried y sefydliadau hyn fel partneriaid cyflwyno.

Amserlen

Cafodd y gwaith o gynllunio cynllun strategol ei roi ar gontract allanol yn ystod haf 2019; fodd bynnag, roedd penderfyniadau eisoes wedi'u gwneud mewn perthynas â'r math o gefnogaeth a'r cynlluniau a fyddai'n cael eu cynnig. Yn wir, agorwyd yr alwad am geisiadau i rai o'r grantiau uniongyrchol i fusnesau yn ystod haf 2019, gan y cysylltwyd â'r contractwr allanol i ddatblygu'r cynllun strategol. O ganlyniad, nid oedd y cynllun strategol byth yn debygol o lywio'r modd y cyflwynwyd y rhaglen, ac o ganlyniad ceisiodd ganolbwyntio ar y darlun strategol ehangach ac archwilio'r dystiolaeth sy'n cysylltu'r economi a'r Gymraeg (gweler 'Beth yw Arfor' ym Mhennod 1).

Awgrymodd y mwyafrif o aelodau staff y byddai cyfnod cynllunio a datblygu hirach wedi galluogi i gynlluniau mwy arloesol gael eu cynnwys yn y rhaglen. **Credwyd yn eang bod y llinell amser fer wedi bod yn wendid yn y rhaglen**, er ei fod y tu hwnt i reolaeth ei Fwrdd neu'r rheolwyr.

3.5 Pandemig ac effaith allanol arall

Mae'n amlwg bod **pandemig y coronafirws wedi cael effaith sylweddol ar y rhaglen**, ei chyflwyniad ac **unrhyw ymdrechion i ddangos ei heffaith**. Mae'r pandemig wedi arwain at gau busnesau yn eang oherwydd bod mesurau cyfnod clo wedi cyfyngu'n ddifrifol ar i ba raddau y gall busnesau ymgysylltu â chwsmeriaid a'r gymuned ac, ym marn llawer o randdeiliaid a phersonél rheoli, mae wedi effeithio ar feddylfryd busnesau a pherchnogion busnes. Credir yn eang bod busnesau a pherchnogion busnes wedi bod **yn canolbwyntio'n bennaf ar oroesi yn ystod y pandemig**, yn hytrach na chanolbwyntio ar ddatblygu busnes. Mae rhai busnesau hefyd wedi newid eu darpariaeth mewn ymateb i'r pandemig ac nid yr hyn a gynlluniwyd yn wreiddiol gan rai buddiolwyr, oedd yr hyn a fydd yn cael ei gyflawni o reidrwydd.

Nododd busnesau a phersonél rheoli mai dim ond yn y blynyddoedd i ddod y bydd **effaith** y rhaglen a'r gweithgareddau, y cynhyrchion neu'r gwasanaethau a ddatblygwyd **trwy'r grant i'w gweld**. Mae **hyn yn cynyddu pwysigrwydd parhau i fonitro'r busnesau sydd wedi derbyn grantiau**, effaith y cynhyrchion a'r gwasanaethau newydd ar eu trosiant, i ba raddau y maent wedi creu swyddi newydd a'r effaith ar y Gymraeg. Yn ogystal â'r effaith ar fusnesau penodol, mae angen o hyd am dystiolaeth gynhwysfawr o brawf o'r cysyniad.

Er bod pandemig y coronafirws wedi peri llawer o heriau a phroblemau i fusnesau a rheolaeth y rhaglen, nododd llawer hefyd gyfleoedd. Tynnwyd sylw arbennig at y ffaith bod busnesau, perchnogion busnes a busnesau newydd wedi cael cyfle i ystyried, mireinio a datblygu eu cynlluniau ar gyfer y busnesau. Cyflwynodd Arfor, yn ei dro, y modd y gellid bwrw ymlaen â'r cynlluniau hynny.

'Rydw i wedi synnu faint o fusnesau sydd eisiau datblygu a faint o fusnesau newydd sydd yna. Rwy'n credu bod hyn wedi bod yn gadarnhaol iawn [i Arfor]. Mae wedi caniatáu i bobl feddwl a rhoi amser i ddatblygu syniadau. Efallai bod yr amser hwnnw i feddwl o fudd ac yn gyfle gwirioneddol.' (Cyfweliad Rheoli, 2021)

Mae materion ehangach wedi effeithio ar y rhaglen i raddau. Nododd busnesau a staff rheoli bod oedi gan gyflenwyr wedi digwydd oherwydd Brexit.

3.6 Effaith

Trafodwyd yr effaith benodol sy'n gysylltiedig â phob un o'r cynlluniau yn yr adrannau perthnasol uchod. Fodd bynnag, cytunwyd yn eang ymhlith busnesau, rhanddeiliaid a staff rheoli na fyddai effaith y rhaglen yn cael ei themlo o ddifri am rai blynyddoedd. Roedd y pandemig a natur y rhaglen - gan ariannu'r camau cychwynnol mewn cadwyn y gobeithir y byddai'n arwain at greu swyddi - yn golygu nad oedd y gwir effaith yn fesuradwy ar hyn o bryd.

'Mae'n rhaid i adrodd ar yr effaith ddod yn ddiweddarach. Rhaid aros o leiaf blwyddyn i flwyddyn a hanner. Un o'r pethau yr oeddwn eisiau ei weld fwyaf oedd swyddi'n cael eu creu, yna oherwydd covid, diogelu swyddi, a digwyddodd hynny.' (Cyfweliad Rheoli, 2021)

3.7 Gweithio mewn partneriaeth

Roedd **gweithio mewn partneriaeth, rhannu arfer da** ac ehangach os oedd ymgyfarwyddo anffurfiol rhwng staff y pedwar awdurdod lleol yn cael ei ystyried **yn agwedd bwysig ar y rhaglen**. Nododd staff rheoli yn aml y byddai'r perthnasoedd a'r prosesau a ddechreuwyd at ddibenion cyflwyno'r rhaglen hon **yn debygol o barhau i'r dyfodol**. At hynny, nodwyd bod rhai o'r cynlluniau a oedd wedi'u treialu ac ar waith yn un neu ddau o'r awdurdodau lleol yn addas i'w cyflwyno'n ehangach ymhlith yr awdurdodau lleol eraill.

Awgrymodd staff fod **gwersi allweddol wedi'u dysgu** mewn perthynas â rheoli grantiau, ond hefyd y ddealltwriaeth ehangach o'r cyflwr, yr heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu microfusnesau llai yn y rhanbarth, a'r math o gefnogaeth a fyddai'n galluogi i'r busnesau hynny ddatblygu ymhellach a chreu mwy o swyddi.

Mae'r broses o weithio gyda ac yn wir gosod cyflwyno'r rhaglen ar gontract allanol i bartneriaid yn awgrymu hefyd bod **awydd a gallu i ddatblygu a darparu agenda Arfor gan ystod o gyfranogwyr**, nid y llywodraeth ac awdurdodau lleol yn unig. Mae'r ddau awdurdod yn y gogledd wedi datblygu perthynas waith gref iawn gyda Menter Môn, sydd o ganlyniad yn datblygu eu hymgysylltiad â siroedd y de trwy ddatblygu Llwyddo'n Lleol ar gyfer Ceredigion a Sir Gâr.

Canfyddir bod y berthynas hon wedi bod o fudd i'r ddau bartner; mae Menter Môn wedi derbyn y **gefnogaeth ariannol sydd ei hangen i dreialu cynlluniau a oedd wedi bod ar y gweill** ers rhai blynyddoedd. Yn y cyfamser, mae awdurdodau lleol y gogledd wedi sicrhau bod y rhaglen wedi'i chyflwyno gan **bartner sydd â phrofiad ac arbenigedd mewn datblygu busnes a datblygu'r Gymraeg mewn busnes**. Gall Menter Môn hefyd gefnogi cynlluniau Arfor ymhellach trwy gysylltu â'u rhaglenni cymorth busnes ac iaith ehangach.

Mae'r rhaglenni hyn yn eu tro wedi tynnu **arian a chefnogaeth ariannol o ffynonellau eraill** megis y rhaglen LEADER ac maent wedi galluogi **parhad rhai o'r cynlluniau y tu hwnt i oes Arfor**. Bydd Ffiws er enghraifft, yn parhau i fod â phresenoldeb mewn lleoedd fel Porthmadog gyda thechnegwyr yn cael eu hariannu trwy'r rhaglen LEADER am flwyddyn arall o leiaf.

'Y peth cadarnhaol gyda Menter Môn yw ei bod wedi creu llwyfan inni symud y rhain ymlaen a datblygu pethau ymhellach. Mae'r cyswllt hwnnw trwy LEADER yn fwy hyblyg, ac er bod llywodraeth Cymru yn glir na allai Arfor gefnogi rhaglenni LEADER, mae wedi ein galluogi i barhau i ariannu rhai pethau. Mae'r berthynas honno'n gryf iawn, ac mae'n parhau. Gallem wneud mwy gyda phartneriaid eraill fel Yr Egin neu'r ganolfan fwyd yn Horeb, a byddwn yn disgwyl i [unrhyw iteriad neu barhad Arfor yn y dyfodol] wneud hynny oherwydd eu bod yn enghraifft dda o sut i ddilyn themâu Arfor ac mae eraill; mae'r prifysgolion, mae Galeri yng Nghaernarfon, mae Grŵp Llandrillo-Menai. Mae angen i ni gyfleu'r neges a gwthio'r agenda entrepreneuriaeth hwnnw oherwydd mae sylfaen eleni i ddatblygu rhywbeth ar draws y pedwar awdurdod.' (Cyfweliad Rheoli, 2021)

Ar ben hynny, mae gwaith gyda Menter Môn a M-SParc wedi dangos yr awydd ond hefyd yr ystod o syniadau a gallu sy'n bodoli ymhlith partneriaid ehangach. Mae Rhaglen Arfor wedi **cychwyn ar y gwaith o gydlynu clymblaid o sefydliadau a phartneriaid wedi ymrwymo i ddatblygu economaidd sydd o fudd i'r Gymraeg**. Gellir dadlau bod hyn o bosibl yn cynrychioli **mwy o waddol parhaus ac effeithiol y rhaglen** os bydd y sefydliadau a'r partneriaid hyn yn parhau â'u gwaith yn y maes a / neu'n cael eu cefnogi i'r dyfodol.

Credir hefyd fod partneriaid a sefydliadau eraill sy'n gweithio gyda busnesau i helpu i ddatblygu cynhyrchion a gwasanaethau dwyieithog wedi elwa, yn bennaf trwy ddod i gysylltiad â ffyrdd newydd o weithio ac ymgysylltu â busnesau. Mae staff rheoli yn teimlo bod Arfor wedi gweithio mewn ffyrdd sy'n fwy effeithiol na rhai o wasanaethau cymorth Llywodraeth Cymru, **gan ddatgelu arfer da a gwersi allweddol ar gyfer y gwasanaethau ehangach hyn**. Fel y trafodwyd o'r blaen, mae gosod datblygiad gwasanaethau a gallu Cymraeg wrth wraidd meini prawf cymeradwyo grantiau wedi arwain at ymgysylltiad **mwy sylweddol â'r rhaglenni cymorth a gwireddu potensial yr iaith Gymraeg yn llawnach o fewn busnes**. Mae'r cyllid sydd ar gael trwy'r grantiau busnes uniongyrchol yn annog busnesau i ymgysylltu'n sylweddol â gwasanaethau fel Helo Blod, ond fel rheol bydd eu swyddog yn cael y dasg o ymgysylltu â busnes yn unigol a'u darbwylllo i ymgysylltu heb gymhelliant perthnasol.

'Ychwanegodd werth i bethau fel Helo Blod. Maen nhw wedi cyfrannu cymaint. Mae Helo Blod yn talu i swyddog fynd o amgylch busnesau sy'n cyflwyno'r iaith a'u gwasanaethau, sy'n iawn. Ond trwy Arfor mae arian ar gael ac mae'n annog busnesau i fynd ar ôl yr arian hwnnw, a thrwy hynny maen nhw'n ymgysylltu'n iawn â Helo Blod. Roedd yn rhaid i bawb a gymerodd ran yn y rhaglen gofrestru gyda Busnes Cymru.' (Cyfweliad Rheoli, 2021)

3.8 Gwaddol a chynaliadwyedd

Mae rhaglen Arfor wedi ceisio **treialu cynlluniau cymorth busnes ar raddfa gymharol fach**. Ni fydd y peilotiaid hyn yn arwain at newid sylweddol ar draws ardal Arfor ond maent wedi adnabod gwersi a dysgu allweddol i lywio ymdrechion yn y dyfodol i ddatblygu ymyriadau economaidd a busnes nad ydynt yn esgeuluso, ac yn wir yn cyfrannu at hyfywedd, yr iaith Gymraeg.

Mae Arfor yn cynhyrchu effaith uniongyrchol yn fwyaf eglur trwy'r prosiectau sy'n cael eu datblygu a'u gweithredu. Y theori yw na fyddai **effaith economaidd ac iaith y prosiectau hyn yn hysbys pe na baent wedi cael eu treialu/profi gyda chefnogaeth Arfor, a bod rhesymeg yn glir**. Roedd Llwyddo'n Lleol, Ffiws a hyd yn oed y grantiau uniongyrchol yn annhebygol o fod wedi dod o hyd i gyllid trwy unrhyw ffynhonnell arall ac ni fyddai unrhyw ddata wedi bodoli i ddangos eu gallu i gefnogi creu swyddi, busnesau a'r economi leol, ynghyd â chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle, gan greu amodau ffafriol ar gyfer datblygu gallu a gwasanaethau iaith ymhellach, yn ogystal â chynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn y gymuned fusnes o bosibl.

Fodd bynnag, mae'r effaith honno'n annhebygol o fod yn sylweddol y tu hwnt i'r busnes neu'r gymuned unigol a gefnogir o ystyried maint y rhaglen a'r math o brosiectau a gefnogir. Er mwyn i'r prosiectau gael effaith sylweddol **rhaidd rhannu'r ddysg, a rhaidd prif ffrydio'r cynlluniau**.

Fodd bynnag, mae prif ffrydio yn bosibl dim ond os (a) bod ymwybyddiaeth ymhlith polisi 'prif ffrwd' a chyllidwyr y prosiectau a'u heffaith a (b) bod cyllid prif ffrwd ar gael i ddilyn ymlaen o Arfor. Dyma rwystrau/galluogwyr Arfor. Tasg allweddol i Arfor a'i staff yn y cyfnod ôl-Arfor, neu yn ystod unrhyw barhad neu estyniad o'r rhaglen, fydd **hyrwyddo arfer da ymhlith y pedwar ALL sy'n cymryd rhan a thu hwnt**. At hynny, er mwyn i'r effaith gael ei themlo y tu hwnt i'r raddfa leol neu'n fach iawn, **rhaidd prif ffrydio llwyddiannau allweddol y rhaglen** ac adnabod **cyllid ar gyfer eu parhad**. Yn hyn o beth, **gall natur y gefnogaeth sy'n ddibynnol ar gyllid fod yn wendid allweddol yn y cynllun**; heb gyllid parhaus, mae effaith y rhaglen yn parhau i fod yn gyfyngedig.

Nodir 'dysgu' hefyd fel canlyniad critigol a gynhyrchir gan y ffocws o fewn Arfor ar dreialu ac arloesi fel blaenoriaeth. Fodd bynnag, dim ond os oes dolen barhaus yn ôl i weithgareddau y gellir cyflawni canlyniadau dysgu, a gellir mireinio a datblygu syniadau, gan dynnu ar y ddysg honno. Yn benodol, mae'n rhaid cipio ac yna rhannu'r ddysg. Mae'r 'ddolen' hon yn agwedd bwysig ar y cronfeydd peilot neu arddangoswyr.

4 Trafodaeth a Gwersi

4.1 Trafodaeth ar y canlyniadau

Mae rhaglen Arfor wedi bod yn fodd i bedwar Awdurdod Lleol dreialu nifer o gynlluniau cymorth busnes sydd hefyd yn anelu at gael effaith fuddiol ar yr iaith. Mae'r rhesymeg, y gall creu mwy o swyddi a swyddi gwell alluogi i siaradwyr Cymraeg barhau i weithio a byw yn ardal Arfor a chyfrannu at gynaliadwyedd yr iaith yn ei "chadarnle", yn un a rannwyd gan fwyafrif y staff, y rhanddeiliaid a'r buddiolwyr. Yn y pen draw, mae'r rhaglen wedi dangos a chynhyrchu tystiolaeth o hyn yn digwydd ar lefel unigol. Mae data a archwiliwyd yn yr adroddiad hwn yn awgrymu bod pob cynllun unigol wedi bod o fudd i fusnesau ac wedi ehangu'r ddarpariaeth, y gwelededd a/neu'r gallu i ddefnyddio'r Gymraeg mewn busnes. Mae'r cynlluniau hyn, mewn amryw o ffyrdd, hefyd wedi creu swyddi ac wedi galluogi i siaradwyr Cymraeg sicrhau cyflogaeth yn yr ardal, gan ddarparu prawf o gysyniad. Mae'r adran hon yn archwilio'r ddysg o'r rhaglen gyfan, gan gynnwys y broses o ddatblygu'r adroddiad interim a'r trafodaethau parhaus gyda'r tîm rheoli a chyflwyno ac ymhlith y tîm trwy gydol oes y rhaglen. Mae'r adran yn trafod y canfyddiadau mewn perthynas â nodau ehangach strategaeth y Llywodraeth ac ymdrechion i ddatblygu ymyriadau economaidd sy'n fuddiol neu'n gefnogol i'r iaith.

4.2 Yr Effaith

Pa effaith mae Arfor wedi'i chael ar fusnesau?

Mae effaith y grantiau uniongyrchol i fusnesau ar fusnesau yn gymharol syml. Mae'r data monitro yn rhagamcanu bod 154 o fusnesau wedi'u cefnogi, 226 o swyddi cyfwerth ag amser llawn wedi'u diogelu, a 238 o swyddi amser llawn ac 89 o swyddi rhan-amser wedi'u creu yn rhannol neu'n gyfan gwbl oherwydd y gefnogaeth a dderbyniwyd. Ar gyfartaledd, mae'r rhaglen wedi diogelu **1 swydd gyfwerth ag amser llawn am bob £6,917.05 ac mae 1 swydd gyfwerth ag amser llawn wedi'i chreu am bob £5,288.79 a wariwyd**. Mae'r canlyniadau hyn yn gysylltiedig i raddau helaeth â'r grantiau uniongyrchol ar gyfer busnesau. Fodd bynnag, dim ond canlyniadau ac amcangyfrifon goddrychol y mae'r data monitro yn eu cynnig. Mae angen monitro pellach i ddilysu gwir ganlyniadau'r rhaglen. Mae'r adroddiad hwn wedi argymhell bod y staff rheoli yn cadw eu cysylltiad â'r buddiolwyr hyn ac yn parhau i fonitro effaith y cynlluniau.

Fodd bynnag, mae cyfweiliadau â'r busnesau yn awgrymu bod y gefnogaeth wedi bod o werth arbennig. Ar gyfer busnesau hirsefydlog, **mae'r gefnogaeth wedi galluogi datblygu gwasanaethau a chynhyrchion neu ffyrdd newydd o weithio**. Yn bwysig, ac mewn perthynas ag is-gwestiwn allweddol o'r gwerthusiad, nododd y busnesau hyn yn gyson y byddai datblygiadau o'r fath **wedi bod yn arbennig o anodd eu sicrhau heb grant Arfor**. Mae'r data'n awgrymu bod busnesau bach a micro yn ardal Arfor yn profi **heriau wrth gyrchu cyllid a buddsoddiad er mwyn ariannu datblygiadau allweddol**. Roedd busnesau a staff rheoli yn gyffredinol hyderus y byddai'r datblygiadau hyn, **ymhen amser, yn sicrhau trosiant uwch ac yn galluogi recriwtio aelodau staff ychwanegol**.

Mae data'n awgrymu bod **busnesau newydd**, a dargedir yn aml gan gynlluniau penodol fel y 'Grant Mentro' yng Ngheredigion neu raglen Llwyddo'n Lleol yn y ddwy sir yn y gogledd, hefyd wedi elwa'n fawr o'r gefnogaeth uniongyrchol. Rhwng y ddau gynllun sy'n targedu busnesau newydd yn benodol, mae'r gefnogaeth wedi arwain at **greu 37 o fusnesau newydd** yn ystod hinsawdd economaidd anodd.

Ystyrir bod y gefnogaeth hyblyg trwy'r grantiau uniongyrchol yn allweddol i **alluogi, yn enwedig perchnogion busnesau iau, i gael gafael ar gyllid a buddsoddiad**. Yn wir, mae'r data'n awgrymu bod **perchnogion busnesau iau yn wynebu heriau ychwanegol wrth gyrchu cyllid a buddsoddiad i'w busnesau oherwydd diffyg hanes credyd neu gyfalaf**. O ganlyniad mae'r grantiau hyn yn llenwi bwlch penodol a, gellir dadlau, methiant marchnad.

At hynny, mae'r data'n awgrymu bod rhai cynlluniau yn cael effaith ehangach **ar y cymunedau, y bobl ifanc** a hyd yn oed y **naratif o amgylch yr economi** a chychwyn busnesau yn yr ardal. Fodd bynnag, **dylid ystyried y rhain yn ganfyddiadau rhagarweiniol** a dylid nodi bod **data a thystiolaeth yn oddrychol i raddau helaeth**. Mae cyfweiliadau ansoddol â rhanddeiliaid, staff rheoli a buddiolwyr yn gynhenid o safbwyntiau'r unigolion hynny. Mae gogwydd tuag at bwysleisio'r llwyddiannau yn bosibl.

Yn sicr, nid yw hyn i annilysu'r canfyddiadau, dim ond i dynnu sylw at y posibilrwydd o **ogwydd optimistaeth a natur ragarweiniol y canfyddiadau hyn**. Mae hyn yn chwyddo pwysigrwydd ailedrych ar y rhaglen hon, yr unigolion a'r busnesau a gefnogir yn y blynyddoedd i ddod i archwilio a chasglu data mwy gwrthrychol mewn perthynas â'r effaith y mae'r rhaglen hon wedi'i chael.

[Ar sail y ddysg o'r rhaglen hon, sut all ymyriadau economaidd gyfrannu at gynaliadwyedd y Gymraeg yn ardal Arfor?](#)

Mae rhaglen Arfor wedi cefnogi cynlluniau sydd wedi cyfrannu at gynaliadwyedd yr iaith mewn tair ffordd wahanol. Yn gyntaf, mae'r grantiau uniongyrchol i fusnesau yn rhoi cysylltiad cadarnhaol â'u hamodau cyllido, h.y. er mwyn i gais fod yn llwyddiannus, rhaid i'r busnes arddangos ac ymgysylltu'n sylweddol â datblygu gallu a gwasanaethau iaith. Mae grantiau wedi'u strwythuro'n effeithiol i **wreiddio darpariaeth a datblygiad iaith mewn busnesau**.

Gwneir hyn yn bennaf trwy fecanwaith cymharol syml, trwy ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr gyflwyno cynlluniau a sgorio'n dda yn eu cyflwyniadau mewn perthynas â'r Gymraeg a'i datblygiad o fewn a chan y busnes. Trwy wreiddio datblygiad iaith o fewn cynllunio busnes, mae'r grantiau wedi sicrhau **ymgysylltu mwy sylweddol gyda'r agenda**, ynghyd â **gyda gwasanaethau cymorth llywodraeth ehangach** megis Helo Blod. Yn y pen draw, mae hyn yn arwain at fwy o wasanaethau a chynhyrchion Cymraeg a rhai mwy hygyrch yn ogystal â'r iaith yn dod yn fwy gweladwy ymhlith busnesau. **Nid yw hyn o reidrwydd yn cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg mewn ardal**, ond mae'n cefnogi cymunedau ac unigolion i fyw eu bywydau trwy gyfrwng y Gymraeg. Ar ben hynny, yn ddamcaniaethol, gallai preswylwyr lleol Cymraeg neu'r rhai a fyddai fel arall wedi gadael yr ardal gymryd y swyddi a grëwyd.

Yn y cyfamser, roedd staff rheoli wedi adnabod bod y busnesau eu hunain yn **enghreifftiau ac astudiaethau achos byw o drigolion lleol yn llwyddo heb orfod gadael yr ardal**. Roedd **busnesau allweddol a hyrwyddodd yr iaith wedi eu cydnabod** ochr yn ochr â **gwerth yr iaith Gymraeg mewn busnes**. Y gobaith oedd y byddai hyn, er na chafodd ei gefnogi gyda data hyd yma, yn cael effaith ehangach ar ganfyddiadau rôl iaith mewn busnes.

Felly, er nad oedd y grantiau uniongyrchol yn cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn uniongyrchol, cynyddodd ei ddefnydd gan fusnesau a darparodd fodd i ddefnyddio'r iaith yn y cymunedau. Roedd y grantiau hefyd yn cynnig cyflogaeth i alluogi i siaradwyr Cymraeg fyw yn yr ardal.

Yn ail, ceisiodd **Llwyddo'n Lleol**, ochr yn ochr â chefnogi busnesau eginol a redir gan bobl ifanc, sefydlu sgwrs gadarnhaol o amgylch pobl ifanc sy'n aros yn yr ardal ac yn cychwyn busnesau. Mae'r bobl ifanc a gefnogir wedi **datblygu ac mewn rhai achosion wedi sefydlu busnesau llawn amser** ac wedi dogfennu eu siwrneion ac **wedi rhoi cyhoeddusrwydd i'r posibiladau a'r opsiynau i bobl ifanc sy'n dymuno aros yn yr ardal**. Mae'r straeon hyn yn herio'r syniad yn uniongyrchol bod yn rhaid i bobl ifanc adael yr ardal i sicrhau cyflogaeth addas. Dim ond ymhen amser y bydd yn bosibl pennu effaith y straeon hyn ar eu cyfoedion. Ar ben hynny, mae cwestiwn allweddol yn parhau; **a fydd angen rhaglen gymorth eu hunain ar bobl ifanc sy'n cael eu hysbrydoli gan y straeon, gan olygu bod angen gwariant a buddsoddiad parhaus mewn rhaglenni fel Llwyddo'n Lleol?** Serch hynny, mae'r cynllun yn cynrychioli ymyrraeth economaidd gyda chanlyniadau economaidd dilys, sydd hefyd yn cefnogi cynaliadwyedd yr iaith trwy herio sgwrs niweidiol sy'n annog allfudo.

Yn olaf, ceisiodd cynllun **Cymunedau Mentrus** gefnogi ac ehangu gwaith "cefnogwyr" allweddol wrth geisio cyflawni nodau tebyg. Yn benodol, cefnogwyd cynlluniau datblygu tri busnes cymdeithasol sy'n ceisio creu cyflogaeth i bobl leol trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r dull hwn yn wahanol i'r cynlluniau eraill gan fod yr effaith yn gwbl eilradd ac yn tynnu ar allu a rôl ac effaith y busnesau mewn cymunedau. Gellid dadlau bod y dull hwn yn ceisio manteisio ar y cyfalaf cymdeithasol sy'n bodoli yng nghymunedau Arfor, ac mae'n cynnwys y cymunedau hynny wrth geisio cyflawni nodau strategol.

[A yw Arfor wedi llwyddo?](#)

Yn fwy cyffredinol, mae'r data'n awgrymu ei bod yn bosibl cefnogi datblygiad busnes ac arloesedd ochr yn ochr â chefnogi datblygiad gallu Cymraeg. Nid yw'r olaf yn cyfyngu'r cyntaf rhag creu a chefnogi swyddi sy'n gysylltiedig ag arloesedd o fewn cwmnïau ar draws ystod o sectorau. At hynny, nid yw'r cyntaf yn cyfyngu ar yr olaf, a gellir cefnogi ac annog busnesau i ddatblygu eu gallu Cymraeg ochr yn ochr â datblygu busnes ehangach, ac y gellir prif ffrydio a sefydlu datblygiad iaith yn natblygiad busnes.

Nid yw'r adroddiad hwn yn archwilio ymyriadau economaidd amgen neu ddamcaniaethol sy'n fuddiol i'r iaith. Yn hytrach, mae'n cyfyngu ei hun i'r data sydd ar gael o'r gweithgareddau yr ymgymerwyd â hwy a'r dystiolaeth. Gall ddod i'r casgliad, fodd bynnag, fod **y model wedi llwyddo yn ei nodau o gefnogi datblygiad economaidd ochr yn ochr â datblygu iaith**. Cyflawnwyd hyn i raddau helaeth trwy brif ffrydio a gwreiddio datblygiad iaith mewn datblygiad busnes ehangach.

Yn bwysig, mae'n awgrymu bod **gwerth** i dreialu, gwerthuso a dysgu o ymyriadau yn yr economi i gefnogi busnesau. O ystyried y gallai ystod eang o ymyriadau amgen fod yn bosibl, mae **cyfiawnhad i barhau** gyda'r gwaith o dreialu a gwerthuso. Mae **argymhelliad cyntaf yr adroddiad interim yn parhau i fod yn berthnasol**, er ei fod yn dibynnu ar adnabod a sicrhau adnoddau i ariannu a chefnogi'r gwaith.

4.3 Y broses a'r model cyflwyno

4.3.1 Rhesymeg a chynllun

Rhesymeg y rhaglen, cynllun a mynd i'r afael â heriau craidd yr ardal

Fel y nodwyd yn y cyflwyniad a'r adroddiad interim, adeiladwyd yr ymyriadau ar y rhagosodiad a'r rhesymeg y byddai creu mwy o swyddi a swyddi gwell yn annog ac yn cefnogi pobl i aros yn yr ardal. Yn ei dro, byddai hyn yn gwrthweithio allfudo, yn enwedig pobl ifanc, ac yn galluogi i gymunedau Cymraeg eu hiaith aros yn hyfyw.

Creu mwy o swyddi -> Mwy o gyfleoedd i bobl leol ac ifanc weithio a byw yn lleol -> Mwy o siaradwyr Cymraeg i gynnal cymunedau.

Roedd rhaglen o'r raddfa hon yn annhebygol o gyflawni rhywfaint o newid a fyddai'n cael unrhyw effaith sylweddol ar allfudo yn gyffredinol yn yr ardal. Fel rhaglen beilot neu arddangoswr, y gobaith oedd y byddai'r cynlluniau **yn datgelu'r hyn sy'n gweithio a pha wersi y gellir eu dysgu**.

Cynlluniwyd nifer o'r cynlluniau yn y rhaglen yn bennaf i gefnogi busnesau, gyda'r gobaith a'r bwriad, trwy dyfu ac ehangu, y gallai'r busnesau hynny gyflogi mwy o bobl. Y grantiau uniongyrchol i fusnesau, yr unig gynlluniau sy'n rhedeg mewn dau o'r awdurdodau lleol, oedd yr enghreifftiau cliraf o hyn. Yn rhesymegol, ychwanegodd hyn gam ychwanegol at theori newid, a rhagdybiaeth y byddai busnesau'n creu swyddi, ac y byddai'r swyddi hynny ar gael i bobl ifanc yr ardal. Mae arloesi ac awydd i dyfu yn dod i'r amlwg fel meini prawf allweddol ar gyfer y busnesau a gefnogir yn y rhesymeg, er y gall arloesi yn methu hefyd gynrychioli rhywfaint o risg, h.y. os bydd yr arloesedd yn methu ac os na fydd y busnes yn tyfu, ni fydd y grant yn cefnogi'r canlyniadau a ddymunir.

Arfor yn cefnogi busnesau -> Busnesau'n arloesi ac yn tyfu -> Busnesau'n recriwtio ac yn creu swyddi -> Mwy o gyfleoedd i bobl leol ac ifanc weithio a byw'n lleol -> Mwy o siaradwyr Cymraeg i gynnal cymunedau.

Roedd creu swyddi yn agwedd a fyddai'n sgorio'n uchel mewn ceisiadau ac mae data i ddangos bod y rhaglen wedi galluogi i fusnesau arloesi a recriwtio. Yn rhesymegol, **mae mwy o gyfleoedd i bobl leol ac ifanc weithio a byw'n lleol oherwydd Arfor**. Yn hyn o beth, mae Arfor wedi llwyddo i ddatgelu ffyrdd y gellir creu mwy o gyfleoedd i bobl leol ac ifanc weithio a byw yn lleol.

Creu "y swyddi iawn"

Er bod cyfleoedd gwaith i bobl leol ac ifanc, serch hynny, ni chafwyd unrhyw ymdrechion i sicrhau y byddai'r swyddi'n cael eu cynnig i bobl leol/ifanc a siaradwyr Cymraeg, na'r rhai a fyddai fel arall wedi gadael yr ardal. O ran hyn, **gellid gwneud mwy i ddeall y berthynas rhwng creu swyddi a'r bobl 'iawn' yn cymryd y swyddi, neu i ddeall pa rai oedd y "swyddi iawn" i ddenu pobl ifanc, leol a Chymraeg eu hiaith i fyw a gweithio yn yr ardal**.

Yn wir, mae data marchnad lafur yr ardal yn awgrymu bod cyflogaeth wedi cadw ar yr un cyflymdra â gweddill Cymru dros yr 20 mlynedd diwethaf. Nid yw'n ymddangos bod diffyg cyflogaeth yn fater sy'n cael effaith andwyol ar yr ardal, ac mae allfudo pobl ifanc wedi parhau wrth i gyflogaeth gynyddu. Awgrymodd ddadansoddiad ystadegol a gynhaliwyd ar gyfer yr Adroddiad Interim nad oedd unrhyw berthynas, neu os oedd, cysylltiad negyddol rhwng creu swyddi a'r iaith h.y. pan fydd yr economi'n tyfu a swyddi'n cael eu creu, mae nifer y siaradwyr Cymraeg yn dirywio.¹⁰ **Efallai na fydd creu cyfleoedd gwaith, ar ei ben ei hun, yn ddigon. Gall fod yn wrthgynhyrchiol hyd yn oed.**

Mae'r her debygol felly yn gysylltiedig **nid â nifer y swyddi**, ond â'r **math o swyddi sydd ar gael i bobl ifanc**. Mae'r her hefyd yn debygol o fod **yn gysylltiedig â materion ehangach yn ymwneud ag ansawdd bywyd ac uchelgeisiau pobl ifanc**.¹¹

Er bod y rhaglen wedi llwyddo i greu mwy o swyddi, mae ei llwyddiant wrth greu swyddi "gwell" yn llai eglur, o bosibl oherwydd yr ansicrwydd mewn perthynas â beth yw "swydd well".

Mae'r rhaglen wedi sbarduno **ymchwiliad critigol o gysyniad "swydd well" mewn perthynas â nodau'r rhaglen**, ffyniant economaidd a hyfywedd ieithyddol yr ardal. Gallai'r trafodaethau hyn helpu i fireinio'r nodau penodol ymhellach, y targedau penodol ac effaith unrhyw ymdrechion yn y dyfodol sy'n ceisio datblygu'r economi a hyfywedd ieithyddol. **Dylid ystyried y syniad o "swydd well", mewn perthynas â'i heffaith gymdeithasol ac iaith ehangach, yng nghyd-destun ehangach pwy sy'n cymryd y swydd.**

¹⁰ Gweler hefyd <https://www.arsyllfa.cymru/is-there-a-statistical-relationship-between-economic-development-and-the-welsh-language/>

¹¹ Gweler hefyd

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/902943/Moving_out_to_move_on_report.pdf

GWERS 1: Mae'r staff rheoli a'r rhanddeiliaid wedi datblygu eu ffordd o feddwl mewn perthynas â chysyniad allweddol Arfor, sef y syniad o "swydd well" yn yr ardal, ar ôl y pandemig. Dylai'r staff a'r rhanddeiliaid anelu at barhau i ddatblygu eu dealltwriaeth o'r hyn yw "swydd well"; bydd hyn yn hysbysu unrhyw ymdrechion yn y dyfodol i ddatblygu rhaglenni creu swyddi neu ymyriadau economaidd sy'n cael effaith fuddiol ar yr iaith. Dylai "swydd dda" hefyd ymwneud ag effaith gymdeithasol ac iaith y swydd sy'n cael ei chreu.

Rhan o ddull ehangach

Yn wir, roedd staff yn edrych fwyfwy ar yr ymyrraeth fel rhan yn unig o'r ymateb posibl. Er bod y ffocws ar greu swyddi i'w groesawu, gallai ac yn ôl pob tebyg y **dylai fod yn rhan o ddull ehangach** o fynd i'r afael ag allfudo a'r bygythiad i gynaliadwyedd yr iaith fel un o fywyd cymunedol a gwaith. Dylai'r dull ehangach hwn gynnwys gwella ystod o benderfyniadau **ansawdd bywyd** o fyw mewn ardaloedd gwledig, yn ogystal â **mynd i'r afael â'r naratif negyddol sy'n ymwneud â byw a gweithio yn lleol**. O ran yr olaf, ceisiodd cynlluniau fel Llwyddo'n Lleol greu a rhoi cyhoeddusrwydd i naratif amgen sy'n pwysleisio'r cyfleoedd i bobl ifanc gychwyn busnesau pe byddent yn aros yn yr ardal, er bod risg y byddai ei lwyddiant yn dibynnu ar gefnogaeth barhaus a chyfleoedd cyllido i'r rhaglen barhaus. Yn y cyfamser, ceisiodd cynllun Cymunedau Mentrus fynd i'r afael â'r cyntaf, trwy greu cyfleoedd gwaith mewn cymunedau gwledig mwy anghysbell, gan ganolbwyntio ar gynhyrchu buddion economaidd, cymdeithasol ac ieithyddol i'r cymunedau hynny yn ogystal ag ailgylchu gwariant yn lleol.

Mae'n ymddangos bod y canfyddiadau hyn wedi cadarnhau'r farn a fynegwyd yn yr adroddiad interim, y dylai ymyrraeth economaidd fod yn rhan o ddull ehangach yn unig.

'Yn y tymor hir, rhaid ystyried ymyriadau economaidd yn y cyd-destun ehangach. Er mai nod Arfor yw datblygu ymyriadau economaidd, sy'n cael effaith ieithyddol gadarnhaol, yn ddelfrydol byddant yn cefnogi, ac yn cael eu cefnogi gan ystod o bolisiâu cymdeithasol ehangach sy'n galluogi i'r di-Gymraeg gaffael yr iaith a hwyluso ei defnyddio. Ar ben hynny, bydd gwella a datblygu apêl ac ansawdd bywyd yn yr ardaloedd gwledig hyn yn gydrannau allweddol pellach mewn unrhyw ddull sy'n mynd i'r afael â mater allfudo.'

GWERS 2: Yn strategol, dylid cyfyngu ar ddisgwyliadau pa effaith y gall rhaglen creu swyddi ei chael ar fudo (i mewn ac allan) ac, o ganlyniad, yr iaith. Yn ddelfrydol, dylai dulliau economi>iaith fod yn rhan o strategaeth ehangach i fynd i'r afael â'r ffactorau gwaelodol a strwythurol sy'n bygwth cynaliadwyedd yr iaith.

Pobl Ifanc

Fodd bynnag, ni chafwyd unrhyw ymdrechion penodol i annog recriwtio pobl ifanc trwy'r grantiau uniongyrchol, a lle roeddynt wedi cael eu cyflogi, roedd yn gyd-ddigwyddiad. Nid yw hyn i ddibrisio effaith y cynlluniau a'r swyddi a grëwyd; yn wir, mae'r swyddi wedi cynnig cyflogaeth ac felly'r modd o aros a byw yn yr ardal i lawer o bobl.

Fodd bynnag, o gofio bod y rhaglen wedi ceisio yn benodol i weithio yn erbyn allfudo, yn enwedig pobl ifanc, byddai wedi bod yn **fwy unol â rhesymeg y rhaglen i geisio annog busnesau i greu swyddi neu o bosibl swyddi prentisiaid wedi'u targedu'n benodol at bobl ifanc.**

Fodd bynnag, roedd rhywfaint o gytundeb na fyddai ac na ddylai rhesymeg y rhaglen gynnwys yr unig ddull o fynd i'r afael ag allfudo a'r heriau i gynaliadwyedd yr iaith Gymraeg a'i siaradwyr mewn ardaloedd gwledig.

Yn fwy cyffredinol, byddai wedi bod yn fuddiol ac yn addysgiadol pe bai'r rheolwyr wedi casglu data mewn perthynas ag oedran yr unigolion sy'n cael eu cyflogi gan y busnesau. Gellir casglu'r data hwn o hyd os yw monitro'r busnesau hyn, fel y mae'r rheolwyr wedi nodi, yn parhau i'r dyfodol. Yna gellir cynnal archwiliad pellach, o'r math o swyddi sy'n apelio at bobl ifanc, a beth yw "swydd dda".

GWERS 3: Argymhellir bod proffil oedran unigolion sy'n elwa o greu swyddi yn cael ei gasglu mewn data monitro yn y dyfodol. Byddai hyn yn galluogi i'r rheolwyr gael mewnwelediad i'r mathau o ymyriadau a swyddi sy'n annog pobl ifanc i aros yn yr ardal.

Fodd bynnag, mae un **canfyddiad allweddol** yn ymwneud â llwyddiant cynlluniau Arfor sydd wedi apelio at bobl ifanc. Credir bod y Grant Mentro yng Ngheredigion wedi'i gymryd yn gyfan gwbl gan bobl o dan 35 oed, ac roedd y mwyafrif yn iau fyth. Mae'r data mewn perthynas â'r grant yn awgrymu bod pobl ifanc yn wynebu heriau ychwanegol yn yr ardal wrth geisio cyllid neu fuddsoddiad mewn busnesau newydd. Mae diffyg hanes credyd neu gyfalaf yn her sylweddol i brynu offer er enghraifft. Fodd bynnag, darparodd y Grant Mentro y cyllid a alluogodd i'r bobl ifanc hyn oresgyn eu heriau. O ganlyniad, mae 17 busnes newydd wedi'u sefydlu mewn cyd-destun economaidd anodd. **Mae profiad y grant hwn yn awgrymu y byddai pobl ifanc yn fwy tebygol o aros yn yr ardal, a chychwyn busnesau, pe bai cyllid a buddsoddiad busnes yn fwy hygyrch.** Mae rhaglen Llwyddo'n Lleol hefyd wedi dangos, gyda chefnogaeth ac arweiniad, bod galw ymhlith pobl ifanc i gychwyn busnesau ac aros yn yr ardal.

Ymyriadau Economi>Iaith

Nid oes dealltwriaeth dda o'r berthynas rhwng yr economi a'r Gymraeg yng Nghymru. Archwiliwyd y mater hwn yn fanwl yn yr Adroddiad Interim ond mae hefyd wedi'i drafod yn y llenyddiaeth ehangach yn ogystal â'r rhaglen Adfywio ym Mhrifysgol Aberystwyth. Un o gasgliadau allweddol yr olaf oedd gwahaniaethu rhwng economi> iaith, h.y. ymyrraeth economaidd sy'n cael effaith ar yr iaith, ac iaith>economi h.y. rôl yr iaith o fewn busnes a'r economi. Mae mwyafrif y rhaglenni a'r ymyriadau iaith sy'n gysylltiedig â'r economi yn cydymffurfio â'r olaf ac yn ceisio hyrwyddo gwerth y Gymraeg i fusnesau ac unigolion yn y farchnad lafur.

Mae'r rhaglen hon wedi ceisio archwilio dulliau economi>iaith, a datblygu ymyriadau busnes neu economaidd a all gael effaith ar yr iaith. Mae'r rhaglen wedi llwyddo yn hyn o beth ac wedi dangos sut y gall cymorth busnes hefyd fod yn sensitif i gynaliadwyedd iaith a'i gefnogi.

Mae'r grantiau uniongyrchol i fusnesau wedi gwreiddio cynllunio a datblygu iaith mewn cynlluniau busnes ehangach. Cyflawnwyd hyn trwy'r amlygrwydd a ddyfarnwyd i'r meini prawf yn y broses ymgeisio. At hynny, trwy annog neu fynnu ymgysylltu â gwasanaethau cymorth ehangach fel Helo Blod mewn rhai achosion, mae'r grantiau hefyd wedi sicrhau bod busnesau'n cyrchu arfer gorau a chefnogaeth dda wrth iddynt ddatblygu eu gallu a'u gwasanaethau iaith. Gellid deall hyn fel **proses o atodi cysylltiad cadarnhaol â'r cyllid grant**.¹² Hynny yw, mae'n cynrychioli ymyrraeth economaidd sydd hefyd yn cynnwys elfen iaith>economi, wedi'i heffeithio a'i gorfodi'n effeithiol gan gynllun a meini prawf penodol y grantiau busnes uniongyrchol ac ymyrraeth economaidd.

O ganlyniad i'r ymgysylltiad mwy sylweddol â'r iaith, mae'r grantiau wedi ysgogi ac arwain busnesau i gynyddu eu gweithgaredd/gweledd Cymraeg. Yn ei dro, mae hyn yn cynhyrchu'r galw, ac mae busnesau'n ceisio ateb y galw am fwy o ddefnydd o'r Gymraeg.

Yn fanwl; trwy annog datblygiadau anffurfiol a mewnol, **yn enwedig o fewn busnesau sydd wedi recriwtio siaradwyr Cymraeg, mae'r grant wedi cefnogi datblygiad gallu busnes i ymgysylltu, yn anffurfiol o leiaf, â chleientiaid a chwsmeriaid**. Trwy ymgysylltu'n anffurfiol trwy'r cyfryngau cymdeithasol, arwyddion neu sgysiaid anffurfiol a chyfathrebu â chleientiaid a chwsmeriaid, mae busnes yn credu bod y galw **am gynhyrchion a gwasanaethau wedi cynyddu**. Mae hyn yn adleisio'r ymchwil ehangach ar werth y Gymraeg mewn busnes fel ffordd o gynhyrchu'r galw ac ehangu'r apêl. Ochr yn ochr, ac i ateb y galw cynyddol, fodd bynnag, mae **busnesau hefyd wedi ceisio datblygu prosesau ffurfiol o ymgysylltu â chleientiaid yn Gymraeg, megis archebu ac anfonebu dwyieithog**. O ganlyniad, mae'r grant wedi ysgogi datblygu a gwreiddio'r Gymraeg yn gymharol gyflym i waith ffurfiol ac anffurfiol y busnes. Yn ei dro, mae mwy o bosibiliadau ac yn wir awgrymiadau bod mwy o bobl yn manteisio ar y cyfleoedd i ddefnyddio Cymraeg yng nghymunedau ardal Arfor. Nid yw hyn yn effeithio'n uniongyrchol ar gynaliadwyedd cyffredinol yr iaith o ran nifer y siaradwyr, ond mae'n helpu i greu amodau ar gyfer defnyddio iaith mewn cymunedau.

Yn y cyfamser, mae **Llwyddo'n Lleol** wedi ceisio darparu cefnogaeth fusnes uniongyrchol i fusnesau newydd a phobl ifanc. Ymyrraeth economaidd yw hon. Fodd bynnag, trwy wreiddio ymgyrch farchnata a Chysylltiadau Cyhoeddus yn y rhaglen - yn benodol trwy ei gwneud yn ofynnol i fuddiolwyr gofnodi eu profiadau o gychwyn busnes yn yr ardal - mae'r rhaglen wedi datblygu naratif ynghylch cyflogaeth a gwaith sy'n cyferbynnu â sgwrs hirsefydlog. Y stori sy'n cael ei hyrwyddo trwy'r buddiolwyr yw y gall pobl ifanc gychwyn busnesau llwyddiannus yn yr ardal, a'i bod yn broses ddeniadol a chyffrous. Mae hyn yn cyferbynnu â'r naratif economaidd hirsefydlog, sef bod yn rhaid i bobl ifanc adael yr ardal i sicrhau cyflogaeth ddigonol.

Os yw'r naratif hirsefydlog yn rhwystr i bobl ifanc sy'n byw ac yn gweithio yn yr ardal, yna **mae rhaglen Llwyddo'n Lleol wedi nodi ffordd bosibl o wrthbwysu'r naratif hwn**. At hynny, mae'r naratif cadarnhaol a **hyrwyddir gan y rhaglen yn un economaidd yn benodol ond gall o bosibl gael effaith gadarnhaol ar yr iaith**. Ymyrraeth economi>iaith.

¹² Mae "cyswllt positif" yn derm a fenthycwyd o'r llenyddiaeth cymorth democratiaeth. Mae'n cyfeirio at ymdrechion gwladwriaethau i gysylltu amodau â chymorth rhyngwladol, gan ddenu gwledydd sy'n eu derbyn i wneud newidiadau er mwyn derbyn y cymorth.

Fodd bynnag, roedd **Y Grant Iaith** yn darparu cefnogaeth uniongyrchol i fusnesau i gymryd rhan wrth ddatblygu eu gallu a'u gwasanaethau iaith yn unig. Ar ei ben ei hun, mae'r grant hwn yn cynrychioli ymyrraeth iaith>economi yn unig a gallai orgyffwrdd â'r rôl a'r gefnogaeth a gynigir gan ystod o gyfranogwyr a gwasanaethau cymorth ehangach. Fodd bynnag, roedd ei ddefnyddio fel y cam cychwynol i fusnesau, cyn cyrchu'r Grant Busnes, **yn sicrhau ymgysylltiad sylweddol â'r iaith yn y busnes.**

Dyblygu a gorgyffwrdd neu werth ychwanegol?

Codwyd pryderon mewn perthynas â'r risgiau o **ddyblygu rhywfaint o'r gwaith y dylai gwasanaethau cymorth fel Helo Blod fod yn ei gynnig.** Fodd bynnag, roedd staff rheoli o'r farn bod y rhaglenni, yn hytrach na dyblygu'r gefnogaeth, wedi ychwanegu gwerth at wasanaethau o'r fath. Dadleuodd staff fod busnesau yn aml yn gweld gwasanaethau cymorth o'r fath mewn modd symbolaidd ac anaml y byddent yn ymgysylltu â'r gefnogaeth mewn modd sylweddol i drawsnewid eu busnesau eu hunain. Trwy wreiddio datblygiad iaith yn y cynlluniau busnes a chyfeirio busnesau at wasanaeth cymorth Helo Blod, roedd y grantiau'n annog ymgysylltiad mwy sylweddol â'r broses. Ar ben hynny, mae'r dull, ym marn staff a busnesau, wedi datblygu'r syniad bod **datblygu gwasanaethau a gallu iaith yn broses yn hytrach na gweithgaredd unwaith ac am byth**, ac y byddai'r gwasanaeth Helo Blod yn ffynhonnell ddibynadwy o gefnogaeth yn y dyfodol. Fodd bynnag, nododd staff eu bod yn teimlo y gallai'r cynlluniau **fod wedi'u hintegreiddio'n well â gwasanaethau cymorth ehangach yn y cam cynllunio.** At hynny, roedd staff yn teimlo bod **gwersi allweddol wedi'u dysgu wrth ymgysylltu â busnesau â'r broses o ddatblygu gallu a gwasanaethau iaith.**

GWERS 4: Dylai'r staff rheoli geisio ymgysylltu â Helo Blod Busnes Cymru a gwasanaethau cymorth busnes Comisiynydd y Gymraeg gyda'r nod o rannu eu profiadau a'u harfer da a ddatblygwyd wrth gyflawni'r rhaglen hon.

Cyfalaf Cymdeithasol

Ymddengys bod Arfor wedi gweithredu fel canolbwynt, y mae **clymblaid o 'gefnogwyr'** wedi'i dynnu o'i gwmpas (a'i ddenu trwy gyllid uniongyrchol). Mae hyn yn awgrymu **y gallai fod rhwydwaith o sefydliadau ac unigolion sydd â diddordeb mewn sicrhau'r diben cyffredin o ddatblygu ymyriadau economaidd sydd o fudd i'r iaith**, a gall rhaglen fel Arfor arwain a datblygu hyn trwy ei gwaith. Os yw Arfor i barhau ar ryw ffurf, yna dylai ei rôl fel canolbwynt, ond hefyd y cefnogwyr a'r partneriaid cyflwyno posibl, fod yn ystyriaeth yn ei fodel cynllunio a chyflwyno esblygol.

GWERS 5: Os ystyrir estyniad neu barhad, dylid ystyried rôl cyfalaf cymdeithasol a gwerth ychwanegol clymblaid ehangach o bartneriaid a chefnogwyr cyflwyno wrth ddatblygu'r model cynllunio a chyflwyno. Dylai'r cynllun geisio cyfalafu a chynyddu'r effaith y gall y cyfalaf cymdeithasol ei chael i'r eithaf.

4.3.2 Cyflwyno

Hyrwyddo a defnydd

Nododd rheolwyr nad oedd unrhyw ymdrechion i roi cyhoeddusrwydd i Arfor fel rhaglen sengl neu unffurf. Hyrwyddodd pob ALL eu rhaglenni eu hunain yn lleol, yn bennaf trwy gyfryngau cymdeithasol y cyngor, a thrwy ledaenu'r gair neu gyfryngau cymdeithasol y swyddogion. Fodd bynnag, yn ystod oes y rhaglen, mae staff yn awgrymu bod y brand **wedi'i sefydlu a'i gydnabod rhywfaint**. Yn ehangach, mae hyn yn cynnig llwyfan **sy'n galluogi i'r ALLau adeiladu ar effaith ac enw da'r rhaglen gyfredol**.

Roedd y staff yn gymysg eu barn mewn perthynas â defnydd ar y grantiau. Nododd y ddau ALL yn y gogledd lefel gyson a boddhaol o ddiddordeb yn y grantiau a oedd ar gael. Yn gyffredinol, roedd busnesau'n hapus i ymgysylltu â'r Grant Iaith fel rhagflaenydd i wneud cais am y Grant Busnes yn Ynys Môn. Fodd bynnag, nododd staff Ceredigion a Sir Gâr fod diddordeb yn pylu yn ystod y cyfnod clo. Priodolwyd hyn i raddau helaeth i **newid mewn ffocws i fusnesau, tuag at oroesi a diogelu swyddi**. Nododd staff, fodd bynnag, erbyn mis Medi 2020, tua **chwe mis ar ôl y clo cychwynol, roedd diddordeb wedi codi ac roedd busnesau unwaith eto yn edrych ar ddatblygu ac arallgyfeirio**, gyda'r grantiau'n apelio.

Mae'r adfywiad cychwynol a chyflym mewn diddordeb mewn grantiau i gefnogi datblygu ac arallgyfeirio yn awgrymu bod galw cymharol gryf yn yr ardal ymhlith busnesau bach a micro. **Dylid disgwyl i raglen olynol ddenu lefel debyg o ddiddordeb**.

Roedd y rhaglenni ehangach, yn enwedig Llwyddo'n Lleol a Chymunedau Mentrus, yn boblogaidd, gyda'r meini prawf ar gyfer y cyntaf wedi'u culhau ar gyfer yr ail alwad er mwyn canolbwyntio'r gefnogaeth ar fyfyrwyr prifysgol a oedd yn aros adref oherwydd cyfyngiadau'r clo.

Un anfantais bosibl i'r dull, ond ffactor a oedd hefyd i'w briodoli i'r amserlenni tynn ar gyfer cynllunio a chyflwyno'r rhaglen a'r cynlluniau, oedd y methiant cymharol i ymgysylltu â busnesau nad oeddent o'r blaen wedi ystyried datblygu gwasanaethau a chynhyrchion yr Iaith Gymraeg. Roedd hyn hefyd, i raddau, trwy gynllun. Fodd bynnag, awgrymodd rhai rhanddeiliaid mai dull amgen **a allai fod yn fwy effeithiol fyddai fod wedi targedu busnesau nad oeddent wedi ceisio datblygu eu gallu a'u gwasanaethau iaith**.

Model rheoli a chyflwyno

Roedd busnesau, rhanddeiliaid a rheolwyr o'r farn bod **y rhaglen a chynlluniau unigol wedi'u rheoli'n dda a'u cyflawni'n effeithiol**. Anaml y beirniadwyd y prosesau ymgeisio gan fusnesau, ac ychydig o dystiolaeth oedd **yn cefnogi barn rhai rhanddeiliaid bod ALLau yn feichus neu'n araf i gyflwyno**. Fodd bynnag, nododd staff ar draws yr ALLau fod baich gweinyddol y cynlluniau, yn enwedig y grantiau uniongyrchol i fusnesau, yn broblem.

GWERS 6: Roedd angen mwy o adnoddau i reoli a chyflwyno'r rhaglen nag a ragwelwyd. Os caiff ei hestyn neu ei pharhau, dylai'r rhaglen roi cyfrif am faich gweinyddol gweinyddu'r grantiau.

Er ei fod yn effeithiol wrth gyflawni'r allbynnau a gynlluniwyd, beirniadwyd y model serch hynny am beidio ag ymgysylltu â **sefydliadau y tu allan i'r Allau fel partneriaid cyflwyno**. **Yn aml, nodwyd prifysgolion yr ardal fel cydweithredwyr a allai fod yn werthfawr**, tra nododd eraill y gallai cyrff a sefydliadau allweddol fel Yr Egin a Chanolfan Fwyd Cymru fod wedi cefnogi a gwella'r gefnogaeth a gynigir. Yn y pen draw, roedd rhanddeiliaid yn teimlo bod y glymblaid o "gefnogwyr" a'r gronfa o gyfalaf cymdeithasol a phartneriaid cyflwyno posibl y gallai rhaglenni fel Arfor, mewn theori, dynnu arnynt, yn llawer ehangach. Unwaith eto, **roedd diffyg amser i gyflawni'r cynlluniau cymorth yn cyfyngu'r posibiladau hyn**.

GWERS 7: Os ystyrir estyniad neu barhad, dylid cynnwys sefydliadau sy'n ganolbwyntiau mewn sectorau, fel Yr Egin neu Ganolfan Bwyd Cymru, yn ogystal â'r Prifysgolion niferus yn yr ardal fel partneriaid cyflwyno posib.

Fel y nodwyd mewn perthynas â sawl agwedd ar gynllunio a chyflwyno, mae llawer o wendidau'r rhaglen wedi'u priodoli i'r llinell amser fer. Credwyd yn eang bod y llinell amser fer **hon wedi bod yn wendid yn y rhaglen**.

GWERS 8: Os ystyrir estyniad neu barhad, dylai'r rheolwyr a'r cyllidwyr ystyried caniatáu mwy o amser i gynllunio a datblygu cynlluniau. Dylai hyn alluogi i staff fynd at randdeiliaid allweddol a phartneriaid cyflwyno posibl i ychwanegu gwerth at y gefnogaeth yn ogystal â thynnu rhwydwaith ehangach o gyfranogwyr i'r maes o ddatblygu ymyriadau economaidd sydd o fudd i'r iaith.

Effaith Allanol

Mae **pandemig y coronafirws wedi cael effaith sylweddol ar y rhaglen**. Mae'r pandemig yn amlwg wedi effeithio ar ei **chyflwyno** ac **ar unrhyw ymdrechion i ddangos ei heffaith**. O ganlyniad, rhaid bod yn ofalus mewn dau ystyr. Yn gyntaf, rhaid ystyried **canfyddiadau'r gwerthusiad hwn braidd yn rhagarweiniol**. Mae angen gwerthuso a monitro pellach i gadarnhau'r canfyddiadau a amlinellir uchod. Yn ail, mae'n annhebygol y bydd yr amgylchiadau unigryw a ddaw yn sgil y pandemig yn cael eu hailadrodd ac mae'n anodd mesur eu hunion effaith ar y rhaglen a'i chyflwyniad. Ystyrir bod y pandemig wedi lleihau awydd busnesau i ddatblygu ac arloesi. Fodd bynnag, gallai hefyd fod wedi sbarduno busnesau sy'n ceisio diogelu eu bodolaeth barhaus, i geisio unrhyw gefnogaeth sydd ar gael, ac o ganlyniad wedi annog ceisiadau am grantiau busnes. Yn y cyfamser, cafodd y gwaith o recriwtio'r bobl ifanc ar gyfer rhaglen Llwyddo'n Lleol, yn enwedig yr ail rownd, ei deilwra i ddenu'r rheini a oedd yn gorfod aros adref o'r brifysgol neu ohirio eu hastudiaethau. **Ni fyddai'r cyfleoedd hyn wedi bod ar gael heb y pandemig**.

Yn ehangach, **dim ond yn y blynyddoedd i ddod y bydd effaith** y rhaglen a'r gweithgareddau, y cynhyrchion neu'r gwasanaethau a ddatblygwyd trwy'r grant **i'w gweld wrth i fusnesau recriwtio a cheisio codi eu refeniw**. Mae **hyn yn cynyddu pwysigrwydd parhau i fonitro'r busnesau sydd wedi derbyn grantiau**.

GWERS 9: Dylai rheolwyr y rhaglen a'r pedwar Awdurdod Lleol geisio cadw mewn cysylltiad â busnesau a buddiolwyr y rhaglen. Dylai'r rheolwyr anelu at barhau i fonitro'r effaith y mae'r gefnogaeth wedi'i chael yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf.

Cynaliadwyedd a'r dyfodol

Cronfa beilot neu arddangoswr oedd rhaglen Arfor, a oedd yn ceisio profi syniadau ar lefel gyfyngedig, gwerthuso eu heffaith a'u haddasrwydd er mwyn dysgu gwersi. Fodd bynnag, **mae'r effaith honno'n annhebygol o fod yn sylweddol y tu hwnt i'r busnes neu'r gymuned unigol a gefnogir** o ystyried maint y rhaglen a'r math o brosiectau a gefnogir. Er mwyn i'r prosiectau gael effaith sylweddol **rhaid rhannu'r ddysg, a rhaid prif ffrydio'r cynlluniau.**

Mae strwythur Arfor, sy'n cynnwys cydweithredu rhwng staff y pedwar ALLau, **yn cynrychioli ffordd y gellir rhannu'r ddysg a'r arfer da yn fewnol.** Yn wir, mae cyflwyno cynllun Llwyddo'n Lleol yng Ngheredigion a Sir Gâr yn awgrymu hynny. Fel corff o bedwar ALL gwledig sydd â data a phrofiad i gefnogi eu hawliadau, mae'r pedwar ALL hefyd mewn sefyllfa dda i ymgysylltu'n allanol ag ALLau eraill, cyrff ymbarél ar gyfer ALLau, Llywodraeth Cymru a Bargeinion Twf Dinas neu Ranbarth gyda'r ddysg a'r wybodaeth a gynhyrchir trwy'r rhaglen hon. Argymhellwyd hyn yn yr Adroddiad Interim, ac mae'r Adroddiad Terfynol hwn wedi cyflwyno data sy'n cefnogi dilysrwydd yr argymhellion hynny.

GWERS 10: Wrth geisio rhannu arfer da a dysg, a hyrwyddo prif ffrydio gweithgareddau llwyddiannus, dylai'r pedwar ALL barhau i gydweithredu i'r dyfodol p'un a oes rhaglen Arfor ffurfiol yn bodoli ai peidio. Mae strwythur Arfor yn cyflwyno cyfleoedd i gynnal cydweithredu; ar gyfer rhannu arfer da a dysg yn fewnol; adnabod cyfleoedd ar gyfer prif ffrydio; adnabod cyfleoedd cyllido ar gyfer treialu pellach; ac ar gyfer hyrwyddo dysg a gwybodaeth yn allanol i ddylanwadu ar strwythurau llywodraethu economaidd ehangach.

4.3.3 Argymhellion Adroddiad Interim

Trafodir yr argymhellion o'r adroddiad interim yn Adran 1.1.2.

Fel y nodwyd yn flaenorol, **mae rhaglen Arfor wedi dangos gwerth treialu a gwerthuso ymyriadau.** Mae hyn yn arbennig o werthfawr mewn cyd-destun lle mae diffyg tystiolaeth ac ymchwil ar gael yn cyfyngu i ba raddau y gellir cynnig ymyriadau penodol yn hyderus yn eu heffaith. Dylai'r gwaith hwn barhau os yw ymyriadau mwy a gwell neu fwy effeithiol i gael eu hadnabod a'u gwerthuso am eu potensial.

Roedd yr ail argymhelliad yn cynnig y dylid sefydlu grŵp ymchwil, yn ddefnyddol yn cynnwys unigolion o ymhellach i ffwrdd nag arbenigwyr polisi iaith. **Mae gwerth gwerthuso a chasglu tystiolaeth** o sut ac yn bwysicach sut y gall ymyriadau economaidd fod yn gefnogol i ddatblygiad iaith a chynaliadwyedd **wedi'i ddangos gan yr ymyriadau a dreialwyd trwy raglen Arfor.** Fodd bynnag, mae'r cwmpas ar gyfer gwerthuso ac ymchwil pellach yn parhau i fod yn eang. Mae rôl o hyd i grŵp nid yn unig i werthuso unrhyw ymyriadau yn y dyfodol a'u heffaith ar yr iaith, ond hefyd i ailedrych ar ymyriadau a datblygiadau economaidd presennol. At hynny, **mae'r angen i dynnu ar dystiolaeth ac ymchwil ehangach yn parhau i fod yn berthnasol** os yw ymyriadau effeithiol i gael eu hadnabod a'u prif ffrydio o fewn a hyd yn oed y tu hwnt i'r pedair sir fel rhan o ymdrechion ehangach i gefnogi cynaliadwyedd yr iaith Gymraeg.

Roedd yr adroddiad interim hefyd yn argymhell y dylid sefydlu corff ffurfiol er mwyn parhau i hyrwyddo ymyriadau llwyddiannus o fewn yr awdurdodau lleol yn ardal Arfor yn ogystal ag yn allanol. Dylai'r corff hwn hefyd geisio nodi dulliau ac adnoddau a fyddai'n galluogi i'r gwaith o dreialu a gwerthuso ymyriadau barhau. **Mae'r argymhelliad hwn yn parhau i fod yn berthnasol**, ac os yw gwaddol ac effaith rhaglen Arfor i'w sicrhau, yna **dylai sefydliad neu gorff addas barhau â'r gwaith o hyrwyddo llwyddiannau a pherthnasedd yr ymyriadau a dreialwyd yn rhaglen Arfor**. Gall y broses werthuso yn yr adroddiad hwn gynnig rhywfaint o fewnwelediad mewn perthynas â'r sefydliad neu'r corff a fyddai'n addas.

Yn olaf, argymhellodd yr adroddiad interim, gydag effaith y pandemig yn debygol o atal gwariant, y dylai'r rhaglen ystyried cyllido ymchwil ychwanegol i'r berthynas rhwng yr economi a'r Gymraeg. Yn benodol, argymhellwyd bod y rhaglen yn archwilio'r rhesymau pam y mae pobl ifanc yn gadael neu'n dychwelyd i'r ardal. Yn y pen draw, ni wnaeth y pandemig atal gwariant a chyflwyno, o ganlyniad nid oedd angen dargyfeirio'r gyllideb i weithgareddau amgen. Fodd bynnag, mae allfudo a mewnfudo, yn enwedig pobl ifanc, yn parhau i fod yn faes beichus gan ragdybiaethau a thystiolaeth gyfyngedig. Byddai ymchwil pellach i'r maes hwn, a arweinir o bosibl gan grŵp ymchwil (gweler argymhelliad 2), yn debygol o fod o fudd sylweddol i ymdrechion yn y dyfodol.

5 Casgliadau

Mae rhaglen Arfor wedi treialu cynlluniau cymorth busnes ar raddfa fach yn llwyddiannus ac wedi dangos bod ganddynt y potensial, os yw wedi'i strwythuro i wneud hynny, i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle, i greu amodau ffafriol ar gyfer datblygu gallu a gwasanaethau ymhellach, yn ogystal â chynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg o fewn y gymuned fusnes. Fodd bynnag, dylid adolygu'r effaith, a'r data monitro yn benodol, yn y dyfodol i ddilysu a chadarnhau canfyddiadau'r adroddiad hwn, ond nid oedd unrhyw ddata i awgrymu bod y cynlluniau wedi methu â chyflawni'r effeithiau hyn i ryw raddau neu raddau cynyddol.

Mae'r rhaglen wedi cael yr effaith fwyaf gweladwy ac uniongyrchol trwy grantiau busnes uniongyrchol i gwmnïau bach a micro yn yr ardal. Nododd y busnesau hyn yn aml pa mor anodd oedd cyrchu ffynonellau cyllid, buddsoddiad a chyfalaf amgen. Yn yr ystyr hwn, mae'r grantiau wedi bod yn arbennig o werthfawr i'r busnesau hyn ac wedi galluogi ehangu ac arallgyfeirio. Yn eu tro, mae'r busnesau hyn wedi creu 238 o swyddi cyfwerth ag amser llawn ac 89 rhan amser ac wedi diogelu 226 o swyddi cyfwerth ag amser llawn, refeniw cynyddol, a chyda'r rhain yn gwmnïau lleol, maent yn fwy tebygol o ailgylchu'r refeniw yn lleol.

Trwy wreiddio datblygiad gwasanaethau a gallu iaith mewn busnesau, yn bennaf trwy gysylltiadau cadarnhaol a thrwy orfodi ymgysylltu â'r gwasanaeth Helo Blod, mae'r rhaglen wedi nodi ffyrdd o gefnogi'r Gymraeg. Yn y cyfamser, mae cynlluniau fel Llwyddo'n Lleol, wedi dangos ffyrdd y gellir creu a hyrwyddo naratif ynghylch cychwyn busnesau a byw yn yr ardal.

Mae'r rhaglen, er gwaethaf yr oedi a'r anawsterau a achoswyd gan bandemig COVID-19, felly wedi llwyddo i gefnogi cynlluniau peilot i hyrwyddo datblygiad economaidd a chynhyrchu budd i'r Gymraeg. Mae wedi llwyddo i adnabod ffyrdd y gall ymyriadau economaidd gefnogi cynaliadwyedd yr iaith Gymraeg mewn ardaloedd gwledig. Mae'r her ddi-oed o sicrhau bod y ddysg a'r arfer da yn cael eu rhannu, eu dysgu a'u mabwysiadu yn parhau ar gyfer yr Awdurdodau Lleol sy'n cymryd rhan.

Mae rhaglen Arfor hefyd wedi cynnig mewnwelediad i'r mathau o ymyriadau a fydd yn cefnogi nodau strategol Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r iaith Gymraeg. Gall creu swyddi gynnig ffordd i bobl aros a gweithio yn yr ardal, er bod angen llawer o waith ac ymchwil i benderfynu pa fathau o swyddi sy'n annog siaradwyr Cymraeg i fyw yn yr ardal yn hytrach na mewnfudwyr di-Gymraeg. Mae hyn yn bwysig gan fod methu â gwneud hynny yn peryglu cymryd rhan mewn ymyriadau gwrthgynhyrchol sy'n cael effaith andwyol ar yr iaith. Gall gwerthusiad pellach a manylach o'r effaith gynnig mewnwelediad i'r materion hyn.

At ei gilydd, mae'r broses o gyflwyno'r rhaglen wedi sbarduno archwiliad beirniadol o'r problemau a'r atebion posibl y mae ardal Arfor yn eu hwynebu mewn perthynas â'r economi a'r iaith Gymraeg. Yn yr ystyr hwn, gellir ystyried bod y rhaglen yn llwyddiant hefyd. Mae staff a rhanddeiliaid wedi datblygu eu dealltwriaeth a'u data ategol ynghylch ffyrdd y gall datblygu economaidd gefnogi'r iaith. At hynny, mae model Arfor wedi profi ei hun i fod yn fodd llwyddiannus i dreialu ystod o gynlluniau ac, ar brydiau, cynnwysartneriaid cyflwyno ehangach a manteisio ar y cyfalaf cymdeithasol sy'n bodoli yn yr ardal.

Yn y pen draw, fodd bynnag, cronfa beilot neu arddangoswr oedd rhaglen Arfor. Felly, o ystyried ei graddfa, mae'n annhebygol y bydd yr **effaith uniongyrchol yn sylweddol y tu hwnt i'r busnesau neu'r cymunedau unigol a gefnogir**. Er mwyn i'r rhaglen gael effaith sylweddol a gwaddol adeiladol, **rheid rhannu'r ddysg** a rhaid **prif ffrydio cynlluniau**. **Serch hynny, mae strwythur Arfor**, sy'n cynnwys cydweithredu rhwng staff y pedwar awdurdod lleol, **yn cynrychioli ffordd effeithiol o gyflawni'r ddwy dasg hyn**. **Dylai'r awdurdodau lleol felly geisio cyfleoedd i barhau i gydweithredu, i rannu arfer da yn fewnol a'i hyrwyddo'n allanol, i brif ffrydio cynlluniau effeithiol ac i adnabod cyfleoedd i ariannu a gwerthuso peilotiaid pellach.**

5.1 Crynodeb o'r Gwersi

GWERS 1: Mae'r staff rheoli a'r rhanddeiliaid wedi datblygu eu ffordd o feddwl mewn perthynas â chysyniad allweddol Arfor, sef y syniad o "swydd well" yn yr ardal, ar ôl y pandemig. Dylai'r staff a'r rhanddeiliaid anelu at barhau i ddatblygu eu dealltwriaeth o'r hyn yw "swydd well"; bydd hyn yn hysbysu unrhyw ymdrechion yn y dyfodol i ddatblygu rhaglenni creu swyddi neu ymyriadau economaidd sy'n cael effaith fuddiol ar yr iaith. Dylai "swydd dda" hefyd ymwneud ag effaith gymdeithasol ac iaith y swydd sy'n cael ei chreu.

GWERS 2: Yn strategol, dylid cyfyngu ar ddisgwyliadau pa effaith y gall rhaglen creu swyddi ei chael ar fudo (i mewn ac allan) ac, o ganlyniad, yr iaith. Yn ddelfrydol, dylai dulliau economi>iaith fod yn rhan o strategaeth ehangach i fynd i'r afael â'r ffactorau gwaelodol a strwythurol sy'n bygwth cynaliadwyedd yr iaith.

GWERS 3: Argymhellir bod proffil oedran unigolion sy'n elwa o greu swyddi yn cael ei gasglu mewn data monitro yn y dyfodol. Byddai hyn yn galluogi i'r rheolwyr gael mewnwelediad i'r mathau o ymyriadau a swyddi sy'n annog pobl ifanc i aros yn yr ardal

GWERS 4: Dylai'r staff rheoli geisio ymgysylltu â Helo Blod Busnes Cymru a gwasanaethau cymorth busnes Comisiynydd y Gymraeg gyda'r nod o rannu eu profiadau a'u harfer da a ddatblygwyd wrth gyflwyno'r rhaglen hon.

GWERS 5: Os ystyrir estyniad neu barhad, dylid ystyried rôl cyfalaf cymdeithasol a gwerth ychwanegol clymblaid ehangach o bartneriaid cyflwyno a chefnogwyr wrth ddatblygu'r model cynllunio a chyflwyno. Dylai'r cynllun geisio cyfalafu a chynyddu'r effaith y gall y cyfalaf cymdeithasol ei chael i'r eithaf.

GWERS 6: Roedd angen mwy o adnoddau i reoli a chyflwyno'r rhaglen nag a ragwelwyd. Os caiff ei hestyn neu ei pharhau, dylai'r rhaglen roi cyfrif am faich gweinyddol gweinyddu'r grantiau.

GWERS 7: Os ystyrir estyniad neu barhad, dylid cynnwys sefydliadau sy'n ganolbwyntiau mewn sectorau, fel Yr Egin neu Ganolfan Bwyd Cymru, yn ogystal â'r Prifysgolion niferus yn yr ardal fel partneriaid cyflwyno posib.

GWERS 8: Os ystyrir estyniad neu barhad, dylai'r rheolwyr a'r cyllidwyr ystyried caniatáu mwy o amser i gynllunio a datblygu cynlluniau. Dylai hyn alluogi i staff fynd at randdeiliaid allweddol a phartneriaid cyflwyno posibl i ychwanegu gwerth at y gefnogaeth yn ogystal â thynnu rhwydwaith ehangach o gyfranogwyr i'r maes o ddatblygu ymyriadau economaidd sydd o fudd i'r iaith.

GWERS 9: Dylai rheolwyr y rhaglen a'r pedwar Awdurdod Lleol geisio cadw mewn cysylltiad â busnesau a buddiolwyr y rhaglen. Dylai'r rheolwyr anelu at barhau i fonitro'r effaith y mae'r gefnogaeth wedi'i chael yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf.

GWERS 10: Wrth geisio rhannu arfer da a dysg, a hyrwyddo prif ffrydio gweithgareddau llwyddiannus, dylai'r pedwar ALL barhau i gydweithredu i'r dyfodol p'un a oes rhaglen Arfor ffurfiol yn bodoli ai peidio. Mae strwythur Arfor yn cyflwyno cyfleoedd i gynnal cydweithredu; ar gyfer rhannu arfer da a dysg yn fewnol; adnabod cyfleoedd ar gyfer prif ffrydio; adnabod cyfleoedd cyllido ar gyfer treialu pellach; ac ar gyfer hyrwyddo dysg a gwybodaeth yn allanol i ddylanwadu ar strwythurau llywodraethu economaidd ehangach.

Adroddiad: Ffynonellau Cyfeiriedig

Powel, D., (2020) *Is there a statistical relationship between economic development and the Welsh language?* Blogpost [ar-lein] Ar gael yn <https://www.arsyllfa.cymru/is-there-a-statistical-relationship-between-economic-development-and-the-welsh-language/> (Cyrchwyd 29 Ebrill 2021)

Comisiwn Symudedd Cymdeithasol, 2020. *Moving Out to Move On: Understanding the link between migration, disadvantage and social mobility.* [ar-lein] Ar gael yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/902943/Moving_out_to_move_on_report.pdf [Cyrchwyd 4 Ionawr 2021].

Thomas, H., Duggan, B., Glover, A. a Glyn, E. (2020) *Y Gymraeg a'r economi: adolygiad o'r dystiolaeth a'r dulliau.* Llywodraeth Cymru

wavehill™

social and economic research
ymchwil cymdeithasol ac economaidd

01545 571711
wavehill@wavehill.com
wavehill.com

